



Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

2024 dsc 3

Nodiadau Esboniadol

Infrastructure (Wales) Act 2024

2024 asc 3

Explanatory Notes

£25.78



Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

2024 dsc 3

Nodiadau Esboniadol

Infrastructure (Wales) Act 2024

2024 asc 3

Explanatory Notes

DEDDF SEILWAITH (CYMRU) 2024

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 16 Ebrill 2024 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mehefin 2024. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

CRYNODEB A'R CEFNDIR

2. Mae'r Ddeddf yn diwygio sut y rhoddir cydsyniad i seilwaith yng Nghymru. Mae'n sefydlu proses cydsynio seilwaith unedig o'r enw Cydsyniad Seilwaith ar gyfer mathau penodedig o seilwaith mawr ar y tir ac ar y môr, o'r enw Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol. Mae'r rhain, ar y cyfan, yn brosiectau ynni, prosiectau trafndiaeth, prosiectau trin gwastraff, prosiectau dŵr a phrosiectau nwy. Mae'r Cydsyniad Seilwaith yn disodli, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, nifer o gyfundrefnau statudol presennol ar gyfer cydsynio i Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol, ac mae'n rhesymoli nifer yr awdurdodiadau sy'n ofynnol i adeiladu a gweithredu Prosiect Seilwaith Arwyddocaol mewn un cydsyniad.
3. Cyhoeddwyd papur ymgynghori, *Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrsasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru*, ar 30 Ebrill 2018 sy'n nodi prif egwyddorion y Ddeddf. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Gorffennaf 2018 a chyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2018¹. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio datblygiad y Ddeddf.
4. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 148 o adrannau sydd wedi eu trefnu'n 9 Rhan, a 3 Atodlen.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 – Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol

5. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn diffinio ystyr Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol a'r prosiectau cymwys a fydd yn ddarostyngedig i'r broses gydsynio hon.

¹ [Newidiadau i gymeradwyo gwaith datblygu'r seilwaith | LLYW.CYMRU.](#)

INFRASTRUCTURE (WALES) ACT 2024

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Infrastructure (Wales) Act 2024 (“the Act”) which was passed by Senedd Cymru on 16 April 2024 and received Royal Assent on 3 June 2024. They have been prepared by the Planning Directorate of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

SUMMARY AND BACKGROUND

2. The Act reforms how infrastructure is consented in Wales. It establishes a unified infrastructure consenting process called an Infrastructure Consent for specified types of major infrastructure both onshore and offshore, called Significant Infrastructure Projects. These, in the main, comprise of energy, transport, waste, water and gas projects. The Infrastructure Consent replaces, either fully or partially, a number of existing statutory regimes for the consenting of Significant Infrastructure Projects and rationalises the number of authorisations required to construct and operate a Significant Infrastructure Project into a single consent.
3. A consultation paper, *Changes to the consenting of infrastructure: Towards establishing a bespoke infrastructure consenting process in Wales*, was published on 30 April 2018 and sets out the main principles of the Act. The consultation closed on 23 July 2018 and the Government’s response to the consultation was issued in November 2018¹. The responses to the consultation were used to inform development of the Act.
4. The Act contains 148 sections arranged in 9 Parts, and 3 Schedules.

COMMENTARY ON SECTIONS

Part 1 – Significant infrastructure project

5. Part 1 of the Act defines the meaning of Significant Infrastructure Projects and the qualifying projects which will be subject to this consenting process.

¹ [Changes to the approval of infrastructure development | GOV.WALES.](#)

Term allweddol

Adran 1 – Ystyr “prosiect seilwaith arwyddocaol”

6. Mae adran 1 yn darparu bod datblygiad yn “Prosiect Seilwaith Arwyddocaol” os yw'n dod o fewn un o blith tri o gategoriâu. Er mwyn bod yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol, rhaid i brosiectau:
- fod yn ddatblygiad a bennir yn “prosiect seilwaith arwyddocaol” yn Rhan 1 o'r Ddeddf,
 - bod wedi eu pennu mewn cyfarwydd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22, neu
 - bod wedi eu pennu yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, sef fframwaith y mae'r ofynnol i Weinidogion Cymru ei wneud o dan adran 60(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (“Deddf 2004”).
7. Ar yr adeg y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol, enw'r fframwaith cyhoeddedig o dan Ddeddf 2004 yw “Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040”². Nid yw'r fersiwn hon o'r fframwaith yn pennu prosiectau yn rhai sy'n brosiectau seilwaith arwyddocaol at ddibenion y Ddeddf, ond caiff fframweithiau sy'n disodli'r fframwaith hwnnw wneud hynny.
8. Ceir tri o dermau a ddiffinnir yn y Ddeddf sy'n arbennig o bwysig at ddibenion y disgrifiadau o Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol yn Rhan 1, sef “datblygiad” (gweler adran 133), “Cymru” ac “ardal forol Cymru” (gweler adran 143).

Ynni

Adran 2 – Y seilwaith trydan

9. Mae adran 2 yn datgan yr amgylchiadau y bydd seilwaith trydan yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- adeiladu gorsaf gynhyrchu (heblaw gorsaf ynni gwynt) yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru, pan ddisgwylir y bydd ganddi gapasiti cynhyrchu gosodedig o rhwng 50MW a 350MW (yn gynhwysol);
 - addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu (heblaw gorsaf ynni gwynt) yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru, pan ddisgwylir mai effaith hynny fydd cynyddu'r capasiti cynhyrchu gosodedig 50MW o leiaf, fodd bynnag, ni chaniateir i effaith yr estyniad gynyddu'r capasiti cynhyrchu cyfan y tu hwnt i 350MW;
 - adeiladu gorsaf ynni gwynt yng Nghymru, y disgwylir y bydd ganddi gapasiti cynhyrchu gosodedig o 50MW o leiaf;
 - addasu neu estyn gorsaf ynni gwynt yng Nghymru, pan ddisgwylir mai effaith hynny fydd cynyddu'r capasiti cynhyrchu gosodedig 50MW o leiaf;
 - gosod llinellau trydan uwchben y ddaear yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag adeiladu, estyn neu addasu gorsaf gynhyrchu sy'n Brosiect Seilwaith Arwyddocaol y disgwylir y bydd ganddynt foltedd enwol o 132KV ac y byddant yn 2 gilomedr o hyd o leiaf (i'r graddau y maent yng Nghymru).

² [Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 \(llyw.cymru\)](https://www.llyw.cymru/).

Key term

Section 1 – Meaning of “significant infrastructure project”

6. Section 1 provides that development is a “Significant Infrastructure Project” if it falls within one of three categories. In order to be a Significant Infrastructure Project, projects must:
 - be a development that is specified in Part 1 of the Act as a “significant infrastructure project”,
 - be specified in a direction made by the Welsh Ministers under section 22, or
 - be specified as a Significant Infrastructure Project in the National Development Framework for Wales that the Welsh Ministers are required to make under section 60(3) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (the “2004 Act”).
7. At the time of the Act receiving Royal Assent, the published framework under the 2004 Act is titled “Future Wales: the National Plan 2040”². This iteration of the framework does not specify projects as being significant infrastructure projects for the purposes of the Act, but replacement frameworks may do so.
8. There are three defined terms in the Act that are particularly important for the purposes of the descriptions of Significant Infrastructure Projects in Part 1. These terms are “development” (see section 133), “Wales” and “Welsh marine area” (see section 143).

Energy

Section 2 – Electricity infrastructure

9. Section 2 states the circumstances in which electricity infrastructure will be a Significant Infrastructure Project. These are:
 - the construction of a generating station (other than a wind generating station) in Wales or the Welsh marine area, where it is expected to have an installed generating capacity of between 50MW and 350MW (inclusive);
 - the alteration or extension of a generating station (other than a wind generating station) in Wales or the Welsh marine area, where its effect is to increase the installed generating capacity by at least 50MW, however, the effect of the extension must not increase the overall generating capacity beyond 350MW;
 - the construction of a wind generating station in Wales, where it is expected to have an installed generating capacity of at least 50MW;
 - the alteration or extension of a wind generating station in Wales, where its effect is to increase the installed generating capacity by at least 50MW;
 - the installation of above ground electric lines in Wales associated with the construction, extension or alteration of a generating station which is a Significant Infrastructure Project which are expected to have a nominal voltage of 132KV and a minimum length of 2km (to the extent they are in Wales).

² [Update to Future Wales - The National Plan 2040 \(gov.wales\)](https://gov.wales).

Adran 3 – Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig

10. Mae adran 3 yn datgan yr amgylchiadau y bydd datblygiad sy'n ymwneud â chyfleuster nwy naturiol hylifedig yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- ar gyfer adeiladu cyfleuster yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru, pan ddisgwylir i gynhwysedd storio'r cyfleuster fod yn 43 o filiynau o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu os disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf;
 - ar gyfer addasu cyfleuster yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru, pan ddisgwylir i gynhwysedd storio presennol y cyfleuster gynyddu 43 o filiynau o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu os disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster gynyddu 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf.

Adran 4 – Cyfleusterau derbyn nwy

11. Mae adran 4 yn datgan yr amgylchiadau y bydd datblygiad sy'n ymwneud â chyfleusterau derbyn nwy yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- adeiladu cyfleuster derbyn nwy yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru pan ddisgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn fwy na 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod;
 - addasu cyfleuster derbyn nwy pan ddisgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster presennol gynyddu 4.5 miliwn metr ciwbig safonol y diwrnod o leiaf.
12. Yn ogystal, mae is-adran (3) yn pennu, er mwyn bod yn gymwys i fod yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol –
- na chaniateir i'r cyfleuster derbyn nwy drin nwy sy'n tarddu o Gymru, Lloegr, neu'r Alban, y môr tiriogaethol sy'n gyfagos at y tiriogaethau hynny, neu'r Parth Ynni Adnewyddadwy. Y "Parth Ynni Adnewyddadwy" yw'r ardal o'r môr y tu hwnt i fôr tiriogaethol y Deyrnas Unedig lle y mae gan y DU hawliau elwa ar gyfer cynhyrchu ynni o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (Cmnd 8941);
 - na chaniateir i'r nwy a gaiff ei drin gan y cyfleuster fod wedi cyrraedd y cyfleuster o Loegr neu'r Alban, ac na chaiff fod wedi ei drin eisoes mewn cyfleuster arall ar ôl iddo gyrraedd Cymru neu'r ardal forol.

Adran 5 – Hollti hydrologig am olew a nwy a nweiddio glo

13. Mae adran 5 yn datgan yr amgylchiadau y bydd hollti hydrologig am olew a nwy a nweiddio glo yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- datblygiad fforio, arfarnu neu gynhyrchu methan haen lo, olew siâl neu nwy siâl gan ddefnyddio dulliau cloddio anghonfensiynol, gan gynnwys hollti hydrologig yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru, ac eithrio gwneud tyllau turio fforiol nad yw'n golygu cynnal hollti hydrologig, a
 - datblygiad nweiddio glo yn y strata, ac eithrio gwneud tyllau turio fforiol at ddiben samplu creiddiol.

Section 3 – Liquefied natural gas facilities

10. Section 3 states the circumstances in which development related to liquefied natural gas facilities will be a Significant Infrastructure Project. These are:
- for the construction of a facility in Wales or the Welsh marine area, the storage capacity is expected to be at least 43 million standard cubic metres or have a maximum flow rate of at least 4.5 million standard cubic metres per day;
 - for the alteration of a facility in Wales or the Welsh marine area, the existing storage capacity is expected to increase by at least 43 million standard cubic metres or by a maximum flow rate of at least 4.5 million standard cubic metres more per day.

Section 4 – Gas reception facilities

11. Section 4 states the circumstances in which development related to gas reception facilities will be a Significant Infrastructure Project. These are:
- the construction of a gas reception facility in Wales or the Welsh marine area where the maximum flow rate of the facility is expected to exceed 4.5 million standard cubic metres per day;
 - the alteration of a gas reception facility where the maximum flow rate of the existing facility is expected to increase by at least 4.5 million standard cubic metres per day.
12. In addition, subsection (3) specifies that to qualify as a Significant Infrastructure Project, –
- the gas reception facility must not handle gas that originates in Wales, England, or Scotland, the territorial sea adjacent to those territories or the Renewable Energy Zone. The “Renewable Energy Zone” is the area of the sea outside the territorial sea of the United Kingdom where the UK has exploitation rights for energy production under the United Nations Convention on the Law of the Sea 1982 (Cmnd 8941);
 - the gas handled by the facility must not have arrived at the facility from England or Scotland, and must not have already been handled at another facility after its arrival in Wales or the marine area.

Section 5 – Hydraulic fracturing for oil and gas and coal gasification

13. Section 5 states the circumstances in which hydraulic fracturing for oil and gas and coal gasification will be a Significant Infrastructure Project. These are:
- development that is the exploration, appraisal or production of coal bed methane or shale oil or gas using unconventional extraction techniques including hydraulic fracturing in Wales or the Welsh marine area, except for exploratory boreholes which do not involve the carrying out of hydraulic fracturing, and
 - development that is the gasification of coal in the strata, with the exclusion of the drilling of boreholes solely for the purpose of core sampling.

Adran 6 – Mwyngloddio glo brig

14. Mae adran 6 yn datgan bod creu mwynglawdd glo brig neu gloddio a gweithio glo o fwynglawdd glo brig yng Nghymru yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.

Trafnidiaeth

Adran 7 – Priffyrdd

15. Mae adran 7 yn darparu bod adeiladu priffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fydd y briffordd yng Nghymru;
 - pan mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;
 - pan fydd y briffordd yn briffordd ddi-dor o fwy nag 1 cilometr o hyd.
16. Mae'r adran hon hefyd yn datgan bod addasu priffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fydd y briffordd yng Nghymru;
 - pan mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;
 - pan fydd yr addasu neu'r gwella yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.
17. Mae is-adrannau (4) i (6) yn pennu pryd nad yw adeiladu, addasu neu wella priffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.

Adran 8 – Rheilffyrdd

18. Mae adran 8 yn datgan bod adeiladu rheilffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fydd y rheilffordd yn dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru,
 - pan fydd y rheilffordd yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr a gymeradwywyd,
 - pan fydd y rheilffordd yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd, a
 - pan nad yw adeiladu'r rheilffordd yn ddatblygu a ganiateir.
19. Mae'r adran hon hefyd yn datgan bod addasu rheilffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fydd y rhan o'r rheilffordd sydd i'w haddasu yn rhan o reilffordd sy'n dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru,
 - pan fydd y rheilffordd yn rhan o rwydwaith a weithredir gan weithredwr a gymeradwywyd,
 - pan fydd yr addasiad i'r rheilffordd yn cynnwys gosod darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd, a
 - pan nad yw adeiladu'r rheilffordd yn ddatblygu a ganiateir.
20. Datblygu a ganiateir yw datblygu y mae caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo gan erthygl 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd).

Section 6 – Open cast coal mining

14. Section 6 states that the creation of open cast coal mine or the winning and working of coal from an open cast coal mine in Wales is a Significant Infrastructure Project.

Transport

Section 7 – Highways

15. Section 7 provides that the construction of a highway is a Significant Infrastructure Project when:
- the highway will be in Wales;
 - the Welsh Ministers will be the highway authority for the highway;
 - the highway will be a continuous length of more than 1 kilometre.
16. This section also states that the alteration of a highway is a Significant Infrastructure Project when:
- the highway will be in Wales;
 - the Welsh Ministers will be the highway authority for the highway;
 - the alteration or improvement is likely to have a significant effect on the environment.
17. Subsections (4) to (6) specify when the construction, alteration or improvement of a highway is not a Significant Infrastructure Project.

Section 8 – Railways

18. Section 8 states that the construction of a railway is a Significant Infrastructure Project when:
- the railway will start, end and remain in Wales,
 - the railway will be part of a network operated by an approved operator,
 - the railway will include a stretch of track that is a continuous length of more than 2 kilometres, and
 - the construction of the railway is not permitted development.
19. This section also states that the alteration of a railway is a Significant Infrastructure Project when:
- the part of the railway to be altered is part of a railway that starts, ends and remains in Wales,
 - the railway is part of a network operated by an approved operator,
 - the alteration of the railway will include laying a stretch of track that is a continuous length of more than 2 kilometres, and
 - the construction of the railway is not permitted development.
20. Permitted development is development in relation to which planning permission is granted by article 3 of the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (as it has effect from time to time).

21. Nid yw'r adran hon yn gymwys i adeiladu neu addasu rheilffordd i'r graddau y bo'r rheilffordd yn ffurfio rhan o gyfnewidfa nwyddau rheilffordd (gweler adran 9).

Adran 9 – Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd

22. Mae adran 9 yn pennu'r amgylchiadau y mae adeiladu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- rhaid i'r tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno:
 - bod yng Nghymru, a
 - bod ag arwynebedd o 60 o hectarau o leiaf,
 - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu trin:
 - llwythi o nwyddau oddi wrth fwy nag un traddodwr ac i fwy nag un traddodai, a
 - o leiaf bedwar trên nwyddau y dydd,
 - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru,
 - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd gynnwys warysau y gellir danfon nwyddau iddynt o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru naill ai yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng math arall o drafnidiaeth, a
 - ni chaiff y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o sefydliad milwrol.
23. Mae'r adran hon hefyd yn pennu'r amgylchiadau y mae addasu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- rhaid i'r tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno fod yng Nghymru;
 - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu trin:
 - llwythi o nwyddau oddi wrth fwy nag un traddodwr ac i fwy nag un traddodai, a
 - o leiaf bedwar trên nwyddau y dydd;
 - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru;
 - rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd gynnwys warysau y gellir danfon nwyddau iddynt o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru naill ai yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng math arall o drafnidiaeth;
 - ni chaiff y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o sefydliad milwrol;
 - rhaid i'r addasiad gynyddu arwynebedd y tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno 60 o hectarau o leiaf.

Adran 10 – Cyfleusterau harbwr

24. Mae adran 10 yn pennu'r amgylchiadau y bydd adeiladu cyfleusterau harbwr yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
- bod y prosiect yn gyfan gwbl yng Nghymru, yn ardal forol Cymru, neu yn y naill a'r llall,
 - na fydd y prosiect yn borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl, nac yn ffurfio rhan o borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl, a
 - bod y prosiect yn gallu trin llwytho neu ddadlwytho y swm perthnasol o ddeunydd y flwyddyn o leiaf.

21. This section does not apply to the construction or alteration of a railway to the extent that the railway forms part of a rail freight interchange (see section 9).

Section 9 – Rail freight interchanges

22. Section 9 specifies the circumstances when the construction of a rail freight interchange is a Significant Infrastructure Project. These are:

- the land on which the rail freight interchange is situated must:
 - be in Wales, and
 - be at least 60 hectares in area,
- the rail freight interchange must be capable of handling:
 - consignments of goods from more than one consignor and to more than one consignee, and
 - at least four goods trains per day,
- the rail freight interchange must be part of the railway network in Wales,
- the rail freight interchange must include warehouses to which goods can be delivered from the railway network in Wales either directly or by means of another form of transport, and
- the rail freight interchange must not be part of a military establishment.

23. This section also specifies the circumstances when the alteration of a rail freight interchange is a Significant Infrastructure Project. These are:

- the land on which the rail freight interchange is situated must be in Wales;
- the rail freight interchange must be capable of handling:
 - consignments of goods from more than one consignor and to more than one consignee, and
 - at least four goods trains per day;
- the rail freight interchange must be part of the railway network in Wales;
- the rail freight interchange must include warehouses to which goods can be delivered from the railway network in Wales either directly or by means of another form of transport;
- the rail freight interchange must not be part of a military establishment;
- the alteration must increase by at least 60 hectares the area of the land on which the rail freight interchange is situated.

Section 10 – Harbour facilities

24. Section 10 specifies the circumstances when the construction of a harbour facility is a Significant Infrastructure Project. These are:

- the project will be wholly in Wales, the Welsh marine area or both,
- the project will not be, or will not form part of, a reserved trust port, and
- the project can handle the embarkation or disembarkation of at least the relevant quantity of material per year.

25. Bydd addasiadau i gyfleusterau harbwr yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol pan ddisgwylir mai effaith yr addasiad fydd cynyddu y swm perthnasol y flwyddyn o leiaf swm y deunydd y mae'r harbwr yn gallu ei drin.
26. Mae is-adrannau (3) i (6) yn nodi beth yw "y swm perthnasol".

Adran 11 – Meysydd awyr

27. Mae adran 11 yn pennu'r amgylchiadau y mae adeiladu maes awyr sydd yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
 - y bydd y maes awyr yn darparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar gyfer o leiaf 1 filiwn o deithwyr bob blwyddyn, neu
 - y bydd y maes awyr yn darparu gwasanaethau cludo cargo awyr ar gyfer o leiaf 5,000 o symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo bob blwyddyn.
28. Mae'r adran hefyd yn pennu'r amgylchiadau y mae addasu maes awyr yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
 - y bydd yr addasu yn cynyddu nifer y teithwyr y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo teithwyr awyr ar eu cyfer 1 filiwn y flwyddyn o leiaf, neu
 - y bydd yr addasu yn cynyddu nifer y symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo y gall y maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr ar eu cyfer 5,000 y flwyddyn o leiaf.
29. Mae'r adran hefyd yn darparu'r amgylchiadau pan fydd defnydd a ganiateir o faes awyr yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol, sef:
 - cynnydd o 1 filiwn y flwyddyn o leiaf yn nifer y teithwyr y caniateir i'r maes awyr ddarparu gwasanaeth cludo teithwyr awyr iddynt, neu
 - cynnydd o 5,000 y flwyddyn o leiaf yn nifer y symudiadau cludo awyr gan awyrennau cargo y caniateir i'r maes awyr ddarparu gwasanaethau cludo cargo awyr iddynt.

Dŵr

Adran 12 – Argaeau a chronfeydd dŵr

30. Mae adran 12 yn pennu'r amgylchiadau y bydd datblygiad sy'n ymwneud ag argaeau a chronfeydd dŵr yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol odanynt, sef:
 - adeiladu argae neu gronfa ddŵr yng Nghymru os yw cyfaint disgwylidig y dŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig;
 - addasu argae neu gronfa ddŵr yng Nghymru os yw cyfaint ychwanegol disgwylidig y dŵr a gedwir yn ôl gan yr argae neu a gaiff ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i'r addasiad yn fwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig.

25. Alterations to a harbour facility will be a Significant Infrastructure Project when the effect of the alteration is expected to be to increase by at least the relevant quantity of material per year the quantity of material handled by the harbour.
26. Subsections (3) to (6) set out what “the relevant quantity” is.

Section 11 – Airports

27. Section 11 specifies the circumstances when the construction of an airport in Wales or the Welsh marine area is a Significant Infrastructure Project. These are:
- the airport will provide air passenger transport services for at least 1 million passengers per year, or
 - the airport will provide air cargo transport services for at least 5,000 air transport movements of cargo aircraft per year.
28. The section also specifies the circumstances when the alteration of an airport in Wales or the Welsh marine area is a Significant Infrastructure Project. These are:
- the alteration will increase by at least 1 million per year the number of passengers for whom the airport can provide air passenger transport services, or
 - the alteration will increase by at least 5,000 per year the number of air transport movements of cargo aircraft for which the airport can provide air cargo transport services.
29. The section also provides the circumstances when permitted use of an airport in Wales or the Welsh marine area is a Significant Infrastructure Project. These are:
- an increase of at least 1 million per year in the number of passengers for whom the airport is permitted to provide air passenger transport services, or
 - an increase of at least 5,000 per year in the number of air transport movements of cargo aircraft for which the airport is permitted to provide air cargo transport services.

Water

Section 12 – Dams and reservoirs

30. Section 12 specifies the circumstances when development relating to dams and reservoirs will be a Significant Infrastructure Project. These are:
- the construction of a dam or reservoir in Wales if the volume of water to be held back by the dam or stored in the reservoir is expected to exceed 10 million cubic metres;
 - the alteration of a dam or reservoir in Wales if the additional volume of water to be held back by the dam or stored in the reservoir as a result of the alteration is expected to exceed 10 million cubic metres.

Adran 13 – Trosglwyddo adnoddau dŵr

31. Mae adran 13 yn pennu bod trosglwyddo adnoddau dŵr yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fo'r datblygiad yn cael ei gynnal gan un neu ragor o ymgwymerwyr dŵr,
 - pan fo'r datblygiad yn digwydd yng Nghymru,
 - pan ddisgwylir y bydd cyfaint y dŵr a drosglwyddir o ganlyniad i'r datblygiad yn fwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn, a
 - pan fo'r datblygiad yn galluogi trosglwyddo adnoddau dŵr, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

Dŵr Gwastraff

Adran 14 – Gweithfeydd trin dŵr gwastraff

32. Mae adran 14 yn pennu bod adeiladu neu addasu gwaith trin dŵr gwastraff yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fo'r gwaith trin yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
 - pan fo capasiti disgwylidig y gwaith trin, ar ôl ei adeiladu, yn fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000, neu
 - yn achos addasiad, pan mai effaith ddisgwylidig yr addasiad yw cynyddu capasiti'r gwaith fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.
33. Mae adeiladu neu addasu seilwaith i drosglwyddo neu storio dŵr gwastraff yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fo'r seilwaith yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
 - pan mai prif ddiben y seilwaith yw:
 - trosglwyddo dŵr gwastraff ar gyfer ei drin, neu
 - storio dŵr gwastraff cyn ei drin, neu'r ddau, a
 - pan ddisgwylir i'r seilwaith, ar ôl ei adeiladu, fod â chapasiti i storio mwy na 350,000 o fetrau ciwbig o ddŵr gwastraff, neu, yn achos addasiad i'r seilwaith, pan ddisgwylir mai effaith yr addasiad yw cynyddu capasiti'r seilwaith i storio dŵr gwastraff fwy na 350,000 o fetrau ciwbig.

Gwastraff

Adran 15 – Cyfleusterau gwastraff peryglus

34. Mae adran 15 yn pennu bod adeiladu cyfleuster gwastraff peryglus yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- os yw'r cyfleuster yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
 - os prif ddiben y cyfleuster yw gwaredu gwastraff peryglus yn derfynol neu ei adfer, ac
 - os disgwylir i'r cyfleuster fod â'r capasiti a bennir yn is-adran (2).
35. Mae'r adran hefyd yn pennu bod addasu cyfleuster gwastraff peryglus yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- os yw'r cyfleuster yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
 - os prif ddiben y cyfleuster yw gwaredu gwastraff peryglus yn derfynol neu ei adfer, ac

Section 13 – Transfer of water resources

31. Section 13 specifies that the transfer of water resources is a Significant Infrastructure Project when:
- the development is carried out by one or more water undertakers,
 - the development takes place in Wales,
 - the volume of water to be transferred as a result of the development is expected to exceed 100 million cubic metres per year, and
 - the development enables the transfer of water resources, subject to limitations.

Waste water

Section 14 – Waste water treatment plants

32. Section 14 specifies that the construction or alteration of a waste water treatment plant is a Significant Infrastructure Project when:
- the treatment plant is in Wales or the Welsh marine area,
 - the treatment plant, when constructed, is expected to have a capacity exceeding a population equivalent of 500,000, or,
 - in the case of an alteration, the effect of the alteration is expected to be to increase by more than a population equivalent of 500,000 the capacity of the plant.
33. The construction or alteration of infrastructure for the transfer or storage of waste water is a Significant Infrastructure Project when:
- the infrastructure is in Wales or the Welsh marine area,
 - the main purpose of the infrastructure is:
 - the transfer of waste water for treatment, or
 - the storage of waste water prior to treatment, or both, and
 - the infrastructure is expected, when constructed, to have a capacity for the storage of waste water exceeding 350,000 cubic metres, or, in the case of an alteration of the infrastructure, the effect of the alteration is expected to be to increase the capacity of the infrastructure for the storage of waste water by more than 350,000 cubic metres.

Waste

Section 15 – Hazardous waste facilities

34. Section 15 specifies that the construction of a hazardous waste facility is a Significant Infrastructure Project if:
- the facility is in Wales or the Welsh marine area,
 - the main purpose of the facility is the final disposal or recovery of hazardous waste, and
 - the facility is expected to have the capacity specified in subsection (2).
35. The section also specifies that the alteration of a hazardous waste facility is a Significant Infrastructure Project if:
- the facility is in Wales or the Welsh marine area,
 - the main purpose of the facility is the final disposal or recovery of hazardous waste, and

- os disgwylir i'r addasiad gynyddu capasiti'r cyfleuster fel a bennir yn is-adran (3)(c).

Adran 16 – Cyfleusterau gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol

36. Mae adran 16 yn pennu bod datblygiad sy'n ymwneud â chyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol:
- pan fo un neu ragor o dyllau turio yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru yn cael ei adeiladu neu eu hadeiladu o leiaf 150 o fetrau o ddyfnder o dan arwyneb y ddaear neu wely'r môr, a'u prif ddiben yw cael data neu samplau er mwyn penderfynu a yw'r safle yn addas ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol.
 - pan fo cyfleuster gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol yn cael ei adeiladu yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru.

Pŵer i Ddiwygio

Adran 17 – Pŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau

37. Mae adran 17 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio Rhan 1 drwy reoliadau er mwyn ychwanegu math newydd o brosiect at y diffiniad o brosiect seilwaith arwyddocaol neu i amrywio neu ddileu'r prosiectau seilwaith arwyddocaol presennol a ddiffinnir yn y Ddeddf. Ni chaniateir ychwanegu neu amrywio prosiectau ond os yw'r prosiect newydd, neu unrhyw amrywiad i brosiect presennol, ar gyfer cynnal gwaith ym meysydd ynni, atal llifogydd, mwynau, cludiant, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff a bod y gwaith i'w gynnal yng Nghymru, yn ardal forol Cymru, neu yn y naill a'r llall.

Dehongli

Adran 18 – Prosiectau trawsffiniol

38. Mae adran 18 yn darparu bod cyfeiriadau yn Rhan 1 at ddatblygiad sydd "yng Nghymru" neu "yn ardal forol Cymru" yn cynnwys datblygiad sydd yn rhannol yn yr ardaloedd hynny. Mae hefyd yn darparu, pan fo cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar gyfer datblygiad sy'n rhannol yng Nghymru neu'n rhannol yn ardal forol Cymru, nad yw cydsyniad seilwaith ond yn ofynnol i'r graddau y bo'r datblygiad yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru.

Rhan 2 – Gofyniad am gydsyniad seilwaith

39. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gosod gofyniad i gael cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol neu'n ffurfio rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith y gofyniad hwn ar gyfundrefnau statudol eraill.

Y gofyniad

Adran 19 – Gofyniad am gydsyniad seilwaith

40. Mae adran 19 yn gosod gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer datblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol neu'n ffurfio rhan o brosiect seilwaith arwyddocaol (fel y'i diffinnir yn adran 1). Cyfeirir at y cydsyniad yn y Ddeddf fel "cydsyniad seilwaith".

- the alteration is expected to increase the capacity of the facility as specified in subsection (3)(c).

Section 16 – Radioactive waste geological disposal facilities

36. Section 16 specifies that development relating to a radioactive waste geological disposal facility is a Significant Infrastructure Project where it is:
- the construction of one or more boreholes in Wales or the Welsh marine area to a depth of at least 150 metres beneath the surface of the ground or seabed, and their main purpose is to obtain data or samples to determine the suitability of the site for a radioactive waste geological disposal facility.
 - the construction of a radioactive waste geological disposal facility in Wales or the Welsh marine area.

Power to amend

Section 17 – Power to add, vary or remove projects

37. Section 17 allows the Welsh Ministers to amend Part 1 by regulations in order to add a new type of project to the definition of significant infrastructure project or to vary or remove the existing significant infrastructure projects defined in the Act. Projects may only be added or varied if the new project, or any variation to an existing project, is for the carrying out of works in the fields of energy, flood prevention, minerals, transport, water, waste water and waste and the works are to be carried out in Wales, the Welsh marine area, or both.

Interpretation

Section 18 – Cross-border projects

38. Section 18 provides that references in Part 1 to development being “in Wales” or “in the Welsh marine area” include development partly in those areas. It also provides that where infrastructure consent is required for development that is partly in Wales or the Welsh marine area, infrastructure consent is required only to the extent the development is in Wales or the Welsh marine area.

Part 2 – Requirement for infrastructure consent

39. Part 2 of the Act imposes a requirement for infrastructure consent to be obtained for development which is or forms part of a significant infrastructure project, and makes provision about the effect of this requirement on other statutory regimes.

The requirement

Section 19 – Requirement for infrastructure consent

40. Section 19 imposes a requirement to obtain the consent of the Welsh Ministers for development which is, or forms part of, a significant infrastructure project (as defined in section 1). The consent is referred to in the Act as “infrastructure consent”.

Adran 20 – Effaith gofyniad am gydsyniad seilwaith

41. Mae adran 20(1) yn rhestru'r cydsyniadau, y caniatadau a'r awdurdodiadau nad yw'n ofynnol eu cael neu eu rhoi mewn perthynas â datblygiad i'r graddau y bo cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar gyfer y datblygiad.
42. Mae is-adrannau (2) i (4) yn rhestru gorchmynion ac awdurdodiadau penodol na chaniateir eu gwneud, eu cadarnhau neu eu rhoi i'r graddau y bo cydsyniad seilwaith yn ofynnol.

Pwerau i newid y gofyniad neu ei Effaith

Adran 21 – Pŵer i ychwanegu neu ddileu mathau o gydsyniad

43. Mae adran 21 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 20(1) a (2) drwy reoliadau i ychwanegu neu ddileu math o gydsyniad neu er mwyn amrywio'r achosion y mae math o gydsyniad yn dod o fewn adran 20(1) neu (2) odanynt. Mae adran 21 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch y mathau o gydsyniad sydd o fewn, ac nad ydynt o fewn, adran 20(1) neu (2) a'r achosion y mae math o gydsyniad yn dod o fewn adran 20(1) a (2) ai peidio mewn perthynas â hwy.
44. Mae is-adran (2) yn caniatáu i reoliadau ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu deddfiad.
45. Mae is-adran (3) yn diffinio "cydsyniad" at ddibenion yr adran.

Adran 22 – Cyfarwyddydau sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol

46. Mae adran 22 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n pennu bod datblygiad penodol yn brosiect seilwaith arwyddocaol –
 - os bydd y datblygiad, ar ôl ei gwblhau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru,
 - os yw'r datblygiad yn brosiect neu'n ffurfio rhan o brosiect y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod o arwyddocâd cenedlaethol, ac
 - os yw'r datblygiad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.
47. Mae is-adran (3) yn egluro bod pŵer cyfarwyddyd o dan is-adran (1) dim ond yn gymwys i ddatblygiad i'r graddau y bo'r datblygiad yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru.
48. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod y mae cais wedi ei wneud iddo, neu y gallai gael ei wneud iddo, am gydsyniad neu awdurdodiad ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru i'w galluogi hwy i wneud cyfarwyddyd o dan is-adran (1), ac i benderfynu o dan ba delerau y dylid rhoi'r cyfarwyddyd.

Section 20 – Effect of requirement for infrastructure consent

41. Section 20(1) lists the consents, permissions and authorisations which are not required to be obtained or given in relation to a development to the extent that infrastructure consent is required for the development.
42. Subsections (2) to (4) list particular orders and authorisations which cannot be made, confirmed or given to the extent that infrastructure consent is required.

Powers to change the requirement or its effect

Section 21 – Power to add or remove types of consent

43. Section 21 allows the Welsh Ministers to amend section 20(1) and (2) by regulations to add or remove a type of consent or to vary the cases under which a type of consent falls within section 20(1) or (2). Section 21 also allows the Welsh Ministers to make further provision about the types of consent that are, and are not, within section 20(1) or (2) and the cases in relation to which a type of consent is or is not within section 20(1) and (2).
44. Subsection (2) allows regulations to amend, modify, repeal or revoke an enactment.
45. Subsection (3) defines “consent” for the purposes of the section.

Section 22 – Directions specifying development as a significant infrastructure project

46. Section 22 provides that the Welsh Ministers may give a direction specifying that a specific development is a significant infrastructure project, if—
 - the development, when completed, is wholly or partly in Wales or the Welsh marine area,
 - the development is or forms part of a project that the Welsh Ministers consider to be of national significance, and
 - the development is of a description specified in regulations.
47. Subsection (3) clarifies that the power of direction under subsection (1) applies to a development only to the extent that the development is in Wales or in the Welsh marine area.
48. Subsection (4) provides that the Welsh Ministers may require an authority to which an application for consent or authorisation has been, or may be, made to provide any information required by the Welsh Ministers to enable them to make a direction under subsection (1) and under which terms the direction should be given.

Adran 23 – Cyfarwyddydau bod ceisiadau i'w trin fel ceisiadau am gydsyniad seilwaith

49. Mae adran 23 yn darparu, os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 22, fod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo –
- bod cais sydd wedi ei wneud am ganiatâd, awdurdodiad, cydsyniad etc. a grybwyllir yn adran 20 i'w drin fel cais am gydsyniad seilwaith, neu
 - bod cais arfaethedig am gydsyniad o'r fath i'w drin fel cais arfaethedig am gydsyniad seilwaith.
50. Caiff cyfarwyddydau a wneir o dan yr adran hon ddarparu i ddarpariaethau penodedig mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys deddfiadau yn y Ddeddf) gael effaith mewn perthynas â'r cais neu'r cais arfaethedig gydag unrhyw addasiadau a bennir yn y cyfarwyddyd neu i gael eu trin fel pe cydymffurfiwyd â hwy mewn perthynas â'r cais neu'r cais arfaethedig.
51. Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod perthnasol atgyfeirio'r cais, neu'r cais arfaethedig, at Weinidogion Cymru. Yr "awdurdod perthnasol" yw'r awdurdod y gwneir y cais, neu y cynigir gwneud y cais, iddo.
52. Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried a ydynt am roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon cânt hefyd gyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach nes clywir yn wahanol.

Adran 24 – Cyfarwyddydau sy'n pennu nad yw datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol

53. Mae adran 24 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n pennu nad yw datblygiad a fyddai'n brosiect seilwaith arwyddocaol fel arall yn brosiect seilwaith arwyddocaol at ddiben y Ddeddf hon. Ni chaniateir rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon ond os bydd y datblygiad yn rhannol yng Nghymru neu yn rhannol yn ardal forol Cymru.
54. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cyfarwyddyd ac adrodd i'r Senedd fod cyfarwyddyd wedi ei roi.

Adran 25 – Cyfarwyddydau o dan adrannau 22 i 24: darpariaeth gyffredinol

55. Mae adran 25 yn datgan y caniateir rhoi unrhyw gyfarwyddyd a wneir o dan adrannau 22 i 24 yn ddarostyngedig i amodau ac y caiff bennu o fewn pa gyfnod o amser y mae'n cael effaith.
56. Caniateir i gyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adrannau hyn gael ei roi yn dilyn archiad oddi wrth ddatblygwr neu heb i archiad o'r fath gael ei wneud. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried archiad am gyfarwyddyd oni bai ei fod yn "archiad cymhwysol" oddi wrth ddatblygwr. Ystyr "archiad cymhwysol" yw archiad ysgrifenedig am gyfarwyddyd sy'n pennu'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef. Ar ôl gwneud penderfyniad ar archiad cymhwysol, rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros eu penderfyniad i'r person a wnaeth yr archiad.

Section 23 – Directions for applications to be treated as applications for infrastructure consent

49. Section 23 provides that if the Welsh Ministers give a direction under section 22, the Welsh Ministers have the power to direct that—
- an application that has been made for a permission, authorisation, consent etc. mentioned in section 20 is to be treated as an application for infrastructure consent, or
 - a proposed application for such a consent is to be treated as a proposed application for infrastructure consent.
50. Directions made under this section may provide for specified provisions of any enactment (including enactments in the Act) to have effect in relation to the application or proposed application with any modifications specified in the direction or to be treated as having been complied with in relation to the application or proposed application.
51. If the Welsh Ministers give a direction under this section, the relevant authority must refer the application, or the proposed application, to the Welsh Ministers. The “relevant authority” is the authority to which the application is made, or is proposed to be made.
52. If the Welsh Ministers are considering whether to give a direction under this section they may also direct the relevant authority to take no further action until further notice.

Section 24 – Directions specifying that development is not a significant infrastructure project

53. Section 24 provides that the Welsh Ministers may give a direction specifying that a development that would otherwise be a significant infrastructure project is not classed as one for the purpose of this Act. A direction may only be given under this section if the development is partly in Wales or the Welsh marine area.
54. The Welsh Ministers must publish the direction and report to the Senedd that a direction has been given.

Section 25 – Directions under section 22 to 24: general provision

55. Section 25 states that any direction made under sections 22 to 24 may be given subject to conditions and may specify the period of time for which it has effect.
56. A direction made by the Welsh Ministers under these sections can be given at the request of a developer or without such a request being made. The Welsh Ministers are not required to consider a request for a direction unless it is a “qualifying request” from a developer. A “qualifying request” is a request in writing for a direction that specifies the development to which it relates. After making a decision on a qualifying request, the Welsh Ministers must give reasons for their decision to the person who made the request.

Adran 26 – Cyfarwyddydau o dan adran 22: rheoliadau ynghylch y weithdrefn

57. Mae adran 26 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch materion gweithdrefnol mewn cysylltiad â chyfarwyddydau o dan adrannau 22 i 24 o'r Ddeddf hon.

Rhan 3 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith

58. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn nodi'r weithdrefn cyn gwneud cais, sut y mae cais am gydsyniad seilwaith i'w wneud i Weinidogion Cymru a'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu. Mae hefyd yn nodi gweithdrefnau sy'n ymwneud â chais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad i gaffael tir yn orfodol.

Cymorth i geisyddion

Adran 27 – Darparu gwasanaethau cyn gwneud cais

59. Mae adran 27 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch darparu gwasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru. Bwriedir i wasanaethau cyn gwneud cais gynorthwyo darpar ymgeiswyr cyn iddynt gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.

60. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch:

- yr amgylchiadau y mae'n rhaid darparu gwasanaethau cyn gwneud cais odanynt,
- ffurf a chynnwys archiadau am wasanaethau cyn gwneud cais, gan gynnwys yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno gydag archiad,
- pa wasanaethau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru eu darparu, gan gynnwys pryd a sut y maent i'w darparu,
- y gofynion ar Weinidogion Cymru, awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr ystod o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir ganddynt, a
- camau eraill y mae'n ofynnol i unrhyw berson eu cymryd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyn gwneud cais.

Adran 28 – Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir

61. Mae adran 28 yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi person sy'n gwneud cais ("y ceisydd") am gydsyniad seilwaith i gyflwyno hysbysiad i'r personau a bennir yn is-adran (4).

62. Mae'n ofynnol i dderbynnydd hysbysiad roi i'r ceisydd yn ysgrifenedig enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'r derbynnydd yn credu ei fod yn berchennog neu'n feddiannydd y tir neu'n berson sydd â buddiant yn y tir neu bŵer drosto.

Section 26 – Directions under section 22: regulations about procedure

57. Section 26 gives the Welsh Ministers power to make regulations about procedural matters in connection with directions under sections 22 to 24 of this Act.

Part 3 – Applying for infrastructure consent

58. Part 3 of the Act sets out the pre-application procedure, how an application for infrastructure consent is to be made to the Welsh Ministers and the requirements for publicity and notification. It also sets out procedures that relate to an application for infrastructure consent that requests the compulsory acquisition of land.

Assistance for applicants

Section 27 – Provision of pre-application services

59. Section 27 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations about the provision of pre-application services by the Welsh Ministers, local planning authorities in Wales or Natural Resources Wales. Pre-application services are intended to assist prospective applicants prior to the submission of an application for infrastructure consent.

60. The power to make regulations includes the power to make provision regarding:

- the circumstances in which pre-application services must be provided,
- the form and content of a request for pre-application services, including the information required to be submitted with a request,
- what services must be provided by the Welsh Ministers, local planning authorities and Natural Resources Wales, including when and how they are provided,
- requirements for the Welsh Ministers, local planning authorities and Natural Resources Wales to publish the range of pre-application services they provide, and
- other steps required to be taken by any person in relation to the provision of pre-application services.

Section 28 – Obtaining information about interests in land

61. Section 28 enables the Welsh Ministers to authorise a person applying (“the applicant”) for infrastructure consent to serve notice on the persons specified in subsection (4).

62. The recipient of a notice is required to give to the applicant in writing the name and address of any person the recipient believes is an owner or occupier of the land or has some interest in or power over the land.

63. Diben y gofyniad hwn yw galluogi'r ceisydd i gydymffurfio â darpariaethau adran 29 neu a wneir o dan adran 29 (darpariaethau ynghylch hysbysu am gais arfaethedig), 30 (darpariaethau ynghylch ymgynghoriad a chyhoeddu'rwydd cyn gwneud cais), ac adrannau 64 i 72 (darpariaethau mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol).
64. Mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi'r ceisydd i gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i dderbynnydd roi i'r ceisydd yn ysgrifenedig enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'r derbynnydd yn credu y byddai ganddo hawlogaeth i wneud hawliad am ddigollediad pe bai'r cais am gydsyniad seilwaith yn cael ei gymeradwyo a'r datblygiad yn digwydd.
65. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch hysbysiad a roddir o dan yr adran hon ac yn nodi o dan is-adran (4) y personau y mae'n ofynnol eu hysbysu pan fo cais arfaethedig am gydsyniad seilwaith neu gais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael yn orfodol.
66. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd pan fo person wedi methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan yr adran, mewn achos pan fo'r person wedi darparu gwybodaeth anwir. Mae'r drosedd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.
67. Pan gyflawnir y drosedd gan gorff corfforedig, gellir dal swyddogion y corff hwnnw yn atebol am y drosedd hefyd: gweler adran 135.

Y weithdrefn cyn gwneud cais

Adran 29 – Hysbysu am gais arfaethedig

68. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cynnig gwneud cais am gydsyniad seilwaith hysbysu:
 - Gweinidogion Cymru;
 - pob awdurdod cynllunio lleol a phob cyngor cymuned ar gyfer yr ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi pan fo datblygiad arfaethedig yng Nghymru;
 - Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod cynllunio lleol a phob cyngor cymuned y mae'r person yn ystyried ei fod yn briodol pan fo'r datblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru;
 - Aelodau o'r Senedd etholaethol a rhanbarthol ar gyfer pob ardal lle y lleolir y datblygiad arfaethedig;
 - Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau ar gyfer pob ardal lle y lleolir y datblygiad arfaethedig; ac
 - Unrhyw bersonau eraill, neu berson arall o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau am y cais.

63. The purpose of this requirement is to enable the applicant to comply with provisions of, or made under, section 29 (provisions about notice of proposed application), 30 (provisions about pre-application consultation and publicity), and sections 64 to 72 (provisions in orders authorising compulsory purchase).
64. The section also enables the Welsh Ministers to authorise the applicant to serve a notice requiring the recipient to give to the applicant in writing the name and address of any person the recipient believes would be entitled to make a claim for compensation if the application for infrastructure consent were to be approved and development were to take place.
65. The section enables the Welsh Ministers to make regulations about a notice given under this section and sets out under subsection (4) persons required to be notified where there is a proposed application or application for infrastructure consent that includes a compulsory acquisition request.
66. This section makes it an offence where a person has failed without reasonable excuse to comply with a notice given under the section, in the case where they have provided false information. The offence is a summary offence and is punishable following conviction by a fine.
67. Where the offence is committed by a corporate body, officers of that body can be held liable for the offence also: see section 135.

Pre-application procedure

Section 29 – Notification of proposed application

68. Section 29 requires any person who proposes to make an application for an infrastructure consent to notify:
- the Welsh Ministers;
 - each local planning authority and community council for the area in which the proposed development is located where a proposed development is in Wales;
 - Natural Resources Wales and each local planning authority and community council the person considers appropriate where the proposed development is in the Welsh marine area;
 - constituency and regional Members of the Senedd for each area where the proposed development is located;
 - Members of Parliament who represent constituencies for each area where the proposed development is located; and
 - any other persons, or person of a description prescribed in regulations of the application.

69. Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau, a all gynnwys gofynion yn ymwneud â:
- ffurf a chynnwys hysbysiad,
 - pa wybodaeth, dogfennau neu ddeunydd arall y mae rhaid iddo fynd gyda hysbysiad, a
 - sut a phryd y mae hysbysiad i'w roi.
70. Pan fônt wedi cael hysbysiad sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion o dan yr adran hon, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon hysbysiad ysgrifenedig at y person a gyflwynodd ffurflen hysbysu yn wreiddiol, yn cadarnhau fod yr hysbysiad wedi ei dderbyn. Gall y darpar ymgeisydd symud ymlaen i'r ymgynghoriad cyn gwneud cais.
71. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch (ymhlith pethau eraill):
- ffurf a chynnwys yr hysbysiad,
 - sut y mae hysbysiad i'w roi, a
 - o fewn pa gyfnod y mae hysbysiadau o'r fath i'w rhoi.
72. Nid yw'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon yn gymwys os yw'r cais arfaethedig yn cael ei wneud pan fo cyfarwyddyd sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol wedi ei wneud o dan adran 22.

Adran 30 – Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais

73. Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnig cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad ar gais arfaethedig cyn ei gyflwyno. Nid yw unrhyw ymgynghoriad neu gyhoeddusrwydd a gynhelir cyn i gais arfaethedig gael hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 29 i'w drin fel ymgynghoriad neu gyhoeddusrwydd o dan yr adran hon.
74. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer ymgynghoriadau sy'n ofynnol gan yr adran hon, neu mewn cysylltiad â hwy, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth:
- ynghylch pwy y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy,
 - ynghylch sut y mae ymgynghoriadau i'w cynnal,
 - ynghylch y materion i ymgynghori arnynt, gan gynnwys y manteision i bobl sy'n byw yn ardal y datblygiad arfaethedig,
 - ynghylch ymateb i ymgynghoriadau, gan gynnwys ymateb drwy lunio adroddiad a'i gyhoeddi,
 - ynghylch amserlenni mewn cysylltiad ag ymgynghoriadau, ac
 - ynghylch sut y mae'n ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd i ymgynghoriadau.

69. A notification under this section must comply with any requirements specified in regulations, which may include:
- the form and content of a notification,
 - what information, documents or other materials must accompany a notification, and
 - how and when a notification is to be given.
70. Upon receiving a notification which complies with all requirements under this section, the Welsh Ministers will be required to send written notice to the person who originally submitted a notification form, confirming it has been accepted. The prospective applicant may proceed to pre-application consultation.
71. This section also enables the Welsh Ministers to make regulations regarding (among other things):
- the form and content of the notice,
 - how a notice is to be given, and
 - the period within which such notices are to be given.
72. The requirement to notify the Welsh Ministers under this section does not apply if a proposed application is being made where a direction specifying development as a significant infrastructure project was made under section 22.

Section 30 – Pre-application consultation and publicity

73. Section 30 requires a person who proposes to submit an application for infrastructure consent to carry out consultation on a proposed application prior to its submission. Any consultation or publicity undertaken prior to a prospective application receiving notice from the Welsh Ministers under section 29 shall not be treated as consultation or publicity under this section.
74. This section also provides the Welsh Ministers with a power to make provision in regulations for, or in connection with, consultations required by this section, including (among other things) provision:
- about who must be consulted,
 - about how consultations must be carried out,
 - about the matters to be consulted on, including the benefits for people living in the area of the proposed development,
 - about responding to consultations, including responding by preparing and publishing a report,
 - about timetables in connection with consultations, and
 - about how consultations must be publicised.

Y weithdrefn gwneud cais

Adran 31 – Newid yn y person sy'n cynnig gwneud cais am gydsyniad seilwaith

75. Mae adran 31 yn pennu nad yw'r dyletswyddau yn adran 29(1) a 30(1) yn gymwys i berson sy'n cynnig gwneud cais am gydsyniad seilwaith o dan adran 32 ("person A") os oes hysbysiad wedi ei roi eisoes mewn cysylltiad â'r datblygiad arfaethedig, neu'r un datblygiad arfaethedig i raddau helaeth, gan berson gwahanol a bod naill ai –
- yr hysbysiad yn pennu person A fel y person a fydd yn gwneud cais am gydsyniad seilwaith, neu
 - y trefniadau i berson A i wneud y cais yn cael eu gwneud yn ystod, neu o ganlyniad i, yr ymgynghoriad a gynhelir o dan adran 30.

Adran 32 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith

76. Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud i Weinidogion Cymru ac yn darparu na chaniateir rhoi cydsyniad seilwaith oni wneir cais amdano.
77. Mae hefyd yn ofynnol i gais am gydsyniad seilwaith bennu'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef, a rhaid i'r cais gynnwys adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais a gorchymyn seilwaith drafft.
78. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ceisiadau. Caiff y darpariaethau gynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth ynghylch:
- ffurf a chynnwys cais,
 - sut y mae cais i'w wneud,
 - pa wybodaeth, dogfennau neu ddeunyddiau eraill y mae rhaid eu cynnwys mewn cais,
 - sut y prosesir cais,
 - sut y gellir amrywio cais neu ei dynnu yn ôl,
 - hysbysiadau yn ymwneud â chais, a
 - y cyfnod y mae rhaid gwneud cais o'i fewn (gan gynnwys unrhyw estyniadau i'r cyfnod hwinnw).
79. Caiff y rheoliadau hefyd roi swyddogaeth i unrhyw berson, gan gynnwys caniatáu i'r person arfer disgrisiwn.

Adran 33 – Penderfynu ar ddilysrwydd cais a hysbysu'r ceisydd

80. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fônt yn cael cais am gydsyniad seilwaith, benderfynu a ydynt yn derbyn cais fel cais dilys ai peidio.
81. Rhaid ystyried bod cais yn ddilys os yw'n dod i law o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau a'i fod yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan adran 32 neu odani. Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r ceisydd am benderfyniad i dderbyn y cais fel cais dilys.

Application procedure

Section 31 – Change in the person who proposes to apply for infrastructure consent

75. Section 31 specifies that the duties in section 29(1) and 30(1) do not apply to a person proposing to apply for infrastructure consent under section 32 (“person A”) if notice has already been given in respect of the proposed development, or substantially the same proposed development, by a different person and that either –
- the notice identifies person A as the person who will be applying for infrastructure consent, or
 - the arrangements for person A to make the application are made during, or as a result of, the consultation carried out under section 30.

Section 32 - Applying for infrastructure consent

76. Section 32 requires an application for infrastructure consent to be made to the Welsh Ministers and provides that infrastructure consent may only be given if an application is made for it.
77. There is also a requirement for an application for infrastructure consent to specify the development to which it relates and that it must include a pre-application consultation report and a draft infrastructure order.
78. This section also enables the Welsh Ministers to make regulations that make provision about applications. The provisions may include (among other things) provision about:
- the form and content of an application,
 - how an application is made,
 - what information, documents or other materials must be included in an application,
 - how an application is processed,
 - how an application may be varied or withdrawn,
 - notices relating to an application, and
 - the period within which an application must be made (including any extensions of time).
79. The regulations may also confer a function on any person, including allowing the person to exercise discretion.

Section 33 – Deciding on the validity of an application and notifying the applicant

80. Section 33 requires the Welsh Ministers, on receiving an application for infrastructure consent, to decide whether or not to accept an application as valid.
81. An application must be considered valid if it is received within the period specified in regulations and complies with the requirements imposed by or under section 32. The Welsh Ministers must give notice to the applicant of a decision to accept the application as a valid application.

82. Pan na fo cais yn cydymffurfio â'r gofynion yn yr adran hon neu adran 32 ac na ellir felly ei dderbyn gan Weinidogion Cymru, rhaid iddynt roi hysbysiad i'r ceisydd am y penderfyniad hwn, a rhoi'r rhesymau pam na ellir ei dderbyn fel cais dilys.

Adran 34 – Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoedduswydd

83. Mae adran 34 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu partion penodol pan fônt wedi derbyn cais fel cais dilys.
84. Pan fo datblygiad yng Nghymru, rhaid rhoi hysbysiad i bob awdurdod cynllunio lleol a chynghor cymuned y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddo. Rhaid rhoi hysbysiad hefyd i Aelodau o'r Senedd etholaethol a rhanbarthol, ac i Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli pob ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi.
85. Pan fo datblygiad yn ardal forol Cymru, rhaid rhoi hysbysiad i unrhyw awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol ac i Gyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid rhoi hysbysiad hefyd i Aelodau o'r Senedd etholaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag Aelodau Seneddol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd hysbysu unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau.
86. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyhoedduswydd i gais yn y modd a bennir mewn rheoliadau ac mewn unrhyw hysbysiad neu gyhoedduswydd rhaid cynnwys y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau, ac ni chaiff y dyddiad cau ddod i ben cyn diwedd cyfnod byrraf ar gyfer sylwadau a bennir mewn rheoliadau.
87. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru estyn y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau, a chânt hefyd estyn y dyddiad cau fwy nag unwaith. Pan arferir y pŵer hwn, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd â chyhoedduswydd a rhoi hysbysiad eto, gan bennu'r dyddiad cau newydd ar gyfer cael sylwadau a'u rhesymau dros estyn y dyddiad cau.
88. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r ceisydd i hysbysu personau am gais a rhoi cyhoedduswydd i'r cais yn y modd a bennir yn y cyfarwyddyd. Rhaid i unrhyw gyhoedduswydd gynnwys y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau, na fydd yn dod i ben cyn diwedd y cyfnod byrraf ar gyfer sylwadau a bennir mewn rheoliadau.
89. Pan roddir cyfarwyddyd o dan is-adran (10), a bod y dyddiad cau yn cael ei estyn, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd roi hysbysiad pellach i'r un personau, ac ymgymryd â chyhoedduswydd pellach yn yr un ffordd.

82. Where an application does not comply with the requirements in this section or section 32 and so cannot be accepted by the Welsh Ministers, they must notify the applicant of this decision, and give the reasons why it cannot be accepted as valid.

Section 34 – Notice of accepted applications and publicity

83. Section 34 requires the Welsh Ministers to notify certain parties where they have accepted an application as valid.
84. Where development is in Wales notice must be given to each local planning authority and community council in which the proposed development is located. Notice must also be given to constituency and regional Members of the Senedd and to Members of Parliament who represent each area where a proposed development is located.
85. Where development is in the Welsh marine area, notice must be given to any local planning authority or community council the Welsh Ministers consider appropriate and Natural Resources Wales. Notice must also be given to constituency and regional Members of the Senedd, in addition to Members of Parliament that the Welsh Ministers consider appropriate. The Welsh Ministers must also notify any other persons specified in regulations.
86. This section also requires the Welsh Ministers to publicise an application in the way specified in regulations and in any notice or publicity include the date by which any representations must be received, which will not expire before the end of a minimum representation period specified in regulations.
87. However, the Welsh Ministers have the ability to extend the deadline by which representations must be received and may also extend the deadline more than once. Where this power is used, the Welsh Ministers are required to undertake publicity and notification again, specifying the new date by which representations must be received and their reasons for extending the deadline.
88. This section also allows for the Welsh Ministers to direct the applicant to notify persons of an application and publicise an application in the way specified in the direction. Any publicity must include the date by which any representations must be received, which will not expire before the end of a minimum representation period specified in regulations.
89. Where a direction is given under subsection (10), and the deadline is extended, the Welsh Ministers must give a further direction requiring the applicant to give a further notice to the same persons, and undertake further publicity in the same way.

Adran 35 – Rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoedduswydd

90. Mae adran 35 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau:
- ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiadau am geisiadau a dderbynnir (adran 33) a hysbysiadau am gyhoedduswydd (adran 34), sut y'u rhoddir a'r amserlenni ar gyfer eu rhoi,
 - ynghylch sut y mae sylwadau i'w rhoi mewn ymateb i hysbysiad neu gyhoedduswydd o dan adran 34, ffurf a chynnwys y sylwadau hynny a'r amserlenni ar gyfer eu cyflwyno,
 - sy'n gosod gofyniad ar bersonau a bennir mewn rheoliadau i ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 34(2)(c), ac
 - ynghylch sut y caiff personau ymateb i gyhoedduswydd o dan adran 34 a sut y rhoddir cyhoedduswydd i sylwadau.
91. Caiff rheoliadau hefyd roi swyddogaeth, gan gynnwys swyddogaeth sy'n ymwneud ag arfer disgrisiwn, i unrhyw berson er mwyn sicrhau yr ymglymerir â'r gofynion o ran rhoi cyhoedduswydd a rhoi hysbysiad gan y parti mwyaf priodol fesul achos unigol.

Adran 36 – Adroddiadau ar yr effaith leol

92. Mae adran 36 yn gwneud darpariaeth ynghylch awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned yn ymateb i hysbysiad neu gyhoedduswydd ynghylch datblygiad arfaethedig drwy gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol sef adroddiad sy'n nodi manylion ynghylch effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar ardal awdurdod lleol a chyingor cymuned.
93. Pan fo datblygiad arfaethedig yn ardal awdurdod cynllunio lleol a bod yr awdurdod yn cael hysbysiad o gais a dderbynnir o dan adran 34(2)(a)(i) rhaid i'r awdurdod gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad.
94. Caiff cyngor cymuned a hysbysir am ddatblygiad arfaethedig o dan adran 34(2)(a)(ii) hefyd gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad, ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny.
95. Pan fo datblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru, caiff unrhyw awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned y rhoddir hysbysiad iddo am y datblygiad arfaethedig o dan adran 34(2)(b)(ii) gyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad.
96. Pan fo awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned yn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol ac eithrio mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 34(2), rhaid iddynt gyflwyno'r adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir mewn cyhoedduswydd o dan adran 34(3).
97. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi ffurf a chynnwys adroddiad ar yr effaith leol a rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r gofynion a bennir yn y rheoliadau.

Section 35 – Regulations about notices and publicity

90. Section 35 provides the Welsh Ministers power to make regulations:
- on the form and content of notices of accepted applications (section 33) and notices of publicity (section 34), how they are given, and the timescales for giving them,
 - on how representations are to be given in response to notification or publicity under section 34, the form and content of such representations and timescales for submission,
 - imposing a requirement on specified persons to respond to a notice given under section 34(2)(c), and
 - on how persons may respond to publicity under section 34 and how representations are to be publicised.
91. Regulations may also confer a function, including a function involving the exercise of a discretion, on any person to ensure publicity and notification requirements are undertaken by the most appropriate party on a case-by-case basis.

Section 36 – Local impact reports

92. Section 36 makes provision about local planning authorities and community councils responding to notification or publicity about proposed development by a local impact report which is a report that gives details of the likely impact of a proposed development within the area of a local authority and community council.
93. Where a proposed development is in the area of a local planning authority and the authority receives notification of an accepted application under section 34(2)(a)(i) the authority must submit a local impact report to the Welsh Ministers before the deadline specified in the notice.
94. A community council which is notified of a proposed development under section 34(2)(a)(ii) may also, but is not required to, submit a local impact report to the Welsh Ministers before the deadline specified in the notice.
95. Where a proposed development is in the Welsh marine area, any local planning authority or community council which is given notice of the proposed development under section 34(2)(b)(ii) may submit a local impact report to the Welsh Ministers before the deadline specified in the notice.
96. Where a planning authority or community council submits a local impact report otherwise than in response to a notice under section 34(2), they must submit the local impact report to the Welsh Ministers before the deadline specified in the publicity undertaken under section 34(3).
97. This section also provides the Welsh Ministers with a regulation-making power to prescribe the form and content of a local impact report and any report submitted to the Welsh Ministers must comply with the requirements specified in the regulations.

Adran 37 – Adroddiadau effaith ar y môr

98. Os yw'r gorchymyn drafft a gyflwynir mewn cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig, mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru pan gaiff ei hysbysu am gais am ddatblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru.
99. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno adroddiad effaith ar y môr mewn cysylltiad â chais am gydsyniad seilwaith.
100. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno adroddiad effaith ar y môr mewn cysylltiad â chais am gydsyniad seilwaith ac eithrio mewn ymateb i hysbysiad a roddir o dan adran 34(2)(b) neu gyfarwyddyd a roddir o dan adran 37(2).
101. Rhaid i adroddiad effaith ar y môr roi manylion am effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd morol.
102. Rhaid i adroddiad a gyflwynir mewn ymateb i is-adran (1) gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad. Rhaid i adroddiad a gyflwynir mewn ymateb i gyfarwyddyd o dan is-adran (2) gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir yn y cyfarwyddyd. Rhaid i adroddiad effaith ar y môr a gyflwynir yn wirfoddol, ac eithrio mewn ymateb i hysbysiad neu gyfarwyddyd, gael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau a ddarperir ar gyfer ymateb i gyhoedduswydd o dan adran 34(3).
103. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi ffurf a chynnwys adroddiad effaith ar y môr a rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r gofynion hynny a bennir mewn rheoliadau.

Adran 38 – Hysbysiad am bersonau a chanddynt fuddiant mewn tir y mae archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef

104. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru wedi derbyn cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, fod rhaid i'r ceisydd roi enwau ac unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn rheoliadau mewn perthynas â phersonau a chanddynt fuddiant yn y tir i Weinidogion Cymru. Mae'n ofynnol i'r ceisydd ymholi'n ddyfal i ganfod enwau personau yr effeithir arnynt.

Adran 39 – Ymgynghoriad ar ôl cais mewn perthynas â chaffael gorfodol

105. Mae adran 39 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth i geisydd am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad pan fo'r cais yn cynnwys archiad i gaffael tir yn orfodol, ac mewn cysylltiad â hynny. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth fanwl ynghylch yr ymgynghoriad sy'n ofynnol, gan gynnwys yr wybodaeth sydd i'w darparu yn ystod yr ymgynghoriad ac amserlen yr ymgynghoriad.

Section 37 – Marine impact reports

98. If the draft order submitted in an application for infrastructure consent contains provision for a deemed marine licence, section 37 requires Natural Resources Wales to submit to the Welsh Ministers a marine impact report where it is notified of an application for proposed development in the Welsh marine area.
99. Subsection (2) provides that the Welsh Ministers may also direct Natural Resources Wales to submit a marine impact report in respect of an application for infrastructure consent.
100. Subsection (3) provides that Natural Resources Wales may submit a marine impact report in respect of an application for infrastructure consent otherwise than in response to a notice given under section 34(2)(b) or a direction given under section 37(2).
101. A marine impact report must give details of the likely impact of a proposed development on the marine environment.
102. A report submitted in response to subsection (1) must be submitted to the Welsh Ministers before the deadline specified in the notice. A report submitted in response to a direction under subsection (2) must be submitted to the Welsh Ministers before the deadline specified in the direction. A marine impact report submitted voluntarily, otherwise than in response to a notice or a direction must be submitted within the deadline provided for responding to publicity under section 34(3).
103. This section also provides the Welsh Ministers with a regulation-making power to prescribe the form and content of a marine impact report and any report submitted to the Welsh Ministers must comply with such requirements as are prescribed in regulations.

Section 38 – Notice of persons interested in land to which compulsory acquisition request relates

104. This section provides that where the Welsh Ministers have accepted an application for infrastructure consent that includes a request for authorisation of the compulsory acquisition of land or an interest in or right over land, the applicant must give the Welsh Ministers the names and such other information as may be specified in regulations in relation to persons with an interest in the land. The applicant is required to make diligent inquiry to ascertain the names of affected persons.

Section 39 – Consultation post-application in relation to compulsory acquisition

105. Section 39 provides the Welsh Ministers with a regulation making power to make provision for and in connection with consultation by an applicant for infrastructure consent where the application includes a request for the compulsory acquisition of land. The regulations may include detailed provision about the consultation required, including information that is to be provided during the consultation and its timetable.

Rhan 4 – Archwilio ceisiadau

106. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith.

Penodi awdurdod archwilio

Adran 40 – Penodi awdurdod archwilio

107. Mae adran 40(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i archwilio pob cais dilys am gydsyniad seilwaith.

108. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i archwilio cais i ddirymu neu newid gorchymyn cydsyniad seilwaith (er nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud hynny). Wrth benderfynu pa un a ddylid penodi person neu banel o bersonau i archwilio cais o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso unrhyw feini prawf a nodir mewn dogfen a gyhoeddir o dan is-adran (3).

109. Caiff Gweinidogion Cymru benodi person neu benodi person i banel neu ddirymu penodiad person neu berson ar banel ar unrhyw adeg.

110. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ar gyfer penodi person neu benodi panel o dan yr adran hon, neu mewn cysylltiad â hynny.

111. Yn y Ddeddf cyfeirir at berson neu banel o bersonau a benodir o dan yr adran hon fel "awdurdod archwilio".

Archwilio ceisiadau

Adran 41 – Awdurdod archwilio i archwilio ceisiadau

112. Mae adran 41 yn darparu bod gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o archwilio cais y'i penodir mewn cysylltiad ag ef.

Adran 42 – Dewis o ymchwiliad, gwrandawriad neu weithdrefn ysgrifenedig

113. Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio ddyfarnu sut y mae pob cais a archwilir ganddo i'w archwilio cyn diwedd cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

114. Rhaid i'r awdurdod archwilio ddyfarnu pa un a yw'r cais i'w archwilio ar sail y cais ac ar sail unrhyw sylwadau ysgrifenedig (os oes rhai) ynghylch y cais mewn gwrandawriad, mewn ymchwiliad lleol neu drwy unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Rhaid i'r awdurdod archwilio ddarparu y bydd archwiliad o'r cais yn cynnwys gwrandawriad, oni bai bod y dyfarniad yn darparu ar gyfer ymchwiliad lleol neu fod yr awdurdod archwilio yn ystyried na fyddai gwrandawriad yn cynorthwyo'r archwiliad.

115. Caniateir i'r awdurdod archwilio amrywio ei ddyfarniad o ran sut y mae cais i'w archwilio ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar y cais sy'n cael ei archwilio.

Part 4 – Examining applications

106. Part 4 of the Act sets out the processes and procedures for examining applications for infrastructure consent.

Appointing an examining authority

Section 40 – Appointing an examining authority

107. Section 40(1) requires the Welsh Ministers to appoint a person or a panel of persons to examine each valid application for infrastructure consent.

108. Subsection (2) provides that the Welsh Ministers may (but are not required to) appoint a person or a panel of persons to examine an application to revoke or change an infrastructure consent order. In deciding whether to appoint a person or a panel of persons to examine such an application, the Welsh Ministers must apply any criteria set out in a document published under subsection (3).

109. The Welsh Ministers may make or revoke an appointment of a person or person on a panel at any time.

110. This section also provides the Welsh Ministers with a power to make regulations making further provision for, or in connection with, the appointment of a person or a panel under this section.

111. A person or panel of persons appointed under this section is referred to in the Act as an “examining authority”.

Examining applications

Section 41 – Examining authority to examine applications

112. Section 41 provides that an examining authority has the function of examining an application in respect of which it has been appointed.

Section 42 – Choice of inquiry, hearing or written procedure

113. Section 42 requires the examining authority to determine how each application it examines is to be examined before the end of a period specified in regulations.

114. The examining authority must determine whether the application is to be examined on the basis of the application and any written representations (if any) about the application at a hearing, at a local inquiry, or by any combination of these procedures. The examining authority must provide for examination of the application to include a hearing, unless the determination provides for a local inquiry or the examining authority considers a hearing would not assist the examination.

115. The examining authority may vary its determination as to how an application is to be examined at any time before the application being examined is decided.

116. Mae'n ofynnol i'r awdurdod archwilio hysbysu unrhyw berson neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau am ei ddyfarniad o dan is-adran (1). Rhaid i'r awdurdod archwilio hefyd hysbysu personau a bennir mewn rheoliadau os bydd yn amrywio dyfarniad a wnaed o dan is-adran (1).
117. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r meini prawf sydd i'w cymhwyso gan awdurdod archwilio wrth ddyfarnu sut y mae cais i'w archwilio.
118. Mae swyddogaethau awdurdod archwilio yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy reoliadau o dan adran 43 neu 44.

Adran 43 – Gwrandawiaid llawr agored

119. Mae adran 43 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod archwilio beri bod gwrandawriad llawr agored yn cael ei gynnal mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4. A chaiff y rheoliadau wneud y gofyniad i gynnal gwrandawriad llawr agored yn ddarostyngedig i amodau. Yn yr adran hon "gwrandawriad llawr agored" yw gwrandawriad lle y mae gan bob parti a chanddo fuddiant hawlogaeth i wneud sylwadau llafar ynghylch y cais, yn ddarostyngedig i bwerau'r awdurdod archwilio i reoli'r dull o gynnal y gwrandawriad.

Adran 44 – Y weithdrefn archwilio

120. Mae adran 44 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag archwilio cais o dan Ran 4.

Adran 45 – Pŵer i fynd ar dir mewn cysylltiad ag archwiliad

121. Mae adran 45 yn darparu y caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fynd ar dir yng Nghymru ar adeg resymol er mwyn edrych ar y tir mewn cysylltiad â'r archwiliad o gais.
122. Mae is-adran (2) yn nodi'r amodau sy'n gymwys pan fo person yn mynd ar dir. Mae is-adran (2)(e) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amodau eraill ar gyfer mynd ar y tir wrth roi eu hawdurdodiad.
123. Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer y pŵer i fynd ar dir ac mae'n agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

Adran 46 – Pŵer i fynd ar dir y Goron mewn cysylltiad ag archwiliad

124. Mae adran 46 yn darparu na chaiff person fynd ar dir y Goron mewn cysylltiad ag archwiliad o gais, oni fo wedi cael caniatâd person yr ymddengys bod ganddo hawl i'w roi neu awdurdod priodol y Goron (gweler adran 134 am y diffiniad o "awdurdod priodol y Goron").
125. Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad yw is-adrannau penodedig o adran 45 yn gymwys mewn perthynas â thir y Goron.

116. The examining authority is required to notify any person or person of a description specified in regulations of its determination under subsection (1). The examining authority must also notify persons specified in regulations if it varies a determination made under subsection (1).
117. This section also requires the Welsh Ministers to publish a document setting out the criteria to be applied by an examining authority in determining how an application is to be examined.
118. The functions of an examining authority are subject to any provision made by regulations under section 43 or 44.

Section 43 – Open-floor hearings

119. Section 43 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations to require an examining authority to cause an open-floor hearing to be held in connection with the examination of an application under Part 4. And the regulations may make the requirement to hold an open-floor hearing subject to conditions. In this section an “open-floor hearing” is where each interested party is entitled to make oral representations about the application, subject to the examining authority’s powers of control over the conduct of the hearing.

Section 44 – Examination procedure

120. Section 44 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations about the procedure to be followed in connection with the examination of an application under Part 4.

Section 45 – Power to enter land in connection with examination

121. Section 45 provides that a person authorised in writing by the Welsh Ministers may, at a reasonable time, enter land in Wales to inspect the land in connection with the examination of an application.
122. Subsection (2) sets out the conditions that apply where a person is entering land. Subsection (2)(e) allows the Welsh Ministers to set other conditions for the entering of land in the giving of their authorisation.
123. A person commits an offence if they intentionally obstruct a person exercising the power to enter land and is liable on summary conviction to a fine.

Section 46 – Power to enter Crown land in connection with examination

124. Section 46 provides that a person must not enter Crown land in connection with the examination of an application, unless they have the permission of a person appearing to be entitled to give it or of the appropriate Crown authority (see section 134 for the definition of “appropriate Crown authority”).
125. This section also provides that specified subsections of section 45 do not apply in relation to Crown land.

Adran 47 – Pŵer awdurdod archwilio i gynnal ymchwiliad lleol

126. Mae adran 47 yn caniatáu i awdurdod archwilio gynnal ymchwiliad lleol at ddibenion archwilio cais.
127. Caiff yr awdurdod archwilio, drwy wŷs, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson fod yn bresennol yn yr ymchwiliad yn unol â'r gofynion a bennir yn y wŷs a rhoi tystiolaeth, a'i gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddangos unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan sylw yn yr ymchwiliad.
128. Rhaid i'r wŷs bennu ar ba adeg ac ym mha le y mae'n ofynnol i'r person fod yn bresennol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r person fod yn bresennol oni fo'i dreuliau am fod yn bresennol yn cael eu talu neu eu cynnig i'r person.
129. Pan fo person yn gwrthod cydymffurfio â gofyniad mewn gwŷs neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad o'r fath yn fwriadol, neu'n newid, yn atal, yn cuddio neu'n dinistrio'n fwriadol ddogfen y mae'n ofynnol i'r person ei dangos, bydd y person wedi cyflawni trosedd a gellir ei roi ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron. Os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.
130. Caiff yr awdurdod archwilio sy'n cynnal yr ymchwiliad hefyd weinyddu llwon a chymryd tystiolaeth o dan lw.

Adran 48 – Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad

131. Pan gynhelir ymchwiliad lleol, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl dystiolaeth lafar yn cael ei chlywed yn gyhoeddus a bod yr holl dystiolaeth ddogfennol ar gael i'r cyhoedd edrych arni.
132. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ("awdurdod gweinidogol") gyfarwyddo nad yw tystiolaeth lafar i'w chlywed, ac nad yw tystiolaeth ddogfennol ar gael i edrych arni, ond gan bersonau penodol yn unig (ac nid y cyhoedd) os yw'r awdurdod gweinidogol wedi ei fodloni y byddai datgelu'r dystiolaeth i'r cyhoedd yn debygol o arwain at ddatgelu gwybodaeth am ddiogelwch cenedlaethol neu fesurau a gymerwyd (neu sydd i'w cymryd) i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo ac y byddai datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd yn erbyn y buddiant cenedlaethol.
133. Os yw awdurdod gweinidogol yn ystyried rhoi cyfarwyddyd o'r fath, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person ("cynrychiolydd penodedig") i gynrychioli buddiannau personau sydd wedi eu hatal rhag gwranddo ar dystiolaeth neu edrych ar dystiolaeth.
134. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn gan awdurdod gweinidogol cyn y rhoddir cyfarwyddyd pan fo cynrychiolydd penodedig wedi ei benodi ac ynghylch swyddogaethau cynrychiolydd penodedig.

Section 47 – Power of examining authority to hold local inquiry

126. Section 47 allows an examining authority to hold a local inquiry for the purposes of examining an application.
127. The examining authority may, by summons, require any person to attend an inquiry in accordance with the requirements specified in the summons and to give evidence, and require any person to produce any documents which relate to any matter in question at the inquiry.
128. The summons must specify the time and place at which the person is required to attend. However, the person is not required to attend unless their expenses for attending are paid or offered to them.
129. Where a person refuses or deliberately fails to comply with a requirement of a summons or deliberately alters, suppresses, conceals or destroys a document they are required to produce, they will have committed an offence and can be tried in the Magistrates Court or in the Crown Court. If found guilty, they will be liable to an unlimited fine.
130. The examining authority holding the inquiry may also administer oaths and take evidence on oath.

Section 48 – Access to evidence at inquiry

131. Where a local inquiry is held, this section requires that all oral evidence is to be heard in public and that all documentary evidence is to be open to the public for inspection.
132. But the Welsh Ministers or the Secretary of State (a “ministerial authority”) may direct that oral evidence is to be heard and documents are to be inspected by specific persons only (and not the public) if they are satisfied that public disclosure of evidence would likely result in the disclosure of information about national security or measures taken (or to be taken) to ensure the security of any land or property and that the public disclosure of information would be against the national interest.
133. If such a direction is being considered, the Counsel General may appoint a person (“an appointed representative”) to represent the interests of persons prevented from hearing or inspecting evidence.
134. This section also provides the Welsh Ministers with a power to make regulations about the procedure to be followed by a ministerial authority before a direction is given where there is an appointed representative and about the functions of an appointed representative.

Adran 49 – Talu cynrychiolydd penodedig pan fo mynediad at dystiolaeth wedi ei gyfyngu

135. Mae adran 49 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu'r cynrychiolydd penodedig pa un a yw'r ymchwiliad yn digwydd ai peidio.

Adran 50 – Aseswyr

136. Mae adran 50 yn caniatáu i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benodi asesydd er mwyn cynorthwyo i archwilio cais. Gallai asesydd gynorthwyo i archwilio mater arbenigol penodol neu bwnc penodol. Ni chaniateir penodi person yn asesydd onid yw'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru yn ystyried bod y person yn meddu ar arbenigedd sy'n addas i gynorthwyo'r awdurdod archwilio.

Adran 51 – Cymorth cyfreithiol

137. Mae adran 51 yn caniatáu i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benodi bargyfreithiwr neu gyfreithiwr i ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol i'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r archwiliad o dan Ran 4 o'r Ddeddf.
138. Pan benodir bargyfreithiwr neu gyfreithiwr caiff y bargyfreithiwr neu'r cyfreithiwr, er enghraifft, gynorthwyo'r awdurdod archwilio drwy gwestiynu ar lafar berson sy'n cyflwyno sylwadau mewn gwrandawriad neu ymchwiliad ar ran yr awdurdod archwilio.

Adran 52 – Adroddiadau gan awdurdod archwilio

139. Pan fo gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o benderfynu ar gais, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad nodi canfyddiadau a chasgliadau'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r cais a'i argymhellion ynghylch y penderfyniad sydd i'w wneud ar y cais.

Adran 53 – Pŵer i gyfarwyddo archwiliad pellach

140. Mae adran 53 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod archwilio i ailagor ei archwiliad o gais ar ôl cael adroddiad gan yr awdurdod archwilio.
141. Pan ailagorir archwiliad, rhaid ei gynnal yn unol ag unrhyw ofynion a bennir yn y cyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (1). Rhaid i'r cyfarwyddyd gynnwys datganiad sy'n egluro pam y'i rhoddir a chael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei roi.
142. Mae'r ddyletswydd sydd ar awdurdod archwilio yn adran 52 yn gymwys i unrhyw archwiliad pellach sy'n ofynnol yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

Section 49 – Payment of appointed representative where access to evidence restricted

135. Section 49 makes provision about paying the appointed representative, whether or not an inquiry takes place.

Section 50 – Assessors

136. Section 50 allows the examining authority or the Welsh Ministers to appoint an assessor to assist in the examination of an application. An assessor might assist with examining a particular specialist matter or specific topic. A person may only be appointed as an assessor if the examining authority or the Welsh Ministers consider the person has suitable expertise to assist the examining authority.

Section 51 – Legal assistance

137. Section 51 allows the examining authority or the Welsh Ministers to appoint a barrister or solicitor to provide legal advice and assistance to the examining authority in connection with the examination under Part 4 of the Act.
138. Where a barrister or solicitor is appointed they may, for example, assist the examining authority by carrying out oral questioning of a person making representations at a hearing or inquiry on behalf of the examining authority.

Section 52 – Reports by examining authority

139. Where the Welsh Ministers have the function of deciding an application, this section requires the examining authority to make a report to the Welsh Ministers. The report must set out the examining authority's findings and conclusions in respect of the application and its recommendations as to the decision to be made on the application.

Section 53 – Power to direct further examination

140. Section 53 allows the Welsh Ministers to direct the examining authority to re-open its examination of an application following receipt of a report by the examining authority.
141. Where an examination is re-opened, it must be undertaken in accordance with any requirements specified in the direction given under subsection (1). The direction must include a statement explaining why it is given and be published as soon as reasonably practicable after it is given.
142. The duty of an examining authority in section 52 applies to any further examination required by virtue of a direction under this section.

Adran 54 – Gorchmynion yn ymwneud â chostau partïon mewn achos archwilio

143. Mae adran 54 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch costau'r ceisydd, costau awdurdod cynllunio, costau Gweinidogion Cymru eu hunain neu gostau unrhyw barti arall mewn achos archwilio (a gaiff gynnwys costau mewn cysylltiad â gwrandawriad neu ymchwiliad nad yw'n digwydd) ac ynghylch y person neu'r personau y mae'n rhaid iddynt dalu'r costau hyn.
144. Mae is-adran (4) yn nodi sut y mae costau sy'n daladwy yn rhinwedd gorchymyn o'r fath i'w hadennill.

Rhan 5 – Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

145. Mae rhan 5 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.
146. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy sy'n penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan adran 32 ("cais"), yr hyn y mae'n rhaid i benderfynwr ei ystyried wrth benderfynu ar gais, yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad, a gwneud y penderfyniad.

Penderfynwr

Adran 55 – Swyddogaeth penderfynu ar geisiadau

147. Mae adran 55 yn datgan mai'r awdurdod archwilio sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau ac mai Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar unrhyw gais arall am gydsyniad seilwaith.
148. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo mai awdurdod archwilio sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar y cais yn lle Gweinidogion Cymru, neu mai Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar gais yn lle awdurdod archwilio.

Polisiau statudol a materion perthnasol eraill

Adran 56 – Penderfynu ar geisiadau: ystyriaethau cyffredinol

149. Mae adran 56 yn darparu bod rhaid penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith drwy roi sylw i unrhyw ddatganiad polisi seilwaith sy'n cael effaith mewn perthynas â datblygiad o'r disgrifiad y mae cais yn ymwneud ag ef ("datganiad polisi perthnasol"), Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2019 gyda'r teitl *Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040*), i'r graddau y mae'n berthnasol i ddatblygiad o'r disgrifiad y mae cais yn ymwneud ag ef a chynllun morol a luniwyd ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2019 gyda'r teitl *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru*). Mae hefyd yn darparu bod rhaid i unrhyw benderfyniad ar gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud yn unol â'r polisiau statudol a restrir yn yr adran hon, oni fo ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.

Section 54 – Orders relating to costs of parties on examination proceedings

143. Section 54 allows the Welsh Ministers to make orders about the costs of the applicant, a planning authority, the Welsh Ministers themselves or any other party to examination proceedings (which may include costs in respect of a hearing or inquiry that does not take place) and about the person(s) who must pay these costs.
144. Subsection (4) sets out how costs payable by virtue of such an order are recoverable.

Part 5 – Deciding applications for infrastructure consent

145. Part 5 of the Act contains provisions about deciding applications for infrastructure consent.
146. This Part makes provision about who decides an application for infrastructure consent made under section 32 (an “application”), about what the decision-maker must take into account when deciding an application, about the timetable for making the decision, and about making the decision.

Decision maker

Section 55 – Functions of deciding applications

147. Section 55 states that the examining authority has the function of deciding applications for infrastructure consent of a description specified in regulations and that the Welsh Ministers have the function of deciding any other application for infrastructure consent.
148. Subsection (4) provides that the Welsh Ministers may direct that an examining authority has the function of deciding the application instead of the Welsh Ministers, or that the Welsh Ministers have the function of deciding an application instead of an examining authority.

Statutory policies and other relevant matters

Section 56 – Deciding applications: general considerations

149. Section 56 provides that applications for infrastructure consent must be decided by having regard to any infrastructure policy statement that has effect in relation to development of the description to which an application relates (“relevant policy statement”), the National Development Framework for Wales (first published in 2019 with the title *Future Wales: the National Plan 2040*), so far as relevant to development of the description to which an application relates and a marine plan prepared and adopted by the Welsh Ministers (first published in 2019 with the title *Welsh National Marine Plan*). It further provides that any decision on an application for infrastructure consent must be made in accordance with the statutory policies listed in this section, unless relevant considerations indicate otherwise.

150. Mae is-adran (2) yn darparu, os yw dogfen bolisi statudol a restrir yn yr adran hon yn nodi bod lleoliad yn addas, neu y gallai fod yn addas, ar gyfer datblygiad penodol, nad yw hynny yn atal gwneud penderfyniad gwahanol ar gais os yw ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos y dylid gwneud hynny.

Adran 57 – Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau

151. Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) i roi'r sylw i'r canlynol wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith:
- unrhyw adroddiad ar yr effaith leol neu unrhyw adroddiad ar yr effaith forol a gyflwynir i Weinidogion Cymru cyn y dyddiadau cau a bennir o dan adrannau 36 a 37,
 - unrhyw archwiliad a gynhelir o dan Ran 4,
 - unrhyw faterion a bennir mewn rheoliadau mewn perthynas â datblygiad o'r disgrifiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef,
 - dymunoldeb lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo, ac
 - unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

Adran 58 – Materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau

152. Mae adran 58 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio ddiystyru sylwadau wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, os ydynt neu os yw'n ystyried bod y sylwadau:
- yn flinderus neu'n wacsaw,
 - yn ymwneud â rhinweddau polisi a nodir mewn datganiad polisi seilwaith, yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu mewn unrhyw gynllun morol, neu
 - yn ymwneud â digolledu am gaffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir.
153. Caiff rheoliadau ddiwygio'r materion y caniateir eu diystyru i bennu materion pellach neu i newid neu ddileu materion a bennir yn y rheoliadau hynny.

Yr amserlen

Adran 59 – Yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

154. Mae adran 59 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae is-adran (1) yn datgan bod rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benderfynu ar gais cyn diwedd y cyfnod o 52 o wythnosau sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y cais ei dderbyn yn gais dilys neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno rhwng y ceisydd a Gweinidogion Cymru.

150. Subsection (2) provides that if a statutory policy document listed in this section identifies a location as suitable, or potentially suitable, for a particular development, this does not prevent a different decision on an application being made if other relevant considerations indicate this should be the case.

Section 57 – Duty to have regard to specific matters when making decisions on applications

151. Section 57 places a duty on the examining authority or the Welsh Ministers (as the case may be) to have regard to the following when deciding an application for infrastructure consent:
- any local impact report or marine impact report submitted to the Welsh Ministers before the deadlines specified under sections 36 and 37,
 - any examination carried out under Part 4,
 - any matters specified in regulations in relation to development of the description to which the application relates,
 - the desirability of mitigating, and adapting to, climate change, and
 - any other relevant consideration.

Section 58 – Matters that may be disregarded when making decisions on applications

152. Section 58 provides that the Welsh Ministers or the examining authority may disregard representations in deciding an application for infrastructure consent, if they consider the representations to be:
- vexatious or frivolous,
 - relate to the merits of policy set out in an infrastructure policy statement, the National Development Framework or any marine plan, or
 - relate to compensation for compulsory acquisition of land or of an interest in or right over land.
153. Regulations may amend the matters that may be disregarded in order to specify further matters or to change or remove matters specified in those regulations.

Timetable

Section 59 – Timetable for deciding application for infrastructure consent

154. Section 59 makes provision about the timetable for deciding applications for infrastructure consent. Subsection (1) states that the examining authority or the Welsh Ministers must decide an application before the end of the period of 52 weeks beginning with the day on which the application is accepted as a valid application or such other period agreed between the applicant and the Welsh Ministers.

155. Mae adran 59(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i estyn, drwy gyfarwyddyd, y cyfnodau ar gyfer penderfynu ar gais a grybwyllir yn is-adran (1). Caiff Gweinidogion Cymru roi mwy nag un cyfarwyddyd mewn perthynas â chais (gan ganiatáu iddynt estyn y cyfnod penderfynu sawl gwaith) a chaniateir iddynt roi cyfarwyddyd ar ôl diwedd y cyfnodau a grybwyllir yn is-adran (1).
156. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd a phersonau eraill a bennir mewn rheoliadau am y cyfarwyddyd, cyhoeddi'r cyfarwyddyd a gosod datganiad ynghylch y cyfarwyddyd gerbron Senedd Cymru yn egluro ei effaith a pham y'i rhoddwyd.
157. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno i'r Senedd adroddiadau blynyddol ar eu cydymffurfedd â'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1) a sut y maent yn arfer y swyddogaethau a roddir gan is-adran (2).
158. Mae is-adran (6) yn caniatáu i'r cyfnod o 52 o wythnosau a grybwyllir yn is-adran (1)(a) gael ei ddiwygio drwy reoliadau.

Y penderfyniad

Adran 60 – Rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith

159. Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais, mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru naill ai gwneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith.
160. Pan fydd awdurdod archwilio wedi penderfynu ar gais, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol iddo naill ai hysbysu Gweinidogion Cymru am ei benderfyniad i wneud gorchymyn yn rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith.
161. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad gan yr awdurdod archwilio bod gorchymyn cydsyniad seilwaith i'w wneud, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y gorchymyn.
162. Mae'r adran hon hefyd yn pennu, pan fo cydsyniad seilwaith naill ai yn cael ei roi neu ei wrthod, bod rhaid i geisyddion, awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru (pan fo adroddiad effaith ar y môr wedi ei gyflwyno) ac unrhyw berson arall neu unrhyw bersonau eraill o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau gael eu hysbysu am y penderfyniad.
163. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth sy'n rheoleiddio'r weithdrefn i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gynigir yn y cais.

155. Section 59(2) gives the Welsh Ministers the power to extend, by direction, the periods for deciding an application mentioned in subsection (1). The Welsh Ministers may give more than one direction in relation to an application (allowing them to extend the decision period multiple times) and may give a direction after the end of the periods mentioned in subsection (1).
156. Subsection (4) requires the Welsh Ministers to notify the applicant and other persons specified in regulations of the direction, to publish the direction and to lay a statement about the direction before Senedd Cymru explaining its effect and why it was given.
157. Subsection (5) requires the Welsh Ministers to provide the Senedd with annual reports on the compliance with the duty imposed by subsection (1) and the exercise of the functions conferred by subsection (2).
158. Subsection (6) allows the period of 52 weeks mentioned in subsection (1)(a) to be amended by regulations.

The decision

Section 60 – Grant or refusal of infrastructure consent

159. When the Welsh Ministers have decided an application, section 60 requires the Welsh Ministers to either make an order granting infrastructure consent or refuse infrastructure consent.
160. When an examining authority has decided an application, this section requires it to either notify the Welsh Ministers of its decision that an order granting infrastructure consent is to be made or refuse infrastructure consent.
161. Where the Welsh Ministers receive a notification from the examining authority that an infrastructure consent order is to be made, the Welsh Ministers must make the order.
162. This section also specifies that where infrastructure consent is either granted or refused, applicants, relevant local planning authorities and community councils, Natural Resources Wales (where a marine impact report has been submitted) and any other person or persons of a description specified in regulations, must be notified of the decision.
163. Regulations under this section may make provision regulating the procedure to be followed if the Welsh Ministers propose to make an infrastructure consent order on terms which are materially different from those proposed in the application.

Adran 61 - Datblygiad y caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar ei gyfer

164. Mae adran 61 yn pennu'r datblygiad y caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar ei gyfer.
165. Caniateir rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer, yn ogystal â "datblygiad cysylltiedig".
166. "Datblygiad cysylltiedig" yw datblygiad sy'n gysylltiedig â datblygiad y mae cydsyniad seilwaith y ofynnol ar ei gyfer (neu unrhyw ran ohono) ac sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn gyfan gwbl yn ardal forol Cymru neu'n gyfan gwbl yng Nghymru ac ardal forol Cymru.
167. Ceir esboniad o ystyr "Cymru" ac "ardal forol Cymru" yn adran 143 (dehongli cyffredinol).
168. Os rhoddir cydsyniad seilwaith ar gyfer "datblygiad cysylltiedig", nid yw'n ofynnol cael unrhyw un o'r cydsyniadau a grybwyllir yn adran 20 (fel y caniateir diwygio'r adran honno gan adran 21)) ar gyfer y "datblygiad cysylltiedig".

Adran 62 - Rhesymau dros benderfynu rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith

169. Mae adran 62 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio datganiad o'u rhesymau dros benderfynu naill ai gwneud gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith neu wrthod rhoi cydsyniad seilwaith. Rhaid anfon copi o'r datganiad at y ceisydd, unrhyw awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned sydd wedi cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais, Cyfoeth Naturiol Cymru os yw wedi cyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais ac unrhyw berson neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi yn y modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.
170. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio lunio datganiad o'i resymau dros benderfynu gwneud neu wrthod gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad seilwaith. Rhaid anfon copi o'r datganiad at y ceisydd, unrhyw awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned sydd wedi cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais, Cyfoeth Naturiol Cymru os yw wedi cyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais ac unrhyw berson neu unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi yn y modd y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried ei fod yn briodol.

Rhan 6 - Gorchmynion cydsyniad seilwaith

171. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae adran 63 yn pennu yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith. Mae adrannau 64 i 72 yn gwneud darpariaethau ynghylch gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol. Mae adrannau 73 i 84 yn darparu cyfyngiadau penodol ar yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn, a hefyd yn darparu pwerau penodol i gynnwys darpariaethau penodol mewn gorchmynion. Mae adran 85 yn nodi manylion y weithdrefn ar gyfer cyhoeddi gorchmynion cydsyniad seilwaith.

Section 61 – Development for which infrastructure consent may be granted

164. Section 61 specifies the development for which infrastructure consent may be granted.
165. Infrastructure consent may be granted for development for which an infrastructure consent is required, as well as “associated development”.
166. “Associated development” is development that is associated with development that requires infrastructure consent (or any part of it) and is wholly within Wales, wholly within the Welsh marine area, or wholly within Wales and the Welsh marine area.
167. The meaning of “Wales” and the “Welsh marine area” is explained at section 143 (general interpretation).
168. If infrastructure consent is granted for “associated development”, none of the consents mentioned in section 20 (as that section may be amended by section 21) are required to be obtained for the “associated development”.

Section 62 – Reasons for decision to grant or refuse infrastructure consent

169. Section 62 requires the Welsh Ministers to prepare a statement of their reasons to either make an order granting infrastructure consent or refuse infrastructure consent. A copy of the statement must be sent to the applicant, any planning authority or community council that has submitted a local impact report to the Welsh Ministers in respect of the application, Natural Resources Wales if it has submitted a marine impact report to the Welsh Ministers in respect of the application and any person or person of a description specified in regulations. The statement must be published in such manner as the Welsh Ministers consider appropriate.
170. The section also requires the examining authority to prepare a statement of its reasons for deciding that an order granting infrastructure consent is to be made or refused. A copy of the statement must be sent to the applicant, any planning authority or community council that has submitted a local impact report to the Welsh Ministers in respect of the application, Natural Resources Wales if it has submitted a marine impact report to the Welsh Ministers in respect of the application and any person or person of a description specified in regulations. The statement must be published in such manner as the examining authority considers appropriate.

Part 6 – Infrastructure consent orders

171. Part 6 of the Act contains provisions which relate to infrastructure consent orders. Section 63 specifies what may be included in an infrastructure consent order. Sections 64 to 72 make provisions about orders authorising compulsory acquisition. Sections 73 to 84 provide specific limitations on what can be included in an order, and also provide specific powers to include certain provisions in orders. Section 85 details the procedure for publication of infrastructure consent orders.

172. Mae adrannau 86 i 93 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith. Mae adrannau 94 i 101 yn ymwneud ag effaith gorchmynion cydsyniad seilwaith ac maent yn cynnwys darpariaethau ynghylch cyfnod para gorchymyn cydsyniad seilwaith, heriau cyfreithiol, rhwymedigaethau cynllunio a digolledu mewn achosion pan fo amddiffyniad o awdurdodiad statudol yn gymwys mewn achos sifil neu droseddol am niwsans.

Darpariaeth mewn gorchmynion: cyffredinol

Adran 63 – Yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith

173. Mae'r adran hon yn pennu'r hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith.
174. Mae is-adrannau (1) a (2) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith osod gofynion mewn perthynas â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad seilwaith ar ei gyfer. Mae'r mathau o ofynion y caniateir eu gosod yn cynnwys gofynion sy'n cyfateb i amodau y gellid bod wedi eu gosod wrth roi unrhyw ganiatâd, cydsyniad neu awdurdodiad, neu roi unrhyw hysbysiad a fyddai wedi bod yn ofynnol ar gyfer y datblygiad oni bai am adran 20(1) neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 84. Mae'r gofynion y caniateir eu gosod hefyd yn cynnwys y rhwymedigaeth i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru neu unrhyw berson arall, i'r graddau nad yw hynny o fewn adran 63(2)(a).
175. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith hefyd wneud darpariaeth yn ymwneud â'r datblygiad y rhoddir cydsyniad ar ei gyfer, neu faterion sy'n atodol iddo. Mae'r darpariaethau y caniateir eu gwneud o dan yr is-adran hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir yn Atodlen 1 (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i hynny).
176. Mae is-adran (4) yn pennu bod y ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (3) yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.
177. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff rheoliadau ychwanegu mater at Ran 1 o Atodlen 1 neu amrywio neu ddileu unrhyw fater a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

172. Sections 86 to 93 provide the Welsh Ministers with powers to change or revoke infrastructure consent orders. Sections 94 to 101 are about the effect of infrastructure consent orders and contain provisions about the duration of an infrastructure consent order, legal challenges, planning obligations and compensation in cases where defence of statutory authority applies in civil or criminal proceedings for nuisance.

Provision in orders: general

Section 63 – What may be included in an infrastructure consent order

173. This section specifies what may be included in an infrastructure consent order.
174. Subsections (1) and (2) provide that an infrastructure consent order may impose requirements relating to the development for which infrastructure consent is granted. The types of requirements which may be imposed include those corresponding to conditions which could have been imposed on the grant of any permission, consent and authorisation, or the giving of any notice which would have been required for the development but for section 20(1) or any provision made under section 84. The requirements that may be imposed also include the obligation to obtain the approval of the Welsh Ministers or any other person, so far as not within section 63(2)(a).
175. Subsection (3) provides that an infrastructure consent order may also make provision relating to, or to matters ancillary to, the development for which consent is granted. The provisions that may be made under this subsection include (but are not limited to) provisions that relate to any of the matters listed in Schedule 1.
176. Subsection (4) specifies that the provision that may be made under subsection (3) includes provision relating to any of the matters specified in Part 1 of Schedule 1.
177. Subsection (5) provides that regulations may add a matter to Part 1 of Schedule 1 or vary or remove any matter listed in Part 1 of Schedule 1.

178. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gymhwys, addasu neu eithrio deddfiad sy'n ymwneud ag unrhyw fater y caniateir gwneud darpariaeth ar ei gyfer yn y gorchymyn. Caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith hefyd ddiwygio, ddiddymu neu ddirymu deddfiadau sy'n gymwys yn lleol y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol o ganlyniad i ddarpariaeth yn y gorchymyn neu mewn cysylltiad â'r gorchymyn. Caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith hefyd gynnwys unrhyw ddarpariaeth y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth arall yn y gorchymyn a chaiff hefyd gynnwys unrhyw ddarpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.
179. Mae is-adran (7) yn datgan na chaiff gorchymynion cydsyniad seilwaith greu troseddau, rhoi pŵer i greu troseddau na newid pŵer presennol i greu troseddau oni fo'r ddarpariaeth yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir ym mharagraff 29(1) o Atodlen 1 (creu troseddau penodol).
180. Mae is-adran (8) yn datgan, i'r graddau y caniateir cynnwys darpariaeth ar gyfer mater neu sy'n ymwneud â mater mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith, na chaniateir gwneud darpariaeth o'r math hwnnw drwy orchymyn o dan adran 14 neu 16 o Ddeddf Harbyrau 1964 neu orchymyn o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992.

Darpariaeth mewn gorchymynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol

Adran 64 – Diben caniatáu awdurdodi caffael yn orfodol

181. Mae adran 64 yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol onid yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y tir:
- yn ofynnol ar gyfer y datblygiad y mae'r cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef,
 - yn ofynnol er mwyn hwyluso'r datblygiad hwnnw neu fod y tir yn ddeilliadol i'r datblygiad hwnnw, neu
 - yn dir amnewid sydd i'w roi yn gyfnewid am y tir yr awdurdodir ei gaffael yn orfodol o dan adran 70 (tiroedd comin, mannau agored etc: caffael tir yn orfodol) neu adran 71 (tiroedd comin, mannau agored etc: caffael hawliau dros dir yn orfodol),
- a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir gael ei gaffael yn orfodol.

Adran 65 – Tir y gall awdurdodiad i gaffael yn orfodol ymwneud ag ef

182. Mae adran 65 yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol onid yw'r tir yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru a bod un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni:
- yr amod yn is-adran (2) yw bod y cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys archiad i awdurdodi caffael y tir yn orfodol;
 - yr amod yn is-adran (3) yw bod yr holl bersonau a chanddynt fuddiant yn y tir yn cydsynio i'r ddarpariaeth hon gael ei chynnwys;
 - yr amod yn is-adran (4) yw bod y weithdrefn a bennir mewn rheoliadau wedi ei dilyn mewn perthynas â'r tir hwnnw.

178. Subsection (6) provides that an infrastructure consent order may apply, modify or exclude an enactment which relates to any matter for which provision may be made in the order. An infrastructure consent order may also amend, repeal or revoke enactments of local application that appear to the Welsh Ministers to be appropriate in consequence of a provision of the order or in connection with the order. An infrastructure consent order may also include such provisions that appear to the Welsh Ministers to be appropriate to give full effect to any other provisions in the order and may also include any incidental, consequential, supplementary, transitional or saving provisions.
179. Subsection (7) states that infrastructure consent orders may not create offences, confer power to create an offence or change an existing power to create offences unless the provision relates to any of the matters listed in paragraph 29(1) of Schedule 1 (creation of certain offences).
180. Subsection (8) states that, to the extent that provision for or relating to a matter may be included in an infrastructure consent order, no provision can be made of the kind of an order under section 14 or 16 of the Harbour Act 1964 or an order under section 1 or 3 of the Transport and Works Act 1992.

Provision in orders authorising compulsory acquisition

Section 64 – Purpose for which compulsory acquisition may be authorised

181. Section 64 provides that an infrastructure consent order may only include provision authorising the compulsory acquisition of land if the Welsh Ministers are satisfied that the land is:
- required for the development to which the infrastructure consent relates,
 - required to facilitate that development or is incidental to that development, or
 - replacement land given in exchange for the land authorised to be compulsorily acquired under section 70 (commons, open spaces etc: compulsory acquisition of land) or section 71 (commons, open spaces etc: compulsory acquisition of rights over land),
- and that there is a compelling case in the public interest for the land to be acquired compulsorily.

Section 65 – Land to which authorisation of compulsory acquisition can relate

182. Section 65 provides that an infrastructure consent order may only include provision authorising the compulsory acquisition of land if the land is in Wales or the Welsh marine area and one of the following conditions is met:
- the condition in subsection (2) is that the application for infrastructure consent included a request for compulsory acquisition of the land to be authorised;
 - the condition in subsection (3) is that all persons with an interest in the land consent to the inclusion of this provision;
 - the condition in subsection (4) is that the procedure specified in regulations has been followed in relation to that land.

183. Mae "Cymru" ac "ardal forol Cymru" wedi eu diffinio yn adran 143.

Adran 66 - Cais am ddarpariaethau caffael yn orfodol

184. Mae adran 66 yn darparu bod Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 yn gymwys (gydag addasiadau penodedig) i unrhyw orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol.

185. Fodd bynnag, caiff y gorchymyn ei hun wneud darpariaethau i'r gwrthwyneb.

186. Mae Deddf Prynu Gorfodol 1965 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer prynu gorfodol.

Adran 67 - Digolledu am gaffael tir yn orfodol

187. Mae adran 67 yn cyfyngu ar y ddarpariaeth y caniateir ei gwneud ynghylch digolledu am gaffael tir yn orfodol mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol.

Adran 68 - Tir ymgwymerwyr statudol

188. Mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i orchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi caffael yn orfodol dir ymgwymerwyr statudol.

189. Mae adran 68 yn gymwys i dir ("tir ymgwymerwyr statudol") y mae ymgwymerwr statudol wedi ei gaffael at ddiben ei ymgwymeriad ac, o ganlyniad i sylw a wnaed ynghylch cais am gydsyniad seilwaith, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y defnyddir y tir at ddibenion cyflawni ymgwymeriad yr ymgwymerwr statudol neu y delir buddiant yn y tir at y dibenion hynny.

190. Er mwyn i orchymyn cydsyniad seilwaith gael ei wneud sy'n cynnwys darpariaeth yn awdurdodi caffael tir ymgwymerwr statudol yn orfodol, rhaid bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod natur a lleoliad y tir yn golygu:

- y gellir prynu'r tir a pheidio â'i amnewid heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgwymeriad, neu
- y gellir ei brynu a'i amnewid am dir arall heb unrhyw niwed o'r fath.

191. Yn yr un modd, ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth yn awdurdodi caffael hawl dros dir ymgwymerwyr statudol yn orfodol onid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni:

- y gellir prynu'r hawl heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgwymeriad, neu
- y gellir unioni unrhyw niwed drwy ddefnyddio tir arall gan yr ymgwymerwr statudol.

183. “Wales” and “Welsh marine area” are defined in section 143.

Section 66 – Application of compulsory acquisition provisions

184. Section 66 provides that Part 1 of the Compulsory Purchase Act 1965 applies (with specified modifications) to any infrastructure consent order that contains provisions authorising the compulsory acquisition of land.

185. However, the order itself may make contrary provision.

186. The Compulsory Purchase Act 1965 sets out the procedure for compulsory purchase.

Section 67 – Compensation for compulsory acquisition

187. Section 67 restricts the provision that may be made about compensation for compulsory acquisition in an infrastructure consent order that authorises the compulsory acquisition of land.

Section 68 – Statutory undertakers’ land

188. This section sets out the conditions that must be satisfied for an infrastructure consent order to authorise the compulsory acquisition of statutory undertakers’ land.

189. Section 68 applies to land (“statutory undertakers’ land”) that a statutory undertaker has acquired for the purpose of its undertaking, and as a result of a representation made about an application for infrastructure consent, the Welsh Ministers are satisfied that the land is used for the purposes of carrying on the statutory undertakers’ undertaking or an interest in the land is held for those purposes.

190. For an infrastructure consent order to be made that includes provision authorising the compulsory acquisition of statutory undertakers’ land, the Welsh Ministers must be satisfied that the nature and the situation of the land are such that:

- the land can be purchased and not replaced without serious detriment to the carrying on of the undertaking, or
- it can be purchased and replaced with other land without any such detriment.

191. Similarly, an infrastructure consent order can include a provision authorising the compulsory acquisition of a right over statutory undertakers’ land only if the Welsh Ministers are satisfied that:

- the right can be purchased without serious detriment to the carrying on of the undertaking, or
- any detriment can be remedied by the statutory undertaker using other land.

Adran 69 – Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

192. Mae adran 69 yn gymwys i dir y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen arno a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth yn anhrosoglwyddadwy. Mae'n darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir o'r fath yn orfodol yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd os yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gwneud gwrthwynebiad mewn sylw ynghylch cais am gydsyniad seilwaith ac nad yw'r gwrthwynebiad hwnnw wedi ei dynnu yn ôl.

Adran 70 – Tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael tir yn orfodol

193. Mae adran 70 yn gymwys i dir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir tanwydd neu ardd gae, pan nad yw'r caffaeliad yn ymwneud â chaffael hawl newydd dros dir. Mae'r adran hon yn darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael tir o'r fath yn orfodol yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r canlynol yn gymwys:

- bod tir amnewid wedi ei roi neu y bydd yn cael ei roi yn gyfnewid am y tir yr awdurdodir ei gaffael yn orfodol ("tir y gorchymyn") ac y bydd y tir amnewid wedi ei freinio yn y darpar werthwr ac yn ddarostyngedig i'r un hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion;
- pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig neu'n ffurfio rhan o fan agored yn unig, nad oes unrhyw dir addas ar gael i'w roi yn gyfnewid neu nad yw tir addas ar gael ond am bris afresymol, a'i bod er budd y cyhoedd i ddechrau'r datblygiad yn gynharach nag sy'n debygol o fod yn bosibl pe bai'r gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd;
- pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig neu'n ffurfio rhan o fan agored yn unig, ei fod yn cael ei gaffael at ddiben dros dro;
- os nad yw'r tir a gaffaelir yn fwy na 200 metr sgwâr o faint neu os yw'n angenrheidiol er mwyn lledu neu ddraenio priffordd bresennol (neu yn rhannol er mwyn lledu ac yn rhannol er mwyn draenio priffordd o'r fath), a bod rhoi tir arall yn gyfnewid amdano yn ddiangen.

194. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r eithriadau hyn yn gymwys, rhaid iddynt gofnodi'r ffaith honno yn y gorchymyn neu fel arall yn yr offeryn neu ddogfen arall sy'n cynnwys y gorchymyn.

195. Ni chaiff unrhyw dir amnewid fod yn ddim llai o ran arwynebedd na'r tir a gaffaelir yn orfodol, ac ni chaiff fod yn llai manteisiol na'r tir hwnnw.

Section 69 – National Trust land

192. Section 69 applies to land which belongs to the National Trust that is held inalienably by them. It provides that an infrastructure consent order which authorises the compulsory acquisition of such land will be subject to special Senedd procedure if the National Trust has made an objection in a representation about an application for infrastructure consent and this objection has not been withdrawn.

Section 70 – Commons, open spaces etc: compulsory acquisition of land

193. Section 70 applies to land forming part of a common, open space or fuel or field garden allotment, where the acquisition does not involve the acquisition of a new right over land. This section provides that an infrastructure consent order that authorises the compulsory acquisition of such land will be subject to special Senedd procedure unless the Welsh Ministers are satisfied that one of the following applies:

- replacement land has been or will be given in exchange for the land authorised to be compulsorily acquired (“order land”) and that the replacement land will be vested in the prospective seller and subject to the same rights, trusts and incidents;
- where the order land is or forms part of an open space only, there is no suitable land to be given in exchange or any suitable land is only available at a prohibitive cost, and it is in the public interest for development to be begun sooner than is likely to be possible if the order were subject to special Senedd procedure;
- where the order land is or forms part of an open space only, it is being acquired for a temporary purpose;
- the land being acquired does not exceed 200 square metres or is required for the widening or drainage of an existing highway (or partly for the widening and partly for the drainage of such a highway), and the giving of land in exchange for it is unnecessary.

194. Where the Welsh Ministers are satisfied that one of these exceptions applies, they must record that fact in the order or otherwise in the instrument or other document containing the order.

195. Any replacement land must be no less in area than the land being compulsorily acquired and must be no less advantageous.

Adran 71 – Tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael hawliau dros dir yn orfodol

196. Mae adran 71 yn gymwys i dir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir tanwydd neu ardd gae. Mae'r adran hon yn darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael yn orfodol hawl newydd dros dir o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd oni fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r canlynol yn gymwys:
- na fydd tir y gorchymyn, pan fydd hawl y gorchymyn yn weithredol drosto, yn llai manteisiol nag yr oedd ynghynt i'r personau y'i breinir ynddynt, ac unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) sydd â hawlogaeth i hawliau comin neu hawliau eraill, a'r cyhoedd;
 - bod tir amnewid wedi ei roi neu y bydd yn cael ei roi yn gyfnewid am hawl y gorchymyn a bod y tir hwnnw wedi ei freinio neu bydd yn cael ei freinio yn y personau y breinir tir y gorchymyn ynddynt ac y bydd y tir amnewid hwnnw yn ddarostyngedig i'r un hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion â thir y gorchymyn;
 - pan fo'r tir yn fan agored yn unig, nad oes unrhyw dir addas ar gael i'w roi yn gyfnewid am hawl y gorchymyn neu nad yw tir addas ar gael ond am bris afresymol, a'i fod er budd y cyhoedd i ddechrau'r datblygiad yn gynharach nag sy'n debygol o fod yn bosibl pe bai'r gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd;
 - pan fo tir y gorchymyn yn fan agored yn unig, a'i fod yn cael ei gaffael at ddiben dros dro;
 - os nad yw'r tir y caffaelir yr hawl drosto yn fwy na 200 metr sgwâr o faint neu os yw'r hawl yn angenrheidiol er mwyn lledu neu ddraenio priffordd bresennol (neu mewn cysylltiad yn rhannol â lledu ac yn rhannol â draenio priffordd o'r fath), a bod rhoi tir arall yn gyfnewid am hawl y gorchymyn yn ddiangen er budd y person sydd â hawlogaeth i hawliau comin neu hawliau eraill neu er budd y cyhoedd.
197. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un o'r eithriadau hyn yn gymwys, rhaid iddynt gofnodi'r ffaith honno yn y gorchymyn neu fel arall yn yr offeryn neu ddogfen arall sy'n cynnwys y gorchymyn.
198. Yn yr adran hon, ystyr "hawl y gorchymyn" yw'r hawl yr awdurdodir ei chaffael yn orfodol, ac ystyr "tir y gorchymyn" yw'r tir y mae hawl y gorchymyn i fod yn arferadwy drosto. Ystyr "tir amnewid" yw tir a fydd yn ddigonol i ddigolledu'r personau a grybwyllir yn y diffiniad o "tir amnewid" yn is-adran (9) am yr anfanteision a fyddai'n digwydd iddynt o ganlyniad i gaffael hawl newydd dros dir yn orfodol.

Adran 72 – Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol

199. Mae adran 72 yn darparu bod rhaid i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson a awdurdodwyd gan gorchymyn cydsyniad seilwaith i gaffael tir yn orfodol neu i berson y mae'r gorchymyn yn awdurdodi creu hawl newydd er ei fudd ("y darpar brynwr") roi, gyhoeddi neu arddangos "hysbysiad caffael orfodol" ac i alluogi'r cyhoedd i weld copi o'r gorchymyn cydsyniad seilwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

Section 71 – Commons, open spaces etc: compulsory acquisition of rights over land

196. Section 71 applies to land forming part of a common, open space or fuel or field garden allotment. This section provides that an infrastructure consent order that authorises the compulsory acquisition of a new right over such land will be subject to special Senedd procedure unless the Welsh Ministers are satisfied that one of the following applies:

- the order land when burdened with the order right will be no less advantageous than it was before to the person in whom it is vested, any other persons (if any) entitled to rights of common or other rights, and the public;
- replacement land has been or will be given in exchange for the order right and that land has been or will be vested in the persons in which the order land is vested and that replacement land will be subject to the same rights, trusts and incidents as the order land;
- where the land is open space only, there is no suitable land to be given in exchange for the order right or any suitable land is only available at a prohibitive cost, and it is in the public interest for development to be begun sooner than is likely to be possible if the order were subject to special Senedd procedure;
- where the land is open space only, and it is being acquired for a temporary purpose;
- the land over which the right is being acquired does not exceed 200 square metres, or the right is required in connection with the widening or drainage of an existing highway (or in connection partly with the widening and partly with the drainage of such a highway) and the giving of land in exchange for the order right is unnecessary in the interest of the person entitled to rights of common or other rights or in the interests of the public.

197. Where the Welsh Ministers are satisfied that one of these exceptions applies, they must record that fact in the order or otherwise in the instrument or other document containing the order.

198. In this section, “order right” means the right authorised to be compulsorily acquired, and “order land” means the land over which the order right is to be exercisable. “Replacement land” means land which will be adequate to compensate the persons mentioned in the definition of “replacement land” in subsection (9) for disadvantages which would apply to them as a result of the compulsory acquisition of a new right over land.

Section 72 – Notice of authorisation of compulsory acquisition

199. Section 72 provides that regulations must be made by the Welsh Ministers that require a person who has been authorised by an infrastructure consent order to compulsorily acquire land or a person for whose benefit the order authorises the creation of a new right (the “prospective purchaser”) to give, publish or display a “compulsory acquisition notice” and to provide the public with access to a copy of the infrastructure consent order to which the notice relates.

200. Hysbysiad yw "hysbysiad caffael gorfodol" sydd ar y ffurf a bennir mewn rheoliadau sy'n cynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-adran (2).
201. Rhaid hefyd anfon yr hysbysiad at y Prif Gofrestrydd Tir ac mae i fod yn bridiant tir lleol mewn cysylltiad â'r tir y mae'n ymwneud ag ef.

Darpariaeth mewn gorchymynion: cyfyngiadau a phwerau penodol

Adran 73 – Hawliau tramwy cyhoeddus

202. Mae adran 73 yn pennu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ond diddymu hawl tramwy cyhoeddus dros dir os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod hawl tramwy arall wedi ei darparu neu y bydd yn cael ei darparu, neu nad yw'n ofynnol.
203. Pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir ac yn diddymu hawl tramwy cyhoeddus nad yw'n hawl tramwy cerbydol dros y tir, ni chaiff y gorchymyn ddarparu i'r hawl tramwy gael ei diddymu yn gynharach na'r dyddiad y cyhoeddir y gorchymyn, a rhaid i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y bydd yr hawl tramwy yn cael ei adfer os diddymir yr hawl dros y tir cyn cwblhau caffael y tir ac, ar unrhyw adeg ar ôl yr adeg y diddymir yr hawl ei bod yn ymddangos i Weinidogion Cymru y rhoddwyd y gorau i'r cynnig i gaffael y tir.

Adran 74 – Pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill

204. Mae'r adran hon yn diwygio adran 205 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 fel bod y pŵer i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill ar gyfer cynnal gwaith adeiladu neu waith cynnal a chadw yn adran 203 o'r Ddeddf honno a'r pŵer dilynol i dalu digollediad yn adran 204 yn gymwys pan fo cydsyniad seilwaith wedi ei roi ar gyfer y gwaith adeiladu neu'r gwaith cynnal a chadw.

Adran 75 – Diddymu hawliau, a symud ymaith gyfarpar, ymgwymerwyr statudol etc.

205. Mae adran 75 yn gymwys pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir a bod y tir yn dod o dan unrhyw neu ragor o'r categorïau a ganlyn:
- tir y mae gan ymgwymerwr statudol neu weithredwr rhwydwaith cod cyfathrebu electronig hawl drosto a bennir yn is-adran (2) ("hawl berthnasol");
 - bod "cyfamod cyfyngol perthnasol" yn gymwys i'r tir (sef cyfamod cyfyngol sydd o fudd i'r ymgwymerwyr statudol wrth iddynt gynnal eu hymgymeriadau);
 - bod cyfarpar cyfathrebu electronig neu gyfarpar a freiniwyd yn yr ymgwymerwyr statudol neu gyfarpar sy'n eiddo iddynt ("cyfarpar perthnasol") ar y tir, odano neu drosto.
206. Pan fo'r adran hon yn gymwys, ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddiddymu hawl berthnasol neu gyfamod cyfyngol perthnasol neu symud ymaith gyfarpar perthnasol onid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn angenrheidiol i gynnal y datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef.

200. A “compulsory acquisition notice” is a notice in the form specified in regulations that contains the information set out in subsection (2).
201. The notice must also be sent to the Chief Land Registrar and is to be a local land charge in respect of the land to which it relates.

Provision in orders: specific limitations and powers

Section 73 – Public rights of way

202. Section 73 specifies that an infrastructure consent order cannot extinguish a public right of way over land unless the Welsh Ministers are satisfied that an alternative right of way has been or will be provided or is not required.
203. Where an infrastructure consent order authorises the acquisition of land and extinguishes a non-vehicular public right of way over the land, the order cannot provide for the right of way to be extinguished earlier than the date on which the order is published. And the Welsh Ministers must direct that the right of way revives if the right is extinguished before the acquisition of the land is completed and, at any time after the time that the right is extinguished it appears to the Welsh Ministers that the proposal to acquire the land has been abandoned.

Section 74 – Power to override easements and other rights

204. This section amends section 205 of the Housing and Planning Act 2016 so that the power to override easements and other rights for carrying out building or maintenance work in section 203 of that Act and the subsequent power to pay compensation in section 204 applies where infrastructure consent has been granted for the building or maintenance work.

Section 75 – Extinguishment of rights, and removal of apparatus, of statutory undertakers etc.

205. Section 75 applies where an infrastructure consent order authorises the acquisition of land and the land falls into any of the following categories:
- land in respect of which a statutory undertaker or electronic communications code network operator has a right specified in subsection (2) (“relevant right”);
 - a “relevant restrictive covenant” applies to the land (which is a restrictive covenant that benefits the statutory undertakers in carrying on their undertakings);
 - there is on, under or over the land electronic communications apparatus or apparatus vested in or belonging to statutory undertakers (“relevant apparatus”).
206. Where this section applies, an infrastructure consent order may include a provision requiring the extinguishment of a relevant right or relevant restrictive covenant or the removal of relevant apparatus only if the Welsh Ministers are satisfied that doing so is necessary for carrying out the development to which the order relates.

Adran 76 – Tir y Goron

207. Mae adran 76(1) yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi caffael buddiant yn nhir y Goron yn orfodol (mae “Tir y Goron” wedi ei ddiffinio yn adran 134) oni fo'r buddiant yn cael ei ddal am y tro ac eithrio gan y Goron neu ar ran y Goron, a bod awdurdod priodol y Goron (mae “awdurdod priodol y Goron” wedi ei ddiffinio yn adran 134) yn cydsynio i'r caffael.
208. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys unrhyw ddarpariaeth arall sy'n gymwys mewn perthynas â thir y Goron, neu hawliau y mae'r Goron yn cael budd ohonynt, oni fo awdurdod priodol y Goron yn cydsynio.

Adran 77 – Gweithredu gorsafodd cynhyrchu

209. Mae'r adran hon yn darparu na chaniateir gwneud gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi gweithredu gorsaf gynhyrchu onid yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn golygu neu'n cynnwys adeiladu neu estyn yr orsaf gynhyrchu.

Adran 78 – Cadw llinellau trydan yn osodedig uwchben y ddaear

210. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi cadw llinellau trydan yn osodedig uwchben y ddaear onid yw'r datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn golygu neu'n cynnwys gosod y llinell uwchben y ddaear.

Adran 79 – Dargyfeirio cyrsiau dŵr

211. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi dargyfeirio unrhyw ran o gwrs dŵr mordwyol gael ei wneud onid yw'r darn newydd arfaethedig o gwrs dŵr yn fordwyol mewn modd rhesymol gyfleus gan lestrau o fath sy'n gyfarwydd â defnyddio'r cwrs dŵr a ddargyfeirir.
212. Os yw gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi dargyfeirio unrhyw ran o gwrs dŵr mordwyol, cymerir hefyd fod y gorchymyn yn awdurdodi dargyfeirio unrhyw lwybr halio neu dramwyfa arall sy'n gyfagos i'r rhan honno.

Adran 80 – Priffyrdd

213. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith awdurdodi codi tollau mewn perthynas â phriffordd onid oes cais i'r perwyl hwnnw wedi ei gynnwys yn y cais am y gorchymyn.

Adran 81 – Harbyrau

214. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ddarparu ar gyfer creu awdurdod harbwr, darparu ar gyfer addasu pwerau neu ddyletswyddau awdurdod harbwr, ac awdurdodi trosglwyddo eiddo, hawliau neu atebolrwyddau o un awdurdod harbwr i un arall odanynt.

Section 76 – Crown land

207. Section 76(1) provides that an infrastructure consent order can authorise the compulsory acquisition of an interest in Crown land (“Crown land” is defined in section 134) only if the interest is for the time being held otherwise than by or on behalf of the Crown, and the appropriate Crown authority (“appropriate Crown authority” is defined in section 134) consents to the acquisition.
208. Subsection (2) provides that an infrastructure consent order can include any other provision applying in relation to Crown land, or rights benefiting the Crown, only if the appropriate Crown authority consents.

Section 77 – Operation of generating stations

209. This section provides that an infrastructure consent order that authorises the operation of a generating station can only be made if the development to which the order relates is or includes the construction or extension of the generating station.

Section 78 – Keeping electric lines installed above ground

210. This section provides that an infrastructure consent order may authorise electric lines to be kept installed above ground only if the development to which the order relates is or includes the installation of the line above ground.

Section 79 – Diversion of watercourses

211. This section provides that an infrastructure consent order that authorises the diversion of any part of a navigable watercourse can only be made if the proposed new length of watercourse is navigable in a reasonably convenient manner by vessels of a kind that are accustomed to using the watercourse being diverted.
212. If an infrastructure consent order authorises the diversion of any part of a navigable watercourse, the order is also taken to authorise the diversion of any adjacent tow path or other way adjacent to that part.

Section 80 – Highways

213. This section provides that an infrastructure consent order may authorise the charging of tolls relating to a highway only if such a request was included in the application for the order.

Section 81 – Harbours

214. This section sets out the circumstances under which an infrastructure consent order may provide for the creation of a harbour authority, provide for the modification of the powers or duties of a harbour authority and authorise the transfer of property, rights or liabilities from one harbour authority to another.

Adran 82 – Gollwng dŵr

215. Mae'r adran hon yn gymwys i orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi gollwng dŵr i ddyfroedd mewndirol neu strata tanddaearol. Nid yw'r person y rhoddir cydsyniad seilwaith iddo yn cael pŵer cyffredinol i gymryd dŵr na'i gwneud yn ofynnol i ddŵr gael ei ollwng o'r dyfroedd mewndirol nac o darddleoedd eraill y bwriedir i'r gollyngiadau a awdurdodir gan y gorchymyn gael eu gwneud ohonynt.

Adran 83 – Cydsyniad tybiedig o dan drwydded forol

216. Mae'r adran hon yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith dybio y dyroddwyd trwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer unrhyw weithgaredd lle Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol (fel y'i diffinnir yn adran 113 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) ar ei gyfer.

217. Nid yw person sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded forol dybiedig yn cyflawni trosedd o dan adran 104 o'r Ddeddf, ond yn hytrach mae'n cyflawni trosedd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

218. Nid yw'r Ddeddf yn rhwystro trwydded forol dybiedig rhag cael ei hamrywio, ei hatal dros dro, ei dirymu neu ei throsglwyddo yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Adran 84 – Dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau

219. Mae adran 84(1) yn darparu y caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n dileu'r gofyniad i roi cydsyniad a bennir mewn rheoliadau, neu sy'n thybio bod cydsyniad a bennir mewn rheoliadau wedi ei roi, os yw'r awdurdod a fyddai fel arfer yn rhoi'r cydsyniad:

- wedi rhoi ei gydsyniad i gynnwys y ddarpariaeth yn y gorchymyn cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu
- heb wrthod rhoi ei gydsyniad i gynnwys darpariaeth o'r fath cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

220. Mae is-adran (4) yn caniatáu i reoliadau ddarparu eithriadau i'r gofyniad i fodloni'r amodau a nodir yn is-adrannau (2) a (3).

Y weithdrefn ar gyfer gorchmynion cydsyniad Seilwaith

Adran 85 – Gorchmynion cydsyniad seilwaith: eu cyhoeddi a'r weithdrefn

221. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn cydsyniad seilwaith yn y modd y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

222. Fodd bynnag rhaid i'r gorchymyn gael ei gynnwys mewn offeryn statudol os yw'r gorchymyn yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 63(3) sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir ym mharagraffau 28 a 29 o Atodlen 1 (creu troseddau penodol drwy orchymyn cydsyniad seilwaith), neu ddarpariaeth a wneir wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 63(6)(a) neu (b) (addasu deddfiadau drwy orchymyn cydsyniad seilwaith).

Section 82 – Discharge of water

215. This section applies to an infrastructure consent order that authorises the discharge of water into inland waters or underground strata. The person to whom infrastructure consent is granted does not acquire a general power to take water or to require discharges to be made from the inland waters or other sources from which the discharge authorised by the order are intended to be made.

Section 83 – Deemed consent under a marine licence

216. This section provides that an infrastructure consent order may deem a marine licence to have been issued under Part 4 of the Marine and Coastal Access Act 2009 for any activity for which the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority (as defined in section 113 of the Marine and Coastal Access Act 2009).

217. A person who fails to comply with any conditions attached to the deemed marine licence does not commit an offence under section 104 of the Act, but instead commits an offence under the Marine and Coastal Access Act 2009.

218. The Act does not prevent a deemed marine licence from being varied, suspended, revoked or transferred in accordance with the Marine and Coastal Access Act 2009.

Section 84 – Removing consent requirements and deeming consents

219. Section 84(1) provides that an infrastructure consent order may include provision that removes the requirement for a consent specified in regulations to be granted, or deems a consent specified in regulations to have been granted, if the authority who would usually grant the consent:

- has given its consent to the provision being included in the order before the end of the period specified in regulations, or
- has not refused its consent for the inclusion of such a provision before the end of the period specified in regulations.

220. Subsection (4) allows regulations to provide exceptions to the requirement to meet the conditions set out in subsections (2) and (3).

Procedure for infrastructure consent orders

Section 85 – Infrastructure consent orders: publication and procedure

221. This section requires the Welsh Ministers to publish an infrastructure consent order in such manner as they consider appropriate.

222. But an order must be contained in a statutory instrument if the order contains provision made under section 63(3) relating to any of the matters listed in paragraphs 28 and 29 of Schedule 1 (creation of certain offences by an infrastructure consent order), or is made in exercise of the powers conferred by section 63(6)(a) or (b) (modification of enactments by infrastructure consent order).

223. Pan fo gorchymyn wedi ei gynnwys mewn offeryn statudol, mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru gopi o'r offeryn, y fersiwn ddiweddaraf o unrhyw blan a gyflenwyd gan y ceisydd mewn cysylltiad â'r cais a datganiad o'r rhesymau a luniwyd o dan adran 62 cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Newid a dirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith etc.

Adran 86 – Ystyr “dogfennau penderfyniad” a “gwall”

224. Mae'r adran hon yn nodi diffiniadau at ddibenion adrannau 87 ac 88.

Adran 87 – Pŵer i gywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad

225. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad (“dogfen penderfyniad” yw'r gorchymyn cydsyniad seilwaith neu'r hysbysiad sy'n hysbysu'r ceisydd bod ei gais am gydsyniad seilwaith wedi ei wrthod).
226. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i gywiro gwallau os ceir cais ysgrifenedig i gywiro gwall oddi wrth unrhyw berson neu heb i gais o'r fath gael ei wneud.
227. Mae is-adran (4) yn darparu, os yw'r ddogfen penderfyniad yn orchymyn cydsyniad seilwaith, bod rhaid i'r pŵer i gywiro gwallau gael ei arfer drwy orchymyn, ac os cynhwysir y gorchymyn sy'n cael ei gywiro mewn offeryn statudol, rhaid i'r pŵer gael ei arfer drwy offeryn statudol.
228. Mae is-adran (5) yn darparu, os yw'r ddogfen penderfyniad yn hysbysiad o wrthodiad, bod rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pŵer i gywiro'r ddogfen drwy roi hysbysiad i'r ceisydd.

Adran 88 – Cywiro gwallau: rheoliadau

229. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn i gywiro gwall mewn dogfen penderfyniad.
230. Caiff y rheoliadau gynnwys, er enghraifft, ddarpariaeth ynghylch:
- unrhyw ymgynghoriad y mae rhaid iddo ddigwydd,
 - yr amgylchiadau pan fo rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn egluro'r rhesymau dros gywiro'r gwall,
 - effaith gwneud cywiriad a pheidio â gwneud cywiriad, a
 - pryd y mae cywiriad yn cymryd effaith.

Gwneud newidiadau i orchymynion cydsyniad seilwaith a'u dirymu

Adran 89 – Diffiniadau

231. Mae'r adran hon yn nodi diffiniadau at ddibenion adrannau 90 a 91.

Adran 90 – Pŵer i newid neu ddirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith

232. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith ac i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

223. Where an order is contained in a statutory instrument, subsection (4) requires the Welsh Ministers to lay before Senedd Cymru a copy of the instrument, the latest version of any plan supplied by the applicant in connection with the application and a statement of reasons prepared under section 62 as soon as practicable.

Changing and revoking infrastructure consent orders etc.

Section 86 – Meaning of “decision documents” and “error”

224. This section sets out definitions for the purposes of sections 87 and 88.

Section 87 – Power to correct errors in decision documents

225. This section gives the Welsh Ministers a power to correct errors in a decision document (a “decision document” is the infrastructure consent order or the notice notifying the applicant that their application for infrastructure consent has been refused).
226. The power to correct errors may be exercised by the Welsh Ministers on receiving a request in writing to correct an error from any person or without such a request being made.
227. Subsection (4) provides that if the decision document is an infrastructure consent order, the power to correct errors must be exercised by order, and if the order being corrected is contained in a statutory instrument, the power must be exercised by statutory instrument.
228. Subsection (5) provides that if the decision document is a notice of refusal, the Welsh Ministers must exercise their power to correct the document by giving the applicant a notice.

Section 88 – Correcting errors: regulations

229. This section provides the Welsh Ministers with a power to make regulations regarding the procedure for correcting an error in a decision document.
230. The regulations may include, for example, provision regarding:
- any consultation that must take place,
 - the circumstances in which the Welsh Ministers must publish a statement explaining the reason for correcting the error,
 - the effect of making a correction and not making a correction, and
 - when a correction takes effect.

Making changes to, and revoking, infrastructure consent orders

Section 89 – Definitions

231. This section sets out definitions for the purposes of sections 90 and 91.

Section 90 – Power to change or revoke infrastructure consent orders

232. This section gives the Welsh Ministers a power to make a change to an infrastructure consent order and to revoke an infrastructure consent order.

233. Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy newid gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan adran 63 (yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith), ond yn ddarostyngedig i'r rheolau yn yr adran hon.
234. Caniateir arfer y pŵer i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ar gais a wneir gan y ceisydd neu olynnydd yn nheithl y ceisydd, person a chanddo fuddiant yn y tir neu unrhyw berson arall y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd, ac o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (4), caniateir i gais gael ei wneud gan awdurdod cynllunio.
235. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd newid neu ddirymu gorchymyn cysyniad seilwaith heb i gais gael ei wneud.
236. Caiff Gweinidogion Cymru wrthod arfer y pŵer os ydynt o'r farn y dylai'r datblygiad, o ganlyniad i'r newid, fod yn destun cais am orchymyn cydsyniad seilwaith newydd.
237. Mae is-adran (7) yn rhoi enghreifftiau o rai o'r pethau y gellir eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer o dan is-adran (1) i newid neu ddirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith. Mae'n cynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i symud ymaith neu addasu adeiladau neu ofynion presennol a'i gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i ddefnydd o dir.
238. Mae is-adran (8) yn egluro nad yw arfer y pŵer yn is-adran (1) yn effeithio ar unrhyw waith adeiladu na gweithrediadau eraill a gynhaliwyd eisoes, oni bai bod y newid neu ddirymu yn ei gwneud yn ofynnol i symud ymaith neu addasu gwaith adeiladu.

Adran 91 - Y weithdrefn: newid a dirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith

239. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer newid a dirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith.
240. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, wneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid gwneud cais i newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith, y broses o wneud penderfyniad ar gyfer cais o'r fath ac effaith penderfyniad i arfer y pŵer i newid neu ddirymu gorchymyn.
241. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo gan berson fuddiant ym mheth, ond nid y cyfan, o'r tir y mae gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, na chaiff y person wneud cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ond mewn cysylltiad â'r tir y mae gan y person fuddiant ynddo.
242. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith sydd wedi ei gynnwys mewn offeryn statudol i hefyd gael ei gynnwys mewn offeryn statudol.

233. The provision that may be made by a way of a change to an infrastructure consent order includes any provision that may be made under section 63 (what may be included in an infrastructure consent order), but this is subject to the rules in this section.
234. The power to change or revoke an infrastructure consent order may be exercised on an application made by the applicant or a successor in title of the applicant, a person with an interest in the land or any other person for whose benefit the infrastructure consent order has effect, and, in the circumstances set out in subsection (4), an application can be made by a planning authority.
235. The Welsh Ministers may also change or revoke an infrastructure consent order without an application being made.
236. The Welsh Ministers may refuse to exercise the power if they consider the development, as a result of the change, should be the subject of an application for a new infrastructure consent order.
237. Subsection (7) gives examples of some of the things that the power under subsection (1) to change or revoke infrastructure consent orders can be used to do. It includes, for example, requiring the removal or alteration of buildings or existing requirements and requiring the discontinuance of a use of land.
238. Subsection (8) makes it clear that existing building or other operations which have already been carried out are not affected by the exercise of the power in subsection (1), unless the change or revocation requires the removal or alteration of building works.

Section 91 – Procedure: changing and revoking infrastructure consent orders

239. This section provides the Welsh Ministers with a power to make regulations about the procedure for changing and revoking infrastructure consent orders.
240. The regulations may, for example, make provision about how an application for changing or revoking an infrastructure consent must be made, the decision-making process for such an application and the effect of a decision to exercise the power to change or revoke an order.
241. This section provides that where a person has an interest in some, but not all, of the land to which an infrastructure consent order relates, the person may make an application to change or revoke only in respect of the land in which the person has an interest.
242. This section requires a change or revocation of an infrastructure consent order which is contained in a statutory instrument to also be contained in a statutory instrument.

Adran 92 – Newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith: trefniadau ffurfiol

243. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn a wneir o dan adran 87 neu 90 neu hysbysiad a roddir o dan adran 87 yn y modd y maent yn meddwl ei fod yn briodol, ond os yw'n ofynnol i'r gorchymyn gael ei gynnwys mewn offeryn statudol, rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r offeryn gerbron Senedd Cymru.

Adran 93 – Newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith: digolledu

244. Gwneir darpariaeth ynghylch digolledu am newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith yn Atodlen 2.

Effaith gorchmynion cydsyniad Seilwaith

Adran 94 – Hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith

245. Mae'r adran hon yn darparu, pan roddir cydsyniad i ddatblygiad drwy orchymyn cydsyniad seilwaith, bod rhaid i'r datblygiad hwnnw ddechrau o fewn cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu unrhyw gyfnod arall a bennir yn y gorchymyn. Canlyniad methu â dechrau datblygiad o fewn y cyfnod cymwys fydd bod y gorchymyn cydsyniad seilwaith yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

246. Pan fo gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i unrhyw gamau a bennir mewn rheoliadau gael eu cymryd cyn diwedd cyfnod a bennir mewn rheoliadau neu unrhyw gyfnod arall a bennir yn y gorchymyn. Os na chymerir y camau hyn cyn diwedd y cyfnod cymwys, mae'r awdurdodiad a roddir gan y gorchymyn i gaffael y tir yn orfodol yn peidio â chael effaith.

Adran 95 – Pryd y mae datblygiad yn dechrau

247. Mae'r adran hon yn datgan y cymerir bod datblygiad yn dechrau ar y dyddiad cynharaf y mae unrhyw weithrediad sylweddol sy'n ffurfio'r datblygiad, neu a gynhelir at ddibenion y datblygiad, yn dechrau cael ei gynnal.

248. Ystyr "gweithrediad sylweddol" yw unrhyw weithrediad, ond ceir pŵer yn is-adran (2) i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y mathau o weithrediadau nad ydynt yn "gweithrediad sylweddol".

Adran 96 – Heriau cyfreithiol

249. Mae'r adran hon yn darparu na chaniateir herio'r canlynol ond drwy adolygiad barnwrol:

- gorchymyn cydsyniad seilwaith,
- gwrthod rhoi cydsyniad seilwaith,
- penderfyniad i beidio â derbyn cais yn gais dilys,
- penderfyniad mewn perthynas â chywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad,
- penderfyniad mewn perthynas â newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu

**Section 92 – Changing and revoking infrastructure consent orders:
formalities**

243. This section requires the Welsh Ministers to publish an order made under section 87 or 90 or a notice given under section 87 in a manner that they think is appropriate, but if the order is required to be contained in a statutory instrument, the Welsh Ministers must lay a copy before Senedd Cymru.

**Section 93 – Changing or revoking an infrastructure consent order:
compensation**

244. Provision about compensation for changing or revoking an infrastructure consent order is made in Schedule 2.

Effect of infrastructure consent orders

Section 94 – Duration of infrastructure consent order

245. This section provides that where consent for development is granted by an infrastructure consent order, that development must begin within a period specified in regulations, or such other period as is specified in the order. Failure to commence development within the applicable period will result in the infrastructure consent order ceasing to have effect at the end of that period.

246. Where the infrastructure consent order authorises the compulsory acquisition of land, subsection (3) provides that any steps that may be set out in regulations must be taken before the end of a period specified in regulations or such other period as is specified in the order. If these steps are not taken within the applicable period, the authority provided by the order to compulsorily acquire the land ceases to have effect.

Section 95 – When development begins

247. This section states that development is taken to begin on the earliest day that any material operation comprised in, or carried out for the purposes of, the development begins to be carried out.

248. “Material operation” means any operation, but there is a power in subsection (2) for the Welsh Ministers to set out in regulations kinds of operations that are not a “material operation”.

Section 96 – Legal challenges

249. This section provides that:

- an infrastructure consent order,
- a refusal of infrastructure consent,
- a decision not to accept an application as valid,
- a decision relating to correcting errors in a decision document,
- a decision relating to changing or revoking an infrastructure consent order, or

- unrhyw beth arall a wneir, neu nas gwneir, gan Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith, neu gais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, ac yn unol â darpariaethau'r adran hon. Yn benodol, mae'r adran yn pennu o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud pob cais.

Adran 97 – Budd gorchymyn cydsyniad seilwaith

250. Mae adran 97 yn darparu y bydd gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael effaith er budd y tir y gwneir y gorchymyn mewn perthynas ag ef a phawb sydd am y tro â buddiant yn y tir, oni fo'r gorchymyn yn gwneud darpariaeth i'r gwrthwyneb.

Adran 98 – Rhwymedigaethau cynllunio

251. Mae adran 98 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh") er mwyn caniatáu i'r ceisydd am gydsyniad seilwaith ymrwymo i gytundebau gydag awdurdodau lleol, yn yr un modd ag y gall datblygwr sy'n ceisio caniatâd cynllunio o dan DCGTh. Gelwir y cytundebau hyn yn "rhwymedigaethau cydsyniad seilwaith".

252. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 106A o DCGTh. Effaith y diwygiad yw y caniateir amrywio neu ollwng rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith drwy gytundeb rhwng Gweinidogion Cymru a'r person y mae'r rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith yn orfodadwy yn ei erbyn. Mae'r diwygiad hefyd yn darparu y caiff y person y mae'r rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith yn orfodadwy yn ei erbyn wneud cais i Weinidogion Cymru i'r rhwymedigaeth gael ei gollwng neu ei hamrywio (os Gweinidogion Cymru wnaeth benderfynu, neu a fydd yn penderfynu, ar y cais yr ymrwymwyd i'r rhwymedigaeth mewn cysylltiad ag ef).

253. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd gorfodi'r rhwymedigaeth.

254. Mae is-adran (5) yn gwneud darpariaeth ynghylch heriau cyfreithiol mewn cysylltiad â rhwymedigaethau cynllunio.

Adran 99 – Tir o dan falltod

255. Gall datganiad polisi seilwaith sy'n nodi lleoliad fel lleoliad addas (neu leoliad addas o bosibl) ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol greu malltod yn y lleoliad hwnnw, gan effeithio ar werthoedd tir. Gall malltod hefyd ddeillio o gais yn cael ei wneud am orchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir yn orfodol neu o roi awdurdodiad o'r fath.

256. Mae adran 99 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh") er mwyn caniatáu i berchen-feddianwyr yr effeithiwyd arnynt yn y ffordd hon i gael y budd o ddarpariaethau presennol DCGTh sy'n ymwneud â malltod drwy wneud y disgrifiadau tir hyn yn dir o dan falltod ("blighted land") at ddiben DCGTh.

- anything else done or omitted to be done by the Welsh Ministers or an examining authority in relation to an application for infrastructure consent, or an application to change or revoke an infrastructure consent order,

may only be challenged by means of judicial review and in accordance with the provisions of this section. In particular, the section specifies the period within which each claim must be made.

Section 97 – Benefit of infrastructure consent order

250. Section 97 provides that an infrastructure consent order will have effect for the benefit of the land in respect of which the order is made and all those for the time being interested in the land, unless the order makes provision to the contrary.

Section 98 – Planning obligations

251. Section 98 amends the Town and Country Planning Act 1990 (“the TCPA”) so as to allow the applicant for infrastructure consent to enter into agreements with local authorities, in the same way as a developer seeking planning permission under the TCPA is able to. These agreements are called “infrastructure consent obligations”.

252. Subsection (3) amends section 106A of the TCPA. The effect of the amendment is that an infrastructure consent obligation may be varied or discharged by agreement between the Welsh Ministers and the person against whom the infrastructure consent obligation is enforceable. The amendment also provides that the person against whom the infrastructure consent obligation is enforceable may apply to the Welsh Ministers for it to be discharged or varied (if the Welsh Ministers decided or will decide the application in connection with which the obligation was entered into).

253. It will be for the local planning authority to enforce the obligation.

254. Subsection (5) makes provision about legal challenges in connection with planning obligations.

Section 99 – Blighted land

255. An infrastructure policy statement identifying a location as a suitable (or potentially suitable) location for a significant infrastructure project may create blight at that location, affecting the values of land. Blight may also result from an application being made for an infrastructure consent order authorising the compulsory acquisition of land or from such authorisation being given.

256. Section 99 amends the Town and Country Planning Act 1990 (“the TCPA”) so as to allow owner-occupiers affected in this way to have the benefit of the existing provisions of the TCPA relating to blight by making these descriptions of land “blighted land” for the purpose of the TCPA.

257. Mae DCGTh yn darparu gweithdrefn sy'n galluogi personau sydd â buddiannau penodol yn y tir sydd o dan falltod i gyflwyno hysbysiad i awdurdod priodol ("appropriate authority") yn ei gwneud yn orfodol i'r awdurdod brynu buddiant y personau. Effaith is-adran (6) yw mai'r "awdurdod priodol" yn achos malltod a achosir gan ddatganiad polisi seilwaith yw'r ymgymwrwr statudol a enwir fel person priodol i gynnal y datblygiad a bennir yn y datganiad polisi seilwaith, neu Weinidogion Cymru pan nad oes ymgymwrwr o'r fath wedi ei enwi. Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu ar unrhyw anghydfodau o ran pwy yw'r awdurdod priodol.
258. Mae is-adran (4) yn atal yr awdurdod priodol rhag cyflwyno gwrth-hysbysiad i hysbysiad malltod ar y sail nad oes ganddynt unrhyw fwriad i gynnal y datblygiad.

Adran 100 – Niwsans: awdurdodiad statudol

259. Mae adran 100 yn rhoi awdurdodiad statudol i gynnal datblygiad y rhoddir cydsyniad iddo drwy orchymyn cydsyniad seilwaith ac ar gyfer gwneud unrhyw beth arall a awdurdodir drwy'r gorchymyn. Mae is-adran (2) yn darparu na roddir awdurdodiad statudol ond at y diben o ddarparu amddiffyniad mewn achosion sifil a throseddol am niwsans. Mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a wneir drwy orchymyn cydsyniad seilwaith.

Adran 101 – Digolledu mewn achos pan fo amddiffyniad o awdurdodiad statudol yn gymwys

260. Mae adran 101 yn rhoi hawl i ddigollediad mewn achosion pan fo, yn rhinwedd adran 100 neu delerau gorchymyn cydsyniad seilwaith, amddiffyniad o awdurdodiad statudol mewn achos sifil neu droseddol am niwsans mewn cysylltiad ag unrhyw waith awdurdodedig.
261. Mae is-adran (2) yn diffinio "gwaith awdurdodedig" fel datblygiad y rhoddir gorchymyn cydsyniad seilwaith ar ei gyfer ac unrhyw beth arall a awdurdodir gan y gorchymyn.
262. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar y person sy'n cynnal y gwaith awdurdodedig, neu y cynhelir y gwaith hwnnw ar ei ran, i ddigolledu unrhyw berson y mae cynnal y gwaith awdurdodedig yn cael effaith niweidiol ar ei dir.
263. Mae anghydfodau ynghylch digollediad o dan is-adran (3) yn cael eu hatgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys.
264. Mae is-adran (5) yn darparu bod adran 10(2) o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (cyfyngu ar ddigolledu) yn gymwys i adran 101(3) fel y mae'n gymwys i adran 10(2) o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965.
265. Rhaid i unrhyw reol neu egwyddor a gymhwysir i'r dehongliad o adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 gael ei chymhwyso i'r dehongliad o adran 101(3) gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

257. The TCPA provides a procedure which enables persons with certain interests in the land that is blighted to serve a notice on an “appropriate authority” requiring the authority to purchase their interest. The effect of subsection (6) is that the “appropriate authority” in the case of blight caused by an infrastructure policy statement is the statutory undertaker named as an appropriate person to carry out the development specified in the infrastructure policy statement, or the Welsh Ministers where there is no such named undertaker. The Welsh Ministers are to determine any disputes as to who the appropriate authority is.
258. Subsection (4) prevents the appropriate authority from serving a counter-notice to a blight notice on grounds of having no intention of conducting the development.

Section 100 – Nuisance: statutory authority

259. Section 100 confers statutory authority for carrying out development for which consent is granted by an infrastructure consent order and for doing anything else authorised by the order. Subsection (2) provides that statutory authority is conferred only for the purpose of providing a defence in civil and criminal proceedings for nuisance. Subsections (1) and (2) are subject to any contrary provision made by an infrastructure consent order.

Section 101 – Compensation in case where defence of statutory authority applies

260. Section 101 confers a right to compensation in cases where, by virtue of section 100 or the terms of an infrastructure consent order, there is a defence of statutory authority in civil or criminal proceedings for nuisance in respect of any authorised works.
261. Subsection (2) defines “authorised works” as development for which an infrastructure consent order is granted and anything else authorised by the order.
262. Subsection (3) imposes a duty on the person who carries out the authorised works or on whose behalf such works are carried out, to pay compensation to any person whose land is injuriously affected by the carrying out of the authorised works.
263. Disputes about compensation under subsection (3) are referred to the Upper Tribunal.
264. Subsection (5) provides that section 10(2) of the Compulsory Purchase Act 1965 (limitations on compensation) applies to section 101(3) as it applies to section 10(2) of the Compulsory Purchase Act 1965.
265. Any rule or principle applied to the construction of section 10 of the Compulsory Purchase Act 1965 must be applied to the construction of section 101(3) with any necessary modifications.

266. Mae is-adran (7) yn darparu bod Rhan 1 o Ddeddf Digollediad Tir 1973 (p. 26) (digollediad am ddibrisiant yng ngwerth tir gan ffactorau ffisegol a achosir gan ddefnydd o waith cyhoeddus) yn gymwys mewn perthynas â gwaith awdurdodedig fel pe bai:
- cyfeiriadau yn y Rhan honno at unrhyw “public works” yn gyfeiriadau at waith awdurdodedig;
 - cyfeiriadau yn y Rhan honno at “the responsible authority” yn gyfeiriadau at y person y mae'r gorchymyn seilwaith yn cael effaith er ei fudd am y tro;
 - adrannau 1(6) a 17 wedi eu hepgor.
267. Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n cael yr effaith o ddileu neu addasu cymhwysiad adran 101.

Dehongli

Adran 102 – Ystyr “tir”

268. Mae adran 102 yn darparu, yn Rhan 6, fod “tir” yn cynnwys unrhyw fuddiant mewn tir neu unrhyw hawl drosto.

Rhan 7 – Gorfodi

269. Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ynghylch troseddau sy'n ymwneud â datblygu heb gydsyniad seilwaith a thorri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu fethiant i gydymffurfio â'r telerau hynny, a'r gallu i gyflwyno hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig.
270. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pa offerynnau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gynorthwyo o ran ymgymryd â dyletswyddau gorfodi, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer cymryd unrhyw gamau gorfodi.

Troseddau

Adran 103 – Datblygu heb gydsyniad seilwaith

271. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd pan fo person yn cynnal, neu'n peri cynnal, datblygiad y mae cydsyniad seilwaith yn ofynnol ar ei gyfer ar adeg pan na fo cydsyniad o'r fath mewn grym mewn cysylltiad â'r datblygiad.
272. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Adran 104 – Torri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith

273. Mae'r adran hon yn darparu y cyflawnir trosedd os yw person, heb esgus rhesymol, yn cynnal, neu'n peri cynnal, datblygiad sy'n torri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith neu'n methu â chydymffurfio â thelerau gorchymyn cydsyniad seilwaith.

266. Subsection (7) provides that Part 1 of the Land Compensation Act 1973 (c. 26) (compensation for depreciation of land value by physical factors caused by use of public works) applies in relation to authorised works as if:
- references in that Part to any public works were to authorised works;
 - references in that Part to the responsible authority were to the person for whose benefit the infrastructure order has effect for the time being;
 - sections 1(6) and 17 were omitted.
267. An infrastructure consent order cannot include provision the effect of which is to remove or modify the application of section 101.

Interpretation

Section 102 – Meaning of “land”

268. Section 102 provides that, in Part 6, “land” includes any interest in or right over land.

Part 7 – Enforcement

269. Part 7 of the Act contains provisions about offences relating to development without infrastructure consent and a breach of, or failure to comply with, the terms of an infrastructure consent order and the ability to serve notices of unauthorised development.
270. This Part makes provision about what enforcement tools are available to local authorities and the Welsh Ministers to aid in undertaking enforcement duties, in addition to the time limits within which any enforcement action may be taken.

Offences

Section 103 – Development without infrastructure consent

271. This section provides that an offence is committed where a person carries out, or causes to be carried out, development which requires infrastructure consent, but at the time, no such consent is in force in respect of the development.
272. A person may be tried in the magistrates’ court or the Crown Court and where found guilty, will be liable to an unlimited fine.

Section 104 – Breach of terms of infrastructure consent order

273. This section provides that an offence is committed if, without a reasonable excuse, a person carries out, or causes to be carried out, development which is in breach of the terms of an infrastructure consent order or fails to comply with the terms of an infrastructure consent order.

274. Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan yr adran hon i brofi nad oedd y toriad neu fethiant i gydymffurfio wedi digwydd ond oherwydd gwall yn y gorchymyn cydsyniad seilwaith a bod y gwall wedi ei gywiro o dan adran 87.
275. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Adran 105 – Terfynau amser

276. Mae'r adran hon yn nodi terfynau amser ar gyfer cyhuddo person mewn perthynas â'r troseddau sydd wedi eu creu gan adrannau 103 a 104.

Adran 106 – Pwerau i fynd ar dir at ddibenion gorfodi

277. Mae'r adran hon yn caniatáu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru i fynd ar dir at ddibenion asesu a yw trosedd o dan adran 103 neu adran 104 yn cael ei chyflawni neu wedi ei chyflawni. Caniateir i'r pŵer hwn gael ei arfer ar unrhyw adeg resymol a dim ond os oes sail resymol dros fynd ar y tir at y diben o dan sylw.
278. Pan fo person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir, rhaid iddo ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad i wneud hynny a diben mynd ar y tir (os gofynnir iddo wneud hynny) a chaiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir. Rhaid iddo hefyd adael y tir wedi ei ddiogelu'n effeithiol rhag tresmaswyr os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol.
279. Mae'r adran hon hefyd yn pennu na chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir fynnu mynediad i adeilad a ddefnyddir fel annedd oni roddwyd 24 o oriau o rybudd o'r mynediad bwriadedig i holl feddianwyr yr adeilad.

Adran 107 – Gwarant i fynd ar dir

280. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd ar dir os yw'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod sail resymol dros fynd ar dir i asesu a yw trosedd o dan adran 103 neu 104 yn cael ei chyflawni, neu wedi ei chyflawni, ar y tir neu mewn cysylltiad â'r tir a bod mynediad i'r tir wedi ei wrthod neu fod gwrthodiad yn cael ei ddisgwyl yn rhesymol, neu fod yr achos yn un brys.
281. Mae mynediad i dir i'w drin fel pe bai wedi ei wrthod os na cheir ateb i gais am fynediad o fewn cyfnod rhesymol.
282. Pan ddyroddir gwarant o dan yr adran hon, nid yw'n rhoi pŵer i fynd ar dir ond ar un achlysur yn unig ac ar adeg resymol yn unig, oni fo'r cais yn achos brys. Bydd y warant yn peidio â chael effaith ar ddiwedd un mis o'r dyddiad y'i dyroddir.
283. Pan fo person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir, rhaid iddo ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad i wneud hynny a diben mynd ar y tir, os gofynnir iddo wneud hynny, a chaiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir. Rhaid iddo hefyd adael y tir wedi ei ddiogelu'n effeithiol rhag tresmaswyr os yw'n ymadael â'r tir pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol.

274. It is a defence for a person charged with an offence under this section to prove the breach or failure to comply only occurred because of an error in the infrastructure consent order and that the error has been corrected under section 87.
275. A person may be tried in the magistrates' court or the Crown Court and, where found guilty, will be liable to an unlimited fine.

Section 105 – Time limits

276. This section sets out time limits for bringing charges in relation to the offences created by sections 103 and 104.

Section 106 – Powers to enter land for enforcement purposes

277. This section allows a person authorised by a relevant planning authority or the Welsh Ministers to enter land for the purposes of assessing whether an offence under section 103 or section 104 is being or has been committed. This power may be exercised at any reasonable time and only if there are reasonable grounds for entering the land for the purpose in question.
278. Where a person is authorised to enter land, they must produce evidence of their authorisation to do so and the purpose of entry (if requested) and may take on to the land any other persons considered necessary. They must also leave the land effectively secured against trespassers if they leave when no owner or occupier is present.
279. This section also specifies a person authorised to enter land may not demand entry to a building which is used as a dwelling unless 24 hours' notice of the intended entry is given to every occupier of the building.

Section 107 – Warrant to enter land

280. This section provides that a justice of peace may issue a warrant conferring a power to enter land if the justice of the peace is satisfied that there are reasonable grounds for entering land to assess whether an offence under section 103 or 104 is being, or has been, committed on or in respect of the land and that admission to the land has been refused or is reasonably expected to be refused, or the case is one of urgency.
281. An admission to land is to be treated as a refusal if no reply is received to a request for admission within a reasonable period.
282. Where a warrant is issued under this section, it can only confer a power to enter land on one occasion and at a reasonable time, unless the case is one of urgency. The warrant will cease to have effect 1 month from the day it is issued.
283. Where a person is authorised to enter land, they must produce evidence of their authorisation to do so and the purpose of entry, if requested and may take on to the land any other persons considered necessary. They must also leave the land effectively secured against trespassers if they leave when no owner or occupier is present.

Adran 108 – Hawliau mynediad: darpariaethau atodol

284. Mae'r adran hon yn creu trosedd pan fo person yn rhwystrô'n fwriadol berson sy'n arfer pŵer mynediad o dan adran 106 neu 107. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.
285. Mae'r adran hon hefyd yn darparu, os difrodir tir neu eiddo arall wrth arfer y pŵer i fynd ar dir, y caiff y person sy'n dioddef y difrod adennill digollediad oddi wrth yr awdurdod cynllunio a awdurdododd y mynediad neu Weinidogion Cymru os mai hwythau a awdurdododd y mynediad.
286. Rhaid gwneud hawliad am ddigollediad o dan yr adran hon yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yr achoswyd y difrod neu'r diwrnod olaf yr achoswyd y difrod os y digwyddodd hynny dros gyfnod o fwy nag un diwrnod. Rhaid i unrhyw anghydfodau ynghylch digollediad gael eu hatgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'u penderfynu ganddo yn unol ag adran 4 o Ddeddf Digollediad Tir 1961.

Adran 109 – Hawliau mynediad: tir y Goron

287. Mae'r adran hon yn darparu nad yw'r pŵer i fynd ar dir gyda gwarant neu heb warant o dan adrannau 106 a 107 yn gymwys i dir y Goron.

Adran 110 – Pwerau gorfodi morol

288. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") drwy fewnosod adran newydd 243A yn y Ddeddf honno.
289. Mae adran newydd 243A yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i benodi personau at ddibenion gorfodi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yng Nghymru ac yn rhanbarth glannau Cymru (ac mewn perthynas ag unrhyw lestr, unrhyw awyren neu unrhyw strwythur morol yn y rhanbarth hwn, ac eithrio unrhyw long ryfel Brydeinig).
290. Mae'r pŵer yn rhoi disgrisiwn eang i Weinidogion Cymru o ran pwy a benodir ganddynt, ac mae'n rhoi i berson a benodir o dan yr adran hon y pŵer o dan adran 263 o Ddeddf 2009 (pŵer i wneud gwybodaeth yn ymwneud â sylweddau a gwrthrychau yn ofynnol) yn ogystal â'r pwerau gorfodi cyffredin a nodir ym Mhennod 2 o Ran 8 o Ddeddf 2009 (pwerau gorfodi cyffredin), sy'n cynnwys:
- pwerau mynediad, chwilio ac ymafael,
 - pwerau i gofnodi tystiolaeth o droseddau a'i gwneud yn ofynnol i bersonau rhoi eu henwau a'u cyfeiriadau,
 - pwerau i'w gwneud yn ofynnol i ddangos trwyddedau,
 - pwerau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol fod yn bresennol,
 - pwerau i gyfarwyddo llestrau neu osodiadau morol i borthladd,
 - pwerau sy'n ymwneud â chynorthwyo swyddogion gorfodi, a
 - pwerau i ddefnyddio grym rhesymol.

Section 108 – Rights of entry: supplementary provisions

284. This section creates an offence where a person intentionally obstructs a person exercising a power of entry under section 106 or 107. A person may be tried in the magistrates' court and, where found guilty, will be liable to an unlimited fine.
285. This section also provides that if damage is caused to land or other property in the exercise of the power to enter land, the person suffering the damage may recover compensation from the planning authority who authorised entry, or the Welsh Ministers if they authorised entry.
286. A claim for compensation under this section must be made in writing within 12 months beginning with the day the damage was caused or the last day damage was caused if it was over a period of more than 1 day. Any disputes about compensation must be referred to and determined by the Upper Tribunal in accordance with section 4 of the Land Compensation Act 1961.

Section 109 – Rights of entry: Crown land

287. This section provides that the power to enter land with or without a warrant under sections 106 and 107 does not apply to Crown land.

Section 110 – Marine enforcement powers

288. This section amends the Marine and Coastal Access Act 2009 ("the 2009 Act") by inserting new section 243A into that Act.
289. New section 243A provides the Welsh Ministers with a power to appoint persons for the purposes of enforcing the Infrastructure (Wales) Act 2024 in Wales and in the Welsh inshore region (and in relation to any vessel, aircraft or marine structure in this region, with the exception of any British warship).
290. The power gives the Welsh Ministers a wide discretion in who they appoint and gives a person appointed under this section the power under section 263 of the 2009 Act (power to require information relating to substances and objects) as well as the common enforcement powers set out in Chapter 2 of Part 8 of the 2009 Act (common enforcement powers) which include:
- powers of entry, search and seizure,
 - powers to record evidence of offences and to require names and addresses,
 - powers to require the production of licences,
 - powers to require attendance of certain persons,
 - powers to direct vessels or marine installations to port,
 - powers relating to assisting enforcement officers, and
 - powers to use reasonable force.

Hysbysiadau Gwybodaeth

Adran 111 – Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol

291. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio perthnasol gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i unrhyw berson sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo, neu sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, pan fo'n ystyried y gallai trosedd o dan adran 103 neu adran 104 fod wedi ei chyflawni ar y tir neu mewn cysylltiad â'r tir yn ei ardal.
292. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i unrhyw berson sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo, neu sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, pan fônt yn ystyried y gallai trosedd o dan adran 103 neu adran 104 fod wedi ei chyflawni ar dir yng Nghymru neu mewn cysylltiad â thir yng Nghymru.
293. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i berson sy'n cynnal gweithrediadau yn ardal forol Cymru pan fo Gweinidogion Cymru yn amau y gallai trosedd fod wedi ei chyflawni yn ardal forol Cymru neu mewn cysylltiad â hi.
294. Mae'r adran hon hefyd yn rhagnodi yr hyn yn mae rhaid ei phennu mewn hysbysiad gwybodaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r person y'i cyflwynir iddo roi'r wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad i'r graddau y gall wneud hynny. Rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi canlyniadau tebygol methu ag ymateb.

Adran 112 – Troseddau o fethu â chydymffurfio â hysbysiadau gwybodaeth

295. Mae adran 112(1) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd pan nad yw person y cyflwynwyd hysbysiad gwybodaeth iddo yn cydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad ar ôl diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad, ond mae'n amddiffyniad i'r person os yw'n gallu profi bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio. Mae person sy'n euog o'r drosedd hon ar euogfarn ddiannod yn agored i ddirwy.
296. Mae is-adran (5) yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n darparu gwybodaeth y mae'n yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n gwneud hynny'n ddi-hid. Mae person sy'n euog o'r naill drosedd neu'r llall yn agored i ddirwy.
297. O dan yr adran hon mae'n bosibl i berson gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad gwybodaeth drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

Information notices

Section 111 – Power to require information

291. This section allows the relevant planning authority to serve an information notice on any person who is the owner or occupier of land or has any other interest in it, or who is carrying out operations on the land or using it for any purpose, where they consider an offence under section 103 or section 104 may have been committed on or in respect of land in its area.
292. It also allows the Welsh Ministers to serve an information notice on any person who is the owner or occupier of land or has any other interest in it, or who is carrying out operations on the land or using it for any purpose, where they consider an offence under section 103 or section 104 may have been committed on or in respect of land in Wales.
293. The Welsh Ministers may also serve an information notice on a person carrying out operations in the Welsh marine area where they suspect an offence to have been committed in or in respect of the Welsh marine area.
294. This section also prescribes what an information notice must specify and what it may specify and requires the person on whom a notice is served to provide the information specified in the notice so far as they are able to do so. The notice must set out the likely consequences for failing to respond.

Section 112 – Offences of failing to comply with information notices

295. Section 112(1) provides that an offence is committed where a person on whom an information notice has been served does not comply with a requirement of the notice after a period of 21 days from the day on which the notice was served, but there is a defence if the person can prove a reasonable excuse for failing to comply. This is a summary offence punishable by a fine.
296. Subsection (5) provides that it is an offence to knowingly or recklessly provide information which is false or misleading. This is an either way offence punishable by a fine.
297. It is possible under this section for a person to be convicted of more than one offence in relation to the same information notice by reference to different periods.

Hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig

Adran 113 – Hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

298. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i'r awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad datblygiad anawdurdodedig pan ddyfernir person yn euog o drosedd o dan adrannau 103 a 104 mewn cysylltiad â thir.
299. Ar gyfer troseddau o dan adran 103, caiff hysbysiad bennu'r camau sydd i'w cymryd i ddileu'r datblygiad ac adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r datblygiad gael ei gynnal, a rhaid cymryd y camau hynny cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.
300. Ar gyfer troseddau o dan adran 104, caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynir hysbysiad iddo unioni'r toriad neu'r methiant i gydymffurfio cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.
301. Pan gyflwynir hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, mae'r adran hon yn pennu y caiff yr hysbysiad bennu cyfnodau gwahanol ar gyfer cymryd camau gwahanol.
302. Mae'r adran hon hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gaiff bennu materion ychwanegol y mae rhaid eu pennu mewn hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.

Cydymffurfio â hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig

Adran 114 – Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

303. Mae'r adran hon yn caniatáu i berchennog tir wneud cais i Lys Ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd y camau hynny sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig.
304. Pan fo'r llys wedi ei fodloni bod person a chanddo fuddiant yn y tir yn atal y perchennog rhag cymryd y camau hynny, caiff y llys wneud gorchymyn.

Adran 115 – Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

305. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo unrhyw gamau y mae'n ofynnol eu cymryd gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig heb eu cymryd cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, y caiff yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad datblygiad anawdurdodedig, neu Weinidogion Cymru, os mai hwythau a ddyroddodd yr hysbysiad, fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef ar unrhyw adeg resymol a chymryd y cam neu'r camau ei hun neu eu hunain.
306. Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer pŵer o dan yr adran hon yn cyflawni trosedd. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Notices of unauthorised development

Section 113 – Notice of unauthorised development

298. This section provides the relevant planning authority or the Welsh Ministers with the power to issue a notice of unauthorised development when a person is found guilty of an offence under sections 103 and 104 in respect of land.
299. For offences under section 103, a notice may specify the steps to be taken to remove the development and restore the land to its condition before the development was carried out, which must be undertaken within a period specified in the notice.
300. For offences under section 104, a notice may require the person on whom a notice is served to remedy the breach of failure to comply within a period specified in the notice.
301. Where a notice of unauthorised development is served, this section specifies the notice may specify different periods for taking different steps.
302. This section also provides the Welsh Ministers power to make regulations which may prescribe additional matters which must be specified in a notice of unauthorised development.

Compliance with notices of unauthorised development

Section 114 – Order to permit steps required by notice of unauthorised development

303. This section allows the owner of land to apply for an order to a magistrates' court to require another person with an interest in the land to permit the owner to take such steps as required by a notice of unauthorised development.
304. Where the court is satisfied that a person with an interest in the land is preventing the owner from taking such steps, the court may make an order.

Section 115 – Power to enter land and take steps required by notice of unauthorised development

305. This section provides that where any steps required to be taken by a notice of unauthorised development have not been taken within the period specified in the notice, the planning authority who issued the notice of unauthorised development, or the Welsh Ministers if they issued the notice, may enter the land to which the notice relates at any reasonable time and take the step(s) themselves.
306. A person who intentionally obstructs a person exercising their power under this section commits an offence. A person may be tried in the magistrates' court and, where found guilty, will be liable to an unlimited fine.

Adran 116 – Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad datblygiad anawdurdodedig

307. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru yn arfer y pŵer o dan adran 115, y caiff yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru adennill ei gostau neu eu costau oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir.
308. Mae unrhyw gostau y gellir eu hadennill, hyd nes iddynt gael eu hadennill, yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad datblygiad anawdurdodedig yn ymwneud ag ef ac yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru yn cwblhau'r cam neu'r camau a bennir yn yr hysbysiad datblygiad anawdurdodedig y mae'r costau'n ymwneud ag ef.
309. Mae'r adran hon hefyd yn pennu y caniateir symud ymaith ddeunyddiau o dir wrth gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad datblygiad anawdurdodedig a phan na fo perchennog y deunyddiau yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd o fewn 3 diwrnod gan ddechrau drannoeth y diwrnod y'i symudir ymaith, caniateir gwerthu'r deunyddiau.
310. Os caiff y deunyddiau eu gwerthu, rhaid talu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gellir eu hadennill.
311. Ni chaniateir adennill costau o dan yr adran hon oddi wrth y Goron.

Hysbysiadau stop dros dro

Adran 117 – Pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro

312. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i awdurdod cynllunio perthnasol ddyroddi hysbysiad stop dros dro mewn perthynas â thir yn ei ardal lle y mae'n ystyried bod gweithgarwch wedi cael ei gynnal neu yn cael ei gynnal sy'n drosedd o dan adran 103 neu adran 104 ac y dylai'r gweithgarwch gael ei stopio ar unwaith. Nid yw'r pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro yn rhychwantu Gweinidogion Cymru.
313. Mae'r adran hon hefyd yn rhagnodi'r hyn y mae rhaid ei bennu mewn hysbysiad stop dros dro, i bwy y caniateir rhoi hysbysiad stop dros dro a sut y mae rhaid arddangos yr hysbysiadau hynny.

Adran 118 – Cyfyngiadau ar bŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro

314. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff hysbysiad stop dros dro wahardd defnyddio adeilad fel annedd nac unrhyw weithgarwch neu amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.
315. Ni chaiff hysbysiadau stop dros dro ychwaith wahardd unrhyw weithgarwch sydd wedi ei gynnal, neu sy'n cael ei gynnal, am o leiaf 4 blynedd cyn y dyddiad yr arddangosir hysbysiad stop dros dro am y tro cyntaf, ac eithrio gweithgarwch sy'n weithrediadau adeiladu, peiriannu neu fwyngloddio neu'n weithrediadau eraill, neu sy'n ddeilliadol i hynny, neu waredu gwastraff.

Section 116 – Recovery of costs of compliance with notice of unauthorised development

307. This section provides that where a relevant planning authority or the Welsh Ministers exercise the power under section 115, they may recover their costs from a person who is then the owner of the land.
308. Any costs recoverable are, until recovered, to be a charge on the land to which the notice of unauthorised development relates and takes effect as a local land charge at the beginning of the day after the day the planning authority or the Welsh Ministers completes the step(s) specified in the notice of unauthorised development to which the costs relate.
309. This section also specifies materials may be removed from the land when taking steps required by a notice of unauthorised development and where the owner of the materials does not claim them and take them away within 3 days beginning the day after they are removed, the materials may be sold.
310. If materials are sold, the proceeds must be paid to the person who owned the materials, after deducting any recoverable costs.
311. Costs may not be recovered under this section from the Crown.

Temporary stop notices

Section 117 – Power to issue temporary stop notice

312. This section provides the power for a relevant planning authority to issue a temporary stop notice in relation to land in their area where they consider an activity has been, or is being carried out, which constitutes an offence under section 103 or section 104 and the activity ought to be stopped immediately. The power to issue a temporary stop notice does not extend to the Welsh Ministers.
313. This section also prescribes what must be specified in a temporary stop notice, who a temporary stop notice may be given to and how such notices must be displayed.

Section 118 – Restrictions on power to issue temporary stop notice

314. This section provides that a temporary stop may not prohibit the use of a building as a dwelling and any activity or circumstances which may be specified in regulations.
315. Temporary stop notices may also not prohibit any activity which has been carried out, or is being carried out, for at least 4 years before the date on which a temporary stop notice is first displayed, with the exception of an activity consisting of, or incidental to, building, engineering, mining or other operations, or the deposit of waste.

Adran 119 – Hyd etc. hysbysiad stop dros dro

316. Mae'r adran hon yn darparu bod hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith pan arddangosir copi ohono am y tro cyntaf ac yn peidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau, sy'n dechrau ar y dyddiad y'i arddangosir am y tro cyntaf, oni bai bod cyfnod byrrach wedi ei bennu yn yr hysbysiad neu fod y llys yn caniatáu gwaharddeb o dan adran 122.
317. Mae'r adran hon hefyd yn pennu, os yw'r awdurdod cynllunio perthnasol yn tynnu'r hysbysiad yn ôl cyn diwedd y cyfnod y byddai fel arall yn cael effaith ar ei gyfer, bod yr hysbysiad yn peidio â chael effaith pan gaiff ei dynnu'n ôl.
318. Pan ddyroddir hysbysiad stop dros dro, mae'r adran hon yn atal yr awdurdod cynllunio perthnasol rhag dyroddi ail hysbysiad stop na hysbysiad stop dilynol mewn cysylltiad â'r un gweithgarwch, oni fo'r awdurdod wedi dyroddiad hysbysiad datblygiad anawdurdodedig neu waharddeb.

Adran 120 – Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro

319. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd pan fo person yn cynnal gweithgarwch sydd wedi ei wahardd gan hysbysiad stop dros dro ar unrhyw adeg pan fydd hysbysiad o'r fath yn cael effaith.
320. Fodd bynnag, mae'n amddiffyniad i berson brofi na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddo ac nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad stop dros dro.
321. Gellir rhoi person ar brawf mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron, ac os dyfernir y person yn euog, bydd yn agored i ddirwy ddiderfyn. Mae hefyd yn bosibl o dan yr adran hon i berson gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad stop dros dro drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

Adran 121 – Digollediad am golled o ganlyniad i hysbysiad

322. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo gweithgarwch a bennir mewn hysbysiad stop dros dro wedi ei awdurdodi drwy orchymyn cydsyniad seilwaith a roddwyd cyn y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith, neu pan fo'r awdurdod cynllunio perthnasol yn tynnu'r hysbysiad yn ôl, y caiff unrhyw berson a chanddo fuddiant yn y tir y mae hysbysiad stop dros dro yn ymwneud ag ef wneud hawliad i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod cynllunio perthnasol o fewn 12 mis am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith yr hysbysiad.
323. Nid yw'r adran hon yn gymwys i unrhyw weithgarwch a bennir yn yr hysbysiad sydd wedi ei awdurdodi drwy orchymyn cydsyniad seilwaith a roddir ar y diwrnod y mae'r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith neu ar ôl hynny, nac os yw'r awdurdod cynllunio perthnasol yn tynnu hysbysiad yn ôl ar ôl i gydsyniad gael ei roi. Mae'r adran hon hefyd yn pennu'r amgylchiadau lle nad yw digollediad yn daladwy.

Section 119 – Duration etc. of temporary stop notice

316. This section provides that a temporary stop notice takes effect when a copy of the notice is first displayed and ceases to have effect at the end of a period of 28 days, beginning on the date it is first displayed, unless a shorter period is specified in the notice or the court grants an injunction under section 122.
317. This section also specifies that if the relevant planning authority withdraws the notice before the end of the period for which it would otherwise have effect, the notice ceases to have effect when it is withdrawn.
318. Where a temporary stop notice is issued, this section prevents the relevant planning authority from issuing a second or subsequent notice in respect of the same activity, unless the authority has issued a notice of unauthorised development or issued an injunction.

Section 120 – Offence of breaching temporary stop notice

319. This section provides that an offence is committed where a person carries out an activity prohibited by a temporary stop notice at any time when such a notice has effect.
320. However, it is a defence for a person to prove that a copy of the notice was not served on them and that they did not know, and could not reasonably have been expected to know, of the existence of the temporary stop notice.
321. A person may be tried in the magistrates' court or the Crown Court and where found guilty, will be liable to an unlimited fine. It is also possible under this section for a person to be convicted of more than one offence in relation to the same temporary stop notice by reference to different periods.

Section 121 – Compensation for loss due to notice

322. This section provides that where an activity specified in a temporary stop notice is authorised by an infrastructure consent order granted before the day the notice takes effect, or the relevant planning authority withdraws the notice, any person with an interest in land to which a temporary stop notice relates may make a claim for compensation to the relevant planning authority within 12 months for any loss or damage suffered by the person that is directly attributable to the notice.
323. This section does not apply to any activity specified in the notice which is authorised by an infrastructure consent order granted on or after the day a temporary stop notice takes effect, or if the relevant planning authority withdraws a notice after the grant of a consent. This section also specifies the circumstances in which compensation is not payable.

Adran 122 – Gwaharddeb i atal gweithgarwch gwaharddedig

324. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod cynllunio perthnasol neu Weinidogion Cymru wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb sy'n atal gweithgarwch gwirioneddol neu ddisgwyliedig sy'n drosedd o dan naill ai adran 103 neu adran 104. Caiff yr awdurdod cynllunio perthnasol wneud cais am waharddeb mewn perthynas â thir yn ei ardal, a chaiff Gweinidogion Cymru wneud cais am waharddeb mewn perthynas â thir yng Nghymru.
325. Caiff y llys roi gwaharddeb ar unrhyw delerau y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben atal y gweithgarwch hwnnw. Ni chaniateir dyroddi gwaharddeb o dan yr adran hon yn erbyn y Goron.

Cyffredinol

Adran 123 – Ystyr "awdurdod cynllunio perthnasol"

326. Mae'r adran hon yn pennu pwy sy'n awdurdod cynllunio perthnasol at ddibenion Rhan 7 o'r Ddeddf.

Rhan 8 – Swyddogaethau atodol

327. Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn darparu nifer o swyddogaethau atodol, ar gyfer Gweinidogion Cymru yn bennaf, i hwyluso gweithrediad y system a sefydlir gan y Ddeddf ac i roi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer codi ffioedd, addasu'r system drwy ddatgymhwyso ei gofynion neu wneud darpariaeth arbennig ar gyfer ceisiadau gan y Goron (gan gynnwys swyddfeydd y Goron a chyrff y Goron).

Ffioedd

Adran 124 – Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith

328. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chodi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac am ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith. Caiff y rheoliadau roi swyddogaeth i unrhyw berson a darparu bod symiau ffioedd i'w cyfrifo drwy gyfeirio at y costau yr eir iddynt wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth cydsyniad seilwaith.
329. Caiff y rheoliadau wneud darpariaethau ynghylch y canlynol (ymhlith pethau eraill):
- pryd y caniateir, a phryd na chaniateir, codi ffi;
 - y swm y caniateir ei godi;
 - yr hyn y caniateir, a'r hyn na chaniateir, ei ystyried wrth gyfrifo'r swm a godir;
 - pwy sy'n agored i dalu ffi a godir;
 - i bwy y telir ffioedd;
 - pryd y mae ffi a godir yn daladwy;
 - adennill ffioedd a godir;
 - ildio, lleihau neu ad-dalu ffioedd;
 - effaith talu neu fethu â thalu ffioedd a godir;

Section 122 – Injunction to restrain prohibited activity

324. This section provides that a relevant planning authority or the Welsh Ministers may apply to the High Court or county court for an injunction to restrain an actual or expected activity which constitutes an offence under either section 103 or section 104. The relevant planning authority may apply for an injunction in relation to land in its area, and the Welsh Ministers may apply for an injunction in relation to land in Wales.
325. The court may grant an injunction on any terms it considers appropriate for the purpose of restraining such activity. An injunction may not be issued under this section against the Crown.

General

Section 123 – Meaning of “relevant planning authority”

326. This section specifies who a relevant planning authority is for the purposes of Part 7 of the Act.

Part 8 – Supplementary functions

327. Part 8 of the Act provides a number of supplementary functions, mainly for the Welsh Ministers, to facilitate the operation of the system established by the Act and to give the Welsh Ministers powers to make regulations to apply fees, adjust the system by disapplying its requirements or making special provision for applications by the Crown (which includes Crown offices and bodies).

Fees

Section 124 – Fees for performance of infrastructure consent functions and services

328. This section provides the Welsh Ministers power to make regulations in relation to the charging of fees by a specified public authority for performing an infrastructure consent function and for the provision of an infrastructure consent service. The regulations may confer a function on any person and may provide for the amounts of fees to be calculated by reference to costs incurred in the performance of any infrastructure consent function.
329. The regulations may make provisions about (among other things):
- when a fee may, and may not, be charged;
 - the amount that may be charged;
 - what may, and may not, be taken into account in calculating the amount charged;
 - who is liable to pay a fee charged;
 - to whom fees are to be paid;
 - when a fee charged is payable;
 - the recovery of fees charged;
 - waiver, reduction or repayment of fees;
 - the effect of paying or failing to pay fees charged;

- trosglwyddo ffioedd sy'n daladwy i un person i berson arall;
- cyflenwi neu gyhoeddi gwybodaeth at unrhyw un neu ragor o ddibenion y rheoliadau.

Hawl mynediad

Adran 125 – Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir

330. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i berson sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru i fynd ar dir at ddibenion cynnal arolwg o dir neu gymryd lefelau ohono, mewn cysylltiad â:
- cais am gydsyniad seilwaith (neu gais arfaethedig);
 - gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n awdurdodi caffael yn orfodol y tir hwnnw neu fuddiant ynddo neu hawl drosto.
331. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson a awdurdodir sy'n mynd ar dir i ddangos tystiolaeth o'r awdurdodiad hwnnw, os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi hysbysiad o'r bwriad i fynd ar dir os yw'r tir wedi ei feddiannu a chydymffurfio ag unrhyw amodau a nodir yn yr awdurdodiad. Caiff person sydd wedi ei awdurdodi hefyd fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir a rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth arno.
332. Mae awdurdodiad i gynnal arolwg o dir hefyd yn cynnwys yr hawl i chwilio a thurio i ganfod natur y pridd neu i ganfod a oes mwynau yn bresennol os rhoddwyd hysbysiad ymlaen llaw o'r bwriad hwn.
333. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn rhwystro'n fwriadol berson a awdurdodir i fynd ar dir rhag gwneud hynny.
334. Caniateir adennill digollediad am unrhyw ddifrod a achosir i dir neu eiddo oddi wrth y person a awdurdodir i fynd ar y tir.

Adran 126 – Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir: tir y Goron

335. Mae'r adran hon yn darparu bod y pwerau a nodir yn adran 125 hefyd yn gymwys i dir y Goron, yn ddarostyngedig i'r person sy'n arfer y pŵer yn cael caniatâd i fynd ar y tir oddi wrth y person yr ymddengys fod ganddo'r hawl i'w roi neu awdurdod priodol y Goron (a ddiffinnir yn adran 134).
336. Mae'r adran hon hefyd yn darparu nad yw is-adrannau penodedig o adran 125 yn gymwys mewn perthynas â Thir y Goron.

- the transfer of fees payable to one person to another person;
- the supply or publication of information for any purpose of the regulations.

Right of entry

Section 125 – Powers of entry to survey land

330. This section provides a power for a person with authorisation from Welsh Ministers to enter land for the purposes of surveying or taking levels of that land in connection with:

- an application for infrastructure consent (or a proposed application);
- an infrastructure consent order that authorised the compulsory acquisition of that land or an interest in it or a right over it.

331. This section requires an authorised person entering land to produce evidence of that authorisation, if requested, provide notice of intended entry if the land is occupied and comply with any conditions set out in the authorisation. An authorised person may also take any other persons that are necessary on to the land and must, if leaving the land when no owner or occupier is present, leave it as effectively secured against trespassers as they found it.

332. Authorisation to survey land also includes the right to search and bore to determine the nature of soil or presence of minerals if prior notice of this intention has been provided.

333. This section provides that an offence is committed if a person authorised to enter land is intentionally obstructed from doing so.

334. Compensation for any damage caused to the land or property may be recovered from the person authorised to enter the land.

Section 126 – Powers of entry to survey land: Crown Land

335. This section provides that the powers set out in section 125 also apply to Crown land, subject to the person exercising the power gaining permission to enter the land from the person who appears to have the authority to give it or the appropriate Crown authority (which is defined in section 134).

336. This section also provides that specified subsections of section 125 do not apply in relation to Crown Land.

Datganiadau polisi Seilwaith

Adran 127 – Datganiadau polisi seilwaith

337. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy hysbysiad, i ddynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith, os yw'n ddogfen a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ac yn nodi polisi i lywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau seilwaith arwyddocaol. Caiff Gweinidogion Cymru dynnu yn ôl ddynodiad dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith drwy hysbysiad ysgrifenedig. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru bob hysbysiad sy'n dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith a phob hysbysiad am dynnu yn ôl ddynodiad dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith. Mae is-adrannau (5) a (6) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod unrhyw ddogfen a ddynodir yn ddatganiad polisi seilwaith gerbron y Senedd a'i chyhoeddi, os nad ydynt wedi gwneud hynny yn flaenorol.
338. Arwyddocâd dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith o dan yr adran hon yw bod rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith drwy roi sylw i unrhyw ddatganiad polisi seilwaith perthnasol (gweler adran 56(1)).

Cofrestr o geisiadau a gwasanaethau cyn gwneud cais

Adran 128 – Cofrestr o geisiadau a gwasanaethau cyn gwneud cais

339. Mae adran 128 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr o:
- ceisiadau am gydsyniad seilwaith;
 - ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cael;
 - gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru.
340. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys manylion yn y gofrestr o geisiadau dilys, ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais a'r gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir.
341. Rhaid cyhoeddi'r gofrestr (is-adran (5)).
342. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio gynnal cofrestr o geisiadau am gydsyniad seilwaith yn ei ardal, ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais y mae'r awdurdod cynllunio wedi eu cael ac unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd gan yr awdurdod (is-adran (6)).
343. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol hefyd i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal cofrestr o geisiadau y mae'n eu cael am wasanaethau cyn gwneud cais, yn ogystal ag unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd ganddo mewn cysylltiad â chais.

Infrastructure policy statements

Section 127 – Infrastructure policy statements

337. This section gives Welsh Ministers the power, by notice, to designate a document as an infrastructure policy statement, if it is a document issued by the Welsh Ministers and sets out a policy to guide decision making in relation to significant infrastructure projects. The Welsh Ministers may withdraw the designation of a document as an infrastructure policy statement by notice in writing. Subsection (4) requires the Welsh Ministers to publish and lay before Senedd Cymru each notice designating a document as an infrastructure policy statement and each notice of withdrawal of the designation of a document as an infrastructure policy statement. Subsections (5) and (6) further require the Welsh Ministers to lay any document designated as an infrastructure policy statement before the Senedd and to publish it, if they have not done so previously.
338. The significance of a document being designated under this section is that an examining authority or the Welsh Ministers (as the case may be) must decide an application for infrastructure consent by having regard to any relevant infrastructure policy statement (see section 56(1)).

Register of applications and pre-application services

Section 128 – Register of applications and pre-application services

339. Section 128 requires the Welsh Ministers to maintain a register of:
- applications for infrastructure consent;
 - applications received by the Welsh Ministers for pre-application services;
 - pre-application services provided by the Welsh Ministers.
340. The Welsh Ministers must include details in the register of valid applications, requests for pre-application services and pre-application services provided.
341. The register must be published (subsection (5)).
342. The Welsh Ministers may, by regulations, require a planning authority to maintain a register of the applications for infrastructure consent in its area, of applications for pre-application services received by the planning authority and of any pre-application services provided by the authority (subsection (6)).
343. The Welsh Ministers may, by regulations, also require Natural Resources Wales to maintain a register of applications that they receive for pre-application services, as well as any pre-application services provided by them in respect of an application.

344. Mae is-adran (8) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ffurf a cynnwys unrhyw gofrestr sy'n ofynnol ei chynnal gan yr adran neu odani a chaiff wneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â mynediad gan y cyhoedd i ddogfennau sy'n ymwneud â chofnodion yn y gofrestr neu amseriad cofnodion.

Ymgynghoreion statudol

Adran 129 – Pŵer i ymgynghori a dyletswydd i ymateb i ymgynghoriad

345. Mae adran 129 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio i ymgynghori ag awdurdod cyhoeddus a bennir mewn rheoliadau fel rhan o'r broses archwilio, ac o ganlyniad mae dyletswydd ar yr awdurdod i roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad hwnnw o fewn cyfnod penodedig.

346. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ymgynghoriadau o'r fath.

Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru

Adran 130 – Cyfarwyddydau i awdurdodau cyhoeddus

347. Mae adran 130 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig a bennir mewn rheoliadau, i wneud pethau mewn perthynas â chais.

348. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff cyfarwyddydau ymwneud â cheisiadau penodol neu awdurdodau penodol neu i geisiadau neu awdurdodau yn gyffredinol.

349. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer adennill costau, neu mewn cysylltiad ag adennill costau, y mae awdurdodau cyhoeddus wedi mynd iddynt am bethau a wneir yn unol â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru (is-adran (4)).

Adran 131 – Pŵer i ddatgymhwyso gofynion

350. O dan adran 131 caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo y caniateir datgymhwyso gofynion a osodir gan y Ddeddf hon, odani neu yn ei rhinwedd mewn achos a bennir yn y cyfarwyddyd.

351. Rhaid i'r rheoliadau bennu'r gofynion y caniateir eu datgymhwyso gan gyfarwyddyd a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd a gosod datganiad ynghylch y cyfarwyddyd gerbron Senedd Cymru yn egluro ei effaith a pham y'i gwnaed.

Rheoliadau ar geisiadau'r Goron

Adran 132 – Ceisiadau gan y Goron

352. Mae adran 132 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gaiff addasu neu eithrio unrhyw ddeddfiadau mewn perthynas â cheisiadau a wneir gan y Goron am gydsyniad seilwaith neu i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

344. Subsection (8) enables the Welsh Ministers to make regulations in relation to the form, content of any register required by or under the section and may make other provision in respect of public access to documents relating to entries in the register or the timing of entries.

Statutory consultees

Section 129 – Power to consult and duty to respond to consultation

345. Section 129 gives a power to the Welsh Ministers or an examining authority to consult a public authority specified in regulations as part of the examination process with the result that the authority has a duty to give a substantive response to that consultation within a specified timeframe.
346. Regulations may make provision about such consultations.

Welsh Ministers' directions

Section 130 – Directions to public authorities

347. Section 130 allows the Welsh Ministers to give a direction to a planning authority, Natural Resources Wales or a devolved Welsh authority specified in regulations, to do things in respect of an application.
348. Subsection (3) provides that directions may relate to specific applications or authorities or to applications or authorities generally.
349. Regulations may make provision for or in connection with the recovery of costs incurred by public authorities for things done pursuant to a direction of the Welsh Ministers (subsection (4)).

Section 131 – Power to disapply requirements

350. Under section 131 the Welsh Ministers may make regulations giving the Welsh Ministers power to direct that requirements imposed by, under or by virtue of this Act may be disapplied in a case specified in the direction.
351. The regulations must specify the requirements that may be disapplied by direction and impose a duty on the Welsh Ministers to publish any direction and to lay a statement about the direction before Senedd Cymru explaining its effect and why it was made.

Regulations about Crown applications

Section 132 – Applications by the Crown

352. Section 132 provides the Welsh Ministers with the power to make regulations which may modify or exclude any enactments in relation to applications made by the Crown for infrastructure consent or to change or revoke an infrastructure consent order.

353. Caiff y rheoliadau addasu neu eithrio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud ag—
- y weithdrefn sydd i'w dilyn cyn i gais gan y Goron gael ei wneud,
 - gwneud cais gan y Goron, ac
 - y broses o wneud penderfyniad ar gyfer cais o'r fath.

Rhan 9 – Darpariaethau cyffredinol

354. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â mwy nag un rhan o'r Ddeddf neu'r Ddeddf gyfan. Mae adrannau 136, 137, 138 a 139 yn gwneud darpariaethau ynghylch rhoi hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill ac yn gwneud darpariaeth ynghylch y dyletswyddau sy'n gymwys wrth gyhoeddi rhywbeth o dan y Ddeddf. Mae adran 140 yn gwneud darpariaethau ynghylch y cyfyngiadau sy'n gymwys i unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf neu orchymyn cydsyniad seilwaith a wneir o dan y Ddeddf ac mae adran 141 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau. (Mae adran 85 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gorchymynion cydsyniad seilwaith). Mae adrannau 144 a 145 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol neu ddarpariaethau arbed pellach drwy reoliadau. Mae adran 146 yn nodi darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed.

Datblygiad

Adran 133 – Ystyr “datblygiad”

355. Mae adran 133 yn nodi ystyr “datblygiad” at ddibenion y Ddeddf. Mae popeth sy'n “development” at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“DCGTh”) yn ddatblygiad at ddibenion y Ddeddf, yn ddarostyngedig i is-adrannau (2) i (4).
356. Mae adran 55(1) o DCGTh yn diffinio “development” fel “the carrying out of building, engineering, mining or other operations in, on, over or under land, or the making of any material change in the use of any buildings or other land”, yn ddarostyngedig i eglurhadau pellach yn yr adran honno.
357. Mae is-adran (2) o adran 133 yn darparu bod “newid sylweddol yn y defnydd” (defnyddir y term “material change in the use” yn y diffiniad o “development” yn adran 55(1) o DCGTh) yn cynnwys:
- trosi tanwydd gorsaf gynhyrchu fel y bydd petroliwm hylifol crai, cynnyrch petroliwm neu nwy naturiol yn dod yn danwydd ar ei chyfer;
 - cynyddu'r defnydd a ganiateir o faes awyr (pa un a ganiateir hynny drwy ganiatâd cynllunio o dan DCGTh neu orchymyn cydsyniad seilwaith a wneir o dan y Ddeddf).
358. Mae is-adran (3) yn darparu bod gwaith penodol i'w drin fel datblygiad i'r graddau na fyddai fel arall yn ddatblygiad o dan DCGTh.

353. The regulations may modify or exclude any enactment relating to–
- a. the procedure to be followed before a Crown application is made,
 - b. the making of a Crown application, and
 - c. the decision-making process for such an application.

Part 9 – General provisions

354. Part 9 of the Act contains general provisions which relate to multiple parts or all of the Act. Sections 136, 137, 138 and 139 make provisions about giving notices, directions and other documents and make provision about the duties that apply when publishing something under the Act. Section 140 makes provisions about the restrictions that apply to any regulations made under the Act or an infrastructure consent order made under the Act and section 141 sets out the procedures for making regulations (Section 85 sets out the procedure for infrastructure consent orders). Sections 144 and 145 provide the Welsh Ministers with powers to make further incidental, consequential, transitional, transitory or saving provisions by regulations. Section 146 sets out transitional and saving provisions.

Development

Section 133 – Meaning of “development”

355. Section 133 sets out the meaning of “development” for the purposes of the Act. Everything that is “development” for the purposes of the Town and Country Planning Act 1990 (“the TCPA”) is development for the purposes of the Act, subject to subsections (2) to (4).
356. Section 55(1) of the TCPA defines “development” as “the carrying out of building, engineering, mining or other operations in, on, over or under land, or the making of any material change in the use of any buildings or other land”, subject to further clarifications in that section.
357. Subsection (2) of section 133 provides that “material change in the use” (which is a term used in the definition of “development” in section 55(1) of the TCPA) includes:
- the conversion in fuel of a generating station to it being fuelled by crude liquid petroleum, a petroleum product or natural gas;
 - an increase in the permitted use of an airport (whether permitted by planning permission under the TCPA or an infrastructure consent order made under the Act).
358. Subsection (3) provides that specific works are to be treated as development to the extent that they would not otherwise be development under the TCPA.

359. Mae datblygiad o dan DCGTh yn ymwneud â datblygiad ar dir yn ardaloedd awdurdodau cynllunio ac nid datblygiad yn y môr y tu allan i ffiniau eu hardaloedd. Mae is-adran (4) yn darparu bod datblygiad o dan y Ddeddf yn cynnwys gweithrediadau a newidiadau defnydd yn y môr ac mewn ardaloedd eraill sydd wedi eu gorchuddio â dyfroedd. Mae'r graddau y mae datblygiad yn y môr wedi ei gwmpasu mewn perthynas â Phrosiect Seilwaith Arwyddocaol yn dibynnu ar ba un a yw'r diffiniad o Brosiect Seilwaith Arwyddocaol yn cwmpasu datblygiad yn "ardal forol Cymru". Mae "ardal forol Cymru" wedi ei ddiffinio yn adran 143.

Tir y Goron

Adran 134 – Tir y Goron ac "awdurdod priodol y Goron"

360. Mae'r adran hon yn diffinio "Tir y Goron", "buddiant y Goron", "buddiant y Ddugiaeth" ac "awdurdod priodol y Goron" at ddibenion y Ddeddf.

Troseddau

Adran 135 – Troseddau gan gyrrff corfforedig

361. Mae'r adran hon yn darparu, pan gyflawnir trosedd o dan adran 28, 103, 104, 112 neu 120 gan gorff corfforedig ac y profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad uwch-swyddog i'r corff neu berson a oedd yn honni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ei ran, y bydd y person hwnnw yn euog o drosedd (yn ogystal â'r corff corfforedig) ac y bydd yn agored i gael ei erlyn. Yn yr adran hon, ystyr "uwch-swyddog" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill

Adran 136 – Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill

362. Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill i'w cyflwyno.

Adran 137 – Rhoi hysbysiad etc. i bersonau sy'n meddiannu tir neu sydd â buddiant mewn tir

363. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cyflwyno hysbysiad neu ddogfen i berson a chanddo fuddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir.

Adran 138 – Cyflwyno dogfennau i'r Goron

364. Mae'r adran hon yn pennu bod rhaid i unrhyw hysbysiad neu ddogfen y mae'n ofynnol gan y Ddeddf hon neu odani iddo gael ei gyflwyno neu iddi gael ei chyflwyno i'r Goron gael ei gyflwyno neu ei chyflwyno i awdurdod priodol y Goron, ac nid yw'r rheolau ynghylch rhoi hysbysiadau a nodir yn adrannau 136 a 137 yn gymwys. At ddibenion yr adran hon, mae "y Goron" yn cynnwys Dugiaeth Caerhirfryn a Dugiaeth Cernyw.

359. Development under the TCPA relates to development of land within the areas of planning authorities and not development in the sea outside the boundaries of their areas. Subsection (4) provides that development under the Act includes operations and changes of use in the sea and other areas covered with waters. The extent to which development in the sea is covered in relation to a Significant Infrastructure Project depends on whether the definition of the Significant Infrastructure Project covers development in the “Welsh marine area”. The “Welsh marine area” is defined in section 143.

Crown land

Section 134 – Crown land and “the appropriate Crown authority”

360. This section defines “Crown land”, “Crown interest”, “Duchy interest” and “the appropriate Crown authority” for the purposes of the Act.

Offences

Section 135 – Offences by bodies corporate

361. This section provides that where an offence is committed under section 28, 103, 104, 112 or 120 by a body corporate and it is proved to have been committed with the consent or connivance of a senior officer of the body or a person purporting to be senior officer of the body, or attributed to their neglect, that person will be guilty of an offence (as well as the body corporate) and is liable to be prosecuted. In this section “senior officer” means a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate.

Giving notices and other documents

Section 136 – Giving notices and other documents

362. This section contains provision about how notices, directions and other documents are to be served.

Section 137 – Giving notices etc. to persons occupying or with an interest in land

363. This section makes further provision about serving a notice or a document on a person interested in land or occupying land.

Section 138 – Giving documents on the Crown

364. This section specifies that any notice or document required by or under the Act to be served on the Crown must be served on the appropriate Crown authority, and the rules about giving notices set out in sections 136 and 137 do not apply. For the purpose of this section, “the Crown” includes the Duchy of Lancaster and the Duchy of Cornwall.

Cyffredinol

Adran 139 – Dyletswyddau i gyhoeddi

365. Pan fo'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i gyhoeddi rhywbeth, rhaid iddo gael ei gyhoeddi ar ffurf electronig. Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn rhwystru'r person sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd rhag cyhoeddi mewn modd arall yn ogystal â chyhoeddi ar ffurf electronig.

Adran 140 – Rheoliadau a gorchmynion: cyfyngiadau

366. Mae'r adran hon yn nodi y caiff rheoliadau o dan adrannau 30, 34, 35, 48(6), 63(5), 91(3), 124 a 129 o'r Ddeddf neu orchymyn cydsyniad seilwaith neu orchymyn o dan adran 90 gynnwys darpariaeth y byddai cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol (h.y. "the appropriate Minister") yn ofynnol ar ei chyfer o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

367. Mae'r adran hon hefyd yn darparu y caiff rheoliadau o dan adrannau 30, 34, 35, 48(6), 63(5), 91(3), 124 a 129 o'r Ddeddf neu orchymyn cydsyniad seilwaith neu orchymyn o dan adran 90 gynnwys darpariaeth y byddai'n ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol yn ei chylch o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Gweler yr ohebiaeth rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru dros gyfnod 2023 i 2024³ sy'n cadarnhau cydsyniad o dan Atodlen 7B i'r darpariaethau, gan gynnwys ymrwymiad i ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau sy'n effeithio ar gyrff a gadwyd yn ôl.

368. Ni chaiff rheoliadau a gorchmynion o dan unrhyw adran arall o'r Ddeddf hon gynnwys darpariaeth y byddai cydsyniad y Gweinidog priodol yn ofynnol ar ei chyfer o dan baragraff 8, 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru; ac ni chânt gynnwys darpariaeth y byddai'n ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol yn ei chylch o dan baragraff 11(2) neu (2A) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

Adran 141 – Rheoliadau: y weithdrefn

369. Mae'r adran hon yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf i'w arfer drwy offeryn statudol.

³<https://busnes.senedd.cymru/documents/s144189/LJC6-04-24%20Papur%2016%20Llythyr%20gan%20y%20Gweinidog%20Newid%20Hinsawdd%2022%20lonawr%202024.pdf>.

General

Section 139 – Duties to publish

365. Where the Act imposes a duty to publish something, it must be published electronically. Nothing in this section prevents the person subject to the duty from publishing in another way as well as publishing electronically.

Section 140 – Regulations and orders: restrictions

366. This section sets out that regulations under sections 30, 34, 35, 48(6), 63(5), 91(3) 124 and 129 of the Act or an infrastructure consent order or an order under section 90 may include provision that would require the consent of the Secretary of State (i.e. “the appropriate Minister”) under any of paragraphs 8(1)(a) or (c), 10 or 11 of Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 if the provision were included in an Act of Senedd Cymru.

367. This section also provides that regulations under sections 30, 34, 35, 48(6), 63(5), 91(3), 124 and 129 of the Act or an infrastructure consent order or an order under section 90 may include provision that would require consultation of the appropriate Minister under paragraph 11(2) of Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 if the provision were included in an Act of Senedd Cymru. See correspondence between the Secretary of State and the Welsh Ministers over the period 2023 to 2024³ confirming consent under Schedule 7B for the provisions, including a commitment to consult the UK Government prior to making regulations which affect reserved bodies.

368. Regulations and orders under any other section of this Act may not include provision that would require the consent of the appropriate Minister under paragraph 8, 10 or 11 of Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 if the provision were included in an Act of Senedd Cymru; and may not include provision that would require consultation of the appropriate Minister under paragraph 11(2) or (2A) of Schedule 7B to that Act if the provision were included in an Act of Senedd Cymru.

Section 141 – Regulations: procedure

369. This section provides that a power to make regulations under the Act is exercisable by statutory instrument.

³ <https://business.senedd.wales/documents/s144189/LJC6-04-24%20-%20Paper%2016%20-%20Letter%20from%20the%20Minister%20for%20Climate%20Change%2022%20January%202024.pdf>.

370. Mae is-adran (3) yn darparu bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan yr adrannau canlynol o'r Ddeddf i'w wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol (h.y. dylai drafft o'r offeryn gael ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad):
- adran 17 - pŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu prosiectau;
 - adran 21 - pŵer i ychwanegu neu ddileu mathau o gydsyniad;
 - adran 22(2)(c) - cyfarwyddydau sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol;
 - adran 55(1) - pŵer i'r awdurdod archwilio i benderfynu ar fathau penodol o geisiadau am gydsyniad seilwaith;
 - adran 58(3) - diweddarau materion y caniateir eu diystyru wrth benderfynu ar geisiadau;
 - adran 59(6) - pŵer i ddiwygio'r amserlen ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith;
 - adran 63(5) - yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith;
 - adran 124 - ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith;
 - adran 130 - cyfarwyddydau i awdurdodau cyhoeddus;
 - adran 131 - pŵer i ddatgymhwyso gofynion;
 - adran 132 - ceisiadau gan y Goron;
 - adran 144 - pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc., ond dim ond pan fo'r rheoliadau yn diwygio, yn diddymu neu'n addasu fel arall ddarpariaeth mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf gan Senedd Cymru;
 - paragraff 2(1) o Atodlen 2.
371. Mae offerynnau statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan unrhyw bŵer arall yn y Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (h.y. caniateir eu diddymu yn dilyn penderfyniad gan Senedd Cymru).

Adran 142 - Cyfarwyddydau: cyffredinol

372. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddyd a roddir o dan y Ddeddf hon neu yn ei rhinwedd fod yn ysgrifenedig.

Adran 143 - Dehongli cyffredinol

373. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Ddeddf.

Adran 144 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

374. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru y caniateir ei ddefnyddio i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys deddfiad a geir yn y Ddeddf hon).

Adran 145 - Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

375. Mae'r adran hon yn cyfeirio at Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaeth o ganlyniad i'r Ddeddf hon.

370. Subsection (3) provides that a statutory instrument containing regulations made under the following sections of the Act are to be made under the affirmative procedure (i.e. a draft of the instrument should be laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru):
- section 17 - power to add, vary or remove projects;
 - section 21 - power to add or remove types of consent;
 - section 22(2)(c) - directions specifying development as a significant infrastructure project;
 - section 55(1) - power for the examining authority to decide certain kinds of applications for infrastructure consent;
 - section 58(3) - updating of matters that may be disregarded when making decisions on applications;
 - section 59(6) - power to amend the timetable for deciding an application for infrastructure consent;
 - section 63(5) - what may be included in an infrastructure consent order;
 - section 124 - fees for performance of infrastructure consent functions and services;
 - section 130 - directions to public authorities;
 - section 131 - power to disapply requirements;
 - section 132 - applications by the Crown;
 - section 144 - power to make consequential and transitional provision etc., but only where the regulations amend, repeal or otherwise modify a provision of an Act of Parliament, a Measure of the National Assembly for Wales or an Act of Senedd Cymru;
 - paragraph 2(1) of Schedule 2.
371. Statutory instruments containing regulations made under any other power in the Act are subject to the negative procedure (i.e. annulment following a resolution of Senedd Cymru).

Section 142 – Directions: general

372. This section requires a direction given under or by virtue of this Act to be in writing.

Section 143 – General interpretation

373. This section defines certain terms used in the Act.

Section 144 – Power to make consequential and transitional provision etc.

374. This section confers upon the Welsh Ministers a regulation-making power which may be used to make supplementary, incidental, or consequential provision and transitional or saving provision. Regulations under this section may amend, modify, repeal or revoke any enactment (including an enactment contained in this Act).

Section 145 – Consequential amendments and repeals

375. This section refers to Schedule 3 which makes provision in consequence of this Act.

Adran 146 – Darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

376. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed.

Adran 147 – Dod i rym

377. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pa bryd y mae darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym.

Adran 148 – Enw byr

378. Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

Atodlen 1 – Darpariaeth sy'n ymwneud â datblygiad neu faterion sy'n atodol iddo

379. Mae Atodlen 1 wedi ei chyflwyno gan adran 63. Caiff gorchymyn cydsyniad seilwaith wneud darpariaeth atodol (gweler adran 63(3)) ac mae'r ddarpariaeth atodol y caniateir ei gwneud yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r rhestr o faterion yn Atodlen 1.

Atodlen 2 – Digolledu am newid neu ddirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith

380. Mae Atodlen 2 wedi ei chyflwyno gan adran 93 ac mae'n gwneud darpariaeth ynghylch digolledu am newid neu ddirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith.

Paragraff 1 – Newid neu ddirymu gorchymynion cydsyniad seilwaith: digolledu

381. Pan fo gorchymynion cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu ei ddirymu gan Weinidogion Cymru heb fod cais yn cael ei wneud, mae'r paragraff hwn yn rhoi hawlogaeth i gael eu digolledu am golledion penodol i bersonau a chanddynt fuddiant yn y tir y mae'r gorchymynion cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, personau a chanddynt fuddiant mewn mwynau ar y tir hwnnw neu bersonau y mae'r gorchymynion cydsyniad seilwaith yn cael effaith er eu budd.

382. Wrth wneud hawliad i Weinidogion Cymru, mae gan y personau hynny hawlogaeth i gael eu digolledu gan Weinidogion Cymru am unrhyw wariant y mae'r personau wedi mynd iddo wrth gynnal gwaith (gan gynnwys gwaith paratoadol penodol a ddisgrifir yn is-baragraff (4)) a ddaw yn ofer o ganlyniad i newid neu ddirymu'r gorchymynion cydsyniad seilwaith.

383. Mae gan y personau hynny hawlogaeth hefyd, wrth wneud cais, i gael eu digolledu gan Weinidogion Cymru am unrhyw golled neu ddifrod arall y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r newid neu'r dirymu.

384. Mae is-baragraff (5) yn pennu nad yw digollediad yn daladwy mewn cysylltiad â gwaith penodol a cholledion penodol.

385. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr amserlen a'r broses ar gyfer gwneud hawliad am ddigollediad o dan y paragraff hwn.

Section 146 – Transitional and saving provision

376. This section makes transitional and savings provisions.

Section 147 – Coming into force

377. This section makes provision about when the provisions of the Act come into force.

Section 148 – Short title

378. The short title of this Act is the Infrastructure (Wales) Act 2024.

Schedule 1 – Provision relating to, or matters ancillary to, development

379. Schedule 1 is introduced by section 63. An infrastructure consent order may make ancillary provision (see section 63(3)) and the ancillary provision that may be made includes (among other things) provision that relates to the list of matters in Schedule 1.

Schedule 2 – Compensation for changing or revoking infrastructure consent orders

380. Schedule 2 is introduced by section 93 and makes provision about compensation for changing or revoking an infrastructure consent order.

Paragraph 1 – Changing or revoking an infrastructure consent order: compensation

381. Where an infrastructure consent order is changed or revoked by the Welsh Ministers without an application being made, this paragraph gives a right to compensation for certain losses to persons with an interest in land to which the infrastructure consent order relates, persons with an interest in minerals on such land or persons for whose benefit the infrastructure consent order has effect.

382. On making a claim to the Welsh Ministers, those persons are entitled to be paid compensation by the Welsh Ministers for any expenditure that has been incurred in carrying out work (including certain preparatory work described in sub-paragraph (4)) which is rendered abortive by the change to, or the revocation of, the infrastructure consent order.

383. Those persons are also entitled, on making a claim, to be paid compensation by the Welsh Ministers for any other loss or damage which is directly attributable to the change or revocation.

384. Sub-paragraph (5) specifies that compensation is not payable in respect of certain works and losses.

385. The Welsh Ministers may make regulations about the timeframe and the process for making a claim for compensation under this paragraph.

Paragraff 2 – Digolledu am ddibrisiant: cyflwyniad a themau allweddol

386. Mae'r paragraff hwn yn darparu bod paragraffau 3 i 9 yn gymwys pan fo digollediad am ddibrisiant o fwy na'r isafswm a bennir mewn rheoliadau yn dod yn daladwy.
387. Ystyr "digollediad am ddibrisiant" yn y paragraff hwn (a pharagraffau 3 i 10) yw digollediad sy'n daladwy mewn cysylltiad â cholled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir.
388. Mae'r paragraff hwn hefyd yn nodi diffiniadau eraill at ddibenion paragraffau 2 i 10.

Paragraff 3 – Dosrannu digollediad am ddibrisiant a phenderfynu ar anghydfodau

389. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch dosrannu digollediad am ddibrisiant a phenderfynu ar anghydfodau ynghylch dosraniad o'r fath.
390. Mae is-baragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddosrannu'r digollediad am ddibrisiant rhwng gwahanol rannau o'r tir y mae'r hawliad am ddigollediad yn ymwneud ag ef os ydynt yn ystyried ei bod yn ymarferol gwneud hynny ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi manylion unrhyw ddosraniad o'r fath i'r hawlydd ac unrhyw bersonau y maent yn ystyried bod y dosraniad yn cael effaith sylweddol arnynt.
391. Mae is-baragraff (2) yn nodi manylion sut y mae rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud dosraniad, rannu'r tir yn rhannau a dosbarthu'r digollediad am ddibrisiant rhwng y rhannau hynny yn ôl sut y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y rhannau hynny wedi eu heffeithio gan y gorchymyn a achosodd i ddigollediad fod yn daladwy.
392. Mae is-baragraff (3) yn nodi manylion y personau a gaiff atgyfeirio anghydfod ynghylch dosraniad digollediad i'r Uwch Dribiwnlys ac mae is-baragraff (4) yn nodi manylion y personau sydd â hawlogaeth i gael eu clywed gan yr Uwch Dribiwnlys.
393. Mae is-baragraffau (5), (6) a (7) yn gwneud rheolau sy'n gymwys pan gaiff anghydfod ynghylch dosraniad ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys.

Paragraff 4 – Hysbysiad o ddigollediad am ddibrisiant

394. Mae'r paragraff hwn yn nodi manylion y broses sydd i'w dilyn pan fo digollediad am ddibrisiant yn dod yn daladwy.
395. Pan fo digollediad am ddibrisiant yn dod yn daladwy, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno "hysbysiad digolledu" i'r cyngor ar gyfer y sir neu'r fwrdeistref sirol dros yr ardal lle y lleolir y tir neu unrhyw ran o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, ac (os nad y cyngor hwnnw yw'r awdurdod cynllunio dros yr ardal) i'r awdurdod cynllunio dros yr ardal.
396. Mae is-baragraff (2) yn nodi'r hyn y mae rhaid i hysbysiad digolledu ei gynnwys, ac mae is-baragraff (3) yn datgan bod hysbysiad digolledu yn bridiant tir lleol.

Paragraph 2 – Compensation for depreciation: introduction and key terms

386. This paragraph provides that paragraphs 3 to 9 apply where compensation for depreciation of more than the minimum amount specified in regulations becomes payable.
387. “Compensation for depreciation” in this paragraph (and paragraphs 3 to 10) means compensation payable in respect of loss or damage consisting of depreciation of the value of an interest in land.
388. This paragraph also sets out other definitions for the purposes of paragraphs 2 to 10.

Paragraph 3 – Apportionment of compensation for depreciation and determination of disputes

389. This paragraph makes provision about apportionment of compensation for depreciation and disputes about such apportionment.
390. Sub-paragraph (1) requires the Welsh Ministers to apportion the compensation for depreciation between different parts of the land to which the claim for compensation relates if they consider it practicable to do so and also requires them to give details of any such apportionment to the claimant and any persons they consider to be substantially affected by the apportionment.
391. Sub-paragraph (2) details how, in carrying out the apportionment, the Welsh Ministers must divide the land into parts and distribute compensation for depreciation between those parts according to how the Welsh Ministers consider those parts are affected by the order that caused compensation to be payable.
392. Sub-paragraph (3) details the persons who may refer a dispute about apportionment of compensation to the Upper Tribunal and sub-paragraph (4) details the persons who are entitled to be heard by the Upper Tribunal.
393. Sub-paragraphs (5), (6) and (7) make rules that apply on a reference of a dispute on apportionment to the Upper Tribunal.

Paragraph 4 – Notice of compensation for depreciation

394. This paragraph details the process to be followed when compensation for depreciation becomes payable.
395. When compensation for depreciation becomes payable, the Welsh Ministers must serve a “compensation notice” on a council of the county or county borough for the area in which the land or any part of the land to which the notice relates is situated, and (if that council is not the planning authority for the area) on the planning authority for the area.
396. Sub-paragraph (2) sets out what a compensation notice must include, and sub-paragraph (3) states that a compensation notice is a local land charge.

Paragraff 5 - Peidio â chynnal datblygiad hyd nes y bo digollediad yn cael ei dalu neu ei sicrhau

397. Mae'r paragraff hwn yn gwahardd person rhag cynnal datblygiad penodol ar dir y mae hysbysiad digolledu wedi ei gofrestru yn ei gylch hyd nes y bo unrhyw swm sy'n adenilladwy mewn cysylltiad â'r digollediad a bennir yn yr hysbysiad wedi ei dalu neu ei sicrhau er boddhad Gweinidogion Cymru.
398. Mae is-baragraff (2) yn nodi manylion y datblygiad y mae'r gwaharddiad yn gymwys iddo, ac mae is-baragraffau (3) a (4) yn nodi'r amgylchiadau nad yw'r gwaharddiad yn gymwys odanynt.

Paragraff 6 - Y swm sy'n adenilladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â digolledu

399. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i bennu'r swm sy'n adenilladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â digollediad a bennir mewn hysbysiad digolledu cofrestredig.

Paragraff 7 - Talu etc. swm sy'n adenilladwy

400. Mae is-baragraff (1) yn darparu bod swm sy'n adenilladwy yn daladwy i Weinidogion Cymru fel un taliad cyfalaf, fel cyfres o randaliadau cyfalaf a llog wedi eu cyfuno neu fel cyfres o daliadau blynyddol neu gyfnodol eraill a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru. Mae is-baragraff (2) yn nodi manylion y dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i ystyried sylwadau cyn iddynt arfer eu pŵer i wneud cyfarwyddyd o dan is-baragraff 1(c).
401. Mae is-baragraff (3) yn darparu, os nad yw'r swm sy'n daladwy yn cael ei dalu fel un taliad cyfalaf, bod rhaid iddo gael ei sicrhau yn y modd a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.
402. Os yw person yn dechrau datblygiad gan dorri paragraff 5, o dan is-baragraff (4) mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno hysbysiad i'r person sy'n pennu'r swm y maent yn ystyried ei fod yn adenilladwy o dan baragraff 6 ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person dalu'r swm hwnnw o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

Paragraff 8 - Adennill digollediad oddi wrth awdurdod caffael wrth gaffael yn orfodol neu werthu

403. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y mae gan Weinidogion Cymru hawlogaeth i adennill digollediad oddi wrth awdurdod caffael odanynt. Mae'r paragraff hwn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y swm sy'n adenilladwy.

Paragraff 9 - Darpariaethau cyffredinol ynghylch digolledu am ddibrisiant

404. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch digolledu am ddibrisiant ac yn darparu bod y rheolau yn adran 5 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (rheolau ar gyfer asesu digollediad) yn gymwys at ddiben asesu digollediad am ddibrisiant sy'n daladwy o dan yr Atodlen hon. Mae'r paragraff hwn hefyd yn gwneud amryw o ddarpariaethau penodol ynghylch digollediad am ddibrisiant pan fo buddiant mewn tir yn ddarostyngedig i forgais.

Paragraph 5 – Development not to be carried out until compensation paid or secured

397. This paragraph prohibits a person from carrying out certain development on land in respect of which a compensation notice has been registered until any amount that is recoverable in respect of the compensation specified in the notice has been paid or secured to the satisfaction of the Welsh Ministers.
398. Sub-paragraph (2) details the development to which the prohibition applies. And sub-paragraphs (3) and (4) set out the circumstances in which the prohibition does not apply.

Paragraph 6 – Amount recoverable by Welsh Ministers in respect of compensation

399. This paragraph sets out the rules that apply to determine the amount that is recoverable by Welsh Ministers in respect of compensation specified in a registered compensation notice.

Paragraph 7 – Payment etc. of amount recoverable

400. Sub-paragraph (1) provides that an amount recoverable is payable to the Welsh Ministers as a single capital payment, as a series of instalments of capital and interest combined or as a series of other annual or periodical payments as the Welsh Ministers may direct. Sub-paragraph (2) details the duties on the Welsh Ministers to take representations into account before they exercise their direction-making power under sub-paragraph 1(c).
401. Sub-paragraph (3) provides that if the amount payable is not paid as a single capital payment, it must be secured in such way that the Welsh Ministers direct.
402. If a person begins development in breach of paragraph 5, under sub-paragraph (4) the Welsh Ministers have the power to serve a notice on the person specifying the amount they consider to be recoverable under paragraph 6 and requiring the person to pay that amount within a period specified in the notice.

Paragraph 8 – Recovery of compensation from acquiring authority on compulsory acquisition or sale

403. This paragraph makes provision about the circumstances in which the Welsh Ministers are entitled to recover compensation from an acquiring authority. This paragraph also makes provision about the amount that is recoverable.

Paragraph 9 – General provisions about compensation for depreciation

404. This paragraph makes general provision about compensation for depreciation and provides that the rules in section 5 of the Land Compensation Act 1961 (rules for assessing compensation) apply for the purpose of assessing compensation for depreciation that is payable under this Schedule. This paragraph also makes various specific provisions about compensation for depreciation where an interest in land is subject to a mortgage.

Paragraff 10 – Penderfynu ar geisiadau am ddigollediad

405. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gwestiwn ynghylch digollediad y ceir anghydfod yn ei gylch gael ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'i benderfynu ganddo.

Atodlen 3 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

406. Mae Atodlen 3 wedi ei chyflwyno gan adran 145 ac mae'n nodi diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

407. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

<https://busnes.senedd.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?lId=41502>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	12 Mehefin 2023
Cyfnod 1 - Dadl	5 Rhagfyr 2023
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	22 Chwefror 2024
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	19 Mawrth 2024
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	16 Ebrill 2024
Y Cydsyniad Brenhinol	3 Mehefin 2024

Paragraph 10 – Determination of claims for compensation

405. This paragraph requires any question of disputed compensation to be referred to and determined by the Upper Tribunal.

Schedule 3 – Consequential amendments and repeals

406. Schedule 3 is introduced by section 145 and sets out consequential amendments and repeals.

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

407. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:

<https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=41502>

Stage	Date
Introduced	12 June 2023
Stage 1 - Debate	5 December 2023
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	22 February 2024
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	19 March 2024
Stage 4 Approved by the Senedd	16 April 2024
Royal Assent	3 June 2024



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-11976-3



9 780348 119763